Bodleian Libraries
UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

26521 e. 225

# Ariangarwch,

NEU

# WREIDDYN POB DRWG.

---

GAN

**Samuel Roberts, Llanbrynmair.**

---

GYDA

## RHAGDRAITH.

GAN

**William Rees, Dinbych.**

---

GWYNDOD-WRYF:

**Llanrwst:**

ARGRAFFWYD GAN JOHN JONES.

---

1837.

Bt. from widow of Bob Owen, Croesor.

LIBRA[RY]

# Y RHAGDRAITH.

## At y Darllenyddion.

ANWYL gydwladwyr, y mae yn llawen genyf gael argymell y Traethawd hwn i'ch sylw, a hyderus obeithiaf, gan fod yr Awdwr mor adnabyddus, a'i alluoedd fel ysgrifenydd mor hysbys i chwi oll, y caiff y Traethawd hwn o'i eiddo ar fater mor dra angenrheidiol, dderbyniad cyffredinol, darlleniad manylaidd, ac ystyriaeth ddifrifol genych.

Y mae yn hysbys i lawer o honoch, i gynhygiad o *gan' punt* o wobr am y Traethawd goreu ar Gybydd-dod yn yr iaith Saesonaeg, gael ei roddi gan un Dr. Conquest, o Lundain, yn y flwyddyn 1835; ac i uwchlaw cant a deugain gael eu hanfon i'r gystadleuaeth, yr oedd yr un canlynol yn eu mysg, ac yn cael ei restru yn mhlith y goreuon; er mai arall a gafodd y wobr. Y mae yn ddiameu bod cymaint o angen Traethawd ar y mater hwn yn y byd Crist'nogol y dyddiau hyn ag ar unrhyw fater a ellid meddwl am dano; a bod cymaint, os nid mwy, o angen un yn yr iaith Gymraeg ag oedd yn yr iaith Saesonaeg,—bod cybydd-dod yn bechod mòr barod i amgylchu y Cymro, â'r Sais: oddiar yr ystyriaethau hyn anogasom ein cyfaill, a chydsyniodd yntau â'n cais, i osod ei Draethawd, a ysgrifenwyd ganddo mewn iaith arall, ger bron ei gydwladwyr yn eu hiaith gysefin.

Y mae y drwg a ddysgrifir yn y Traethawd canlynol, yn ei natur ysgeler, a'i ddylanwadau a'i effeithiau dinystriol ar ddedwyddwch personol, rhinwedd gyffredinol, a llwyddiant crefyddol, wedi cael hir amser i ledu ei wreiddiau crafangog, a'i frigau breisgion,—a dwyn ffrwythau surion ag y sydd wedi codi y dincod ar ddannedd y byd a'r eglwys, heb i unrhyw ymdrechiad gorchestol gael ei wneuthur yn ei erbyn—er ysgythru ei gangenau, ac atal ei ffrwythau peryglus rhag taenu marwoldeb a syfrdandod trwy holl gorph rhinweddau gwladol a chrefyddol. Gadewid datganiadau pendant y Bibl yn ei erbyn, heb eu crybwyll ond lled anfynych, fe allai; gadewid yr arfau miniog hyny a roddodd Duw yn ein dwylaw i wrth-ladd y gelyn hwn i bob daioni, i aros yn llonydd yn yr arfdy heb eu dwyn allan a'u defnyddio fel y dylasent gael; fel, ar y cyfan, y mae yn achos o syndod bod cymaint ag y sydd o yspryd haelfrydedd wedi byw yn y byd ag y sydd yn eistedd yn llonydd, ac yn gorwedd yn dawel yn y drygioni hwn. Dynion, heb fyned i raddau anghyffredinol yn yr yspryd hwn, a gyfrifir yn synwyrol gan y byd, ac yn barchus gan yr eglwys, a ddodir mewn swyddau o barch ac ymddiried gan y naill a'r llall. Os bydd cybydd i'w gael mewn eglwys, ac odid fawr na bydd, damwain ryfedd yw os na bydd yn swyddog ynddi; ac fel hyn y mae y byd a'r eglwys hefyd yn "bendithio y cybydd, yr hwn y mae yr Arglwydd yn ei ffieiddio!" Ond yr awr hon, o'r diwedd, wele, y mae y fwyall wedi ei gosod ar wreiddyn y pren. Y mae rhyw ymosodiadau grymus ac egnïol yn cael eu gwneuthur y dyddiau hyn yn erbyn llygredigaethau yr oes, ac o blaid rhinwedd a duwioldeb. A thra y byddo y "MAMON," y traethawd buddugol ar

gybydd-dod, a thraethodau ereill a ysgrifenwyd ar y mater, ag a ydynt wedi eu hargraffu, yn ymosod arno yn Lloegr, anfonir y traethawd hwn i wersyll yr Assyriaid yma yn Nghymru, gyda dymuniad a gweddi am iddo fod yn angel dinystriol yno, nes iddo ffoi gyda chywilydd, a syrthio yn y diwedd trwy ddwylaw ei feibion ei hun, fel y Senacherib cableddus gynt.

Nid wyf yn ameu os bydd i'r cyfarwyddiadau meddygol a gynhygir yn y traethawd hwn gael eu priodol ddefnyddio, na bydd i'r pla hwn gael ei symud, ac y bydd i yspryd haelfrydedd a chymwynasgarwch gymeryd lle yn mynwesau y darllenyddion. Pe gellid ond gweithio eglwys Crist i ystyriaeth a theimlad teilwng o'r niweidiau a wnaeth iddi, byddai gobaith da am ei hadferiad a'i diwygiad oddiwrtho. Hwn yw y pryf rhŵd a ysodd y gwyrddlesni,—a ddifaodd y blodeu,—ac a wywodd y prydferthwch â'r hwn y gwisgid hi yn ei dyddiau boreuol. Dyma'r estron a fwytaodd ei chryfder heb yn wybod iddi. Y penwyni a ymdaenodd trosti heb ei bod yn deall. Bu megys maen trwm ar ei hysgwyddau am oesau, o tan yr hwn y cydgrymai fel na allai mewn modd yn y byd ymuniawni. Rhwymodd yspryd bydol ei dwylaw fel na allai weithio: llyffetheiriodd ei thraed fel na allai rodio: torodd ei hadenydd fel na allai ehedeg fel yn y dyddiau gynt: cadwynodd hi wrth y ddaear, ac ataliodd ei masnach â'r nef: llwfrâodd ei chalon, sychodd ei bronau, trôdd ei hirder yn sychder haf. Cymylodd ei gogoniant, llesteiriodd ei llwyddiant, ataliodd ei chysur, fel nad oes ganddi yn awr yn nyddiau ei hadfyd ond cofio yr holl wychder a'r hoewder oedd iddi yn y dyddiau gynt: estynodd y gelyn hwn ei law ddifrodawl at ei holl hoff-bethau hi, a halogodd ei chorn yn y

llwch. Pa beth a ddywedai Ioan, y dysgybl anwyl, a'r duwinydd ysprydoledig, yn awr, pe gwelai y wraig a welodd gynt wedi ei gwisgo â'r haul, a'r lleuad dan ei thraed, a choron o ddeuddeg seren ar ei phen, wedi ei gwisgo â'r clai tew, yn suddo yn y pridd tomlyd, a llwch y ddaear yn lle y goron serenog ar ei phen.

Y mae yr Awdwr, wrth osod allan niweidiau yspryd cybydd-dod yn yr eglwys, megis un yn deffro ac yn ymwregysu, yn galw yn nghyd ei holl alluoedd, ac yn tywallt arno holl gynddaredd ei nerth.

Wrth ymdrin â chybydd-dod fel pechod yr eglwys, dywed Awdwr y "Mamon" fel y canlyn,—"Eto, pan ail ofynom yr holiad pwysig,—a dymunem ei ofyn yn bwyllog a difrifol, a chydag awyddfryd i dderbyn llawn argraffiad oddiwrth yr unig atebiad priodol a ellir ei roddi iddo;—Pa beth a ataliodd yr efengyl rhag cyflawni ei bwriad cyntaf, a pheri effeithiad perffeithgwbl a chyffredinol? Pa beth a'i rhwystrodd i lenwi pob talaeth, yr holl fyd, yr holl deulu dynol, â'r un yspryd o ddwyfol gymwynasgarwch? Pa ham, yn y gwrthwyneb y bu yr efengyl, peiriant mawr y dwyfol gariad, yn cael ei bygwth, oes ar ol oes, â methiant? *O herwydd ffalsedd y rhai hyny y perthynai ei gweinyddiad yn unig; yn hollol o herwydd cybydd-dod yr eglwys.* Ni adawyd yr un elfen angenrheidiol er ei llwyddiant allan o'i threfniant; yr holl elfenau hyny oeddynt bob amser yn meddiant yr eglwys; ni chyfododd un ffurf newydd o ddrygioni yn y byd; ni ymddangosodd yr un gwrthwynebydd, yr hwn na ddarfu i'r efengyl ei wrthladd a'i ddarostwng yn ei tharawiad cyntaf allan; eto, yn y radd bell hon o'i bodoliaeth, pan y gallasai fod yn gorphwys megis ar ol gorchfygu y byd: gwrendy yr eglwys ar adroddiad

hanes ei buddugoliaethau boreuol, fel pe bwriadesid hwynt yn unig i'w canmol a'u rhyfeddu, ac nid i'w hefelychu; fel pe cynwysent ormod o ffughanes haelfrydedd i gynyg gwneyd eu cyffelyb eto;—yn awr, pan y dylasai fod yn dàl y byd fel ei thalwobr, y mae yn unig yn meddiannu ychydig o daleithiau gwasgaredig fel trwy oddefiad, megis; a chanddi i ail ddechreu ei hymdrechion eto. Ac yr ydym yn ail ddweyd, mai yr unig eglurâad cyfaddas o'r ffaith annghysurus hon yw, *Bod cybydd-dod, pechod y byd, wedi dyfod yn bechod llywodraethol yr eglwys hefyd.* Dychon i'r gosodiad, yn wir, ymddangos yn annghyson â'r gwirionedd, mai yr eglwys yw unig drysorgell a gweinydd yr haelfrydedd dwyfol. Ond i gymodi y ddau, ni raid ond yn unig cofio, nad yw pob rhan gyfansawdd o'r eglwys hon, calon pob Cristion, a'i chymeryd ar ei phen ei hun, ond talfyriad megis o gyflwr y byd;—yn sancteiddiedig mewn rhan, ac mewn rhan yn llygredig:—yn cynwys ynddi, y mae yn wir, egwyddor ddwyfol o adnewyddiad; egwyddor a fwriedid i fod yn fuddugol yn y diwedd, ond yr hon y mae ganddi, er hyny, i sefyll ei thir trwy ymdrechion parâol; ac, ar amserau, i ymegnio hyd yn od am ei bodoliaeth. Pan ei golygir yn gyffredinol, gellid edrych ar yr eglwys fel meddygdy mawr, yn llawn o rai ydynt oll yn wir tan feddyginiaethiad, ond y rhai y mae ganddynt oll achos i gwyno o herwydd dwfnreddfiad eu clwyf, ac o ganlyniad, o herwydd arafwch graddol eu hadferiad. Gan hyny y mae yn dybynu ar y graddau y defnyddiont y moddion iachâol eu hunain, pa un a ddeuant i fod yn weithgar a defnyddiol fel offerynau i adferyd eu cyd-ddynion marwol, ai peidio.

Y cŵyn yn eu herbyn yw, na ddarfu iddynt roddi

eu hunain i fynu i'r cyfarwyddyd dwyfol—meddyginiaeth fawr yr efengyl; o ganlyniad, y maent yn parâu i lafurio trwy holl dymor eu bywyd o dan effeithiau analluogawl eu hafiechyd gwreiddiol; a'u hofferynoliaeth iachâol a gedwir yn hollol oddiwrth y byd afiach a marwol.

*Hunanoldeb, afiechyd y byd, ydyw pla mawr yr eglwys hefyd.*

Byddai yn waith lled hawdd ac effeithiol dynodi graddau y trosiad, *(transition)* arswydus hwnw, trwy yr hwn yr elai yr eglwys o wresogrwydd ei chariad cyntaf, i'r hunanolrwydd a amlygai wedi hyny. A'i golygu yn ei chyflwr cyntaf, ymddengys fel aberth tanllyd, yn offrymu ei hunan i fynu yn fflamau o sêl hunanddifäol am iachawdwriaeth y byd. Ond, ac edrych arni drachefn wedi yr yspaid o ychydig ganrifau, pa mòr gyfnewidiol yr olygfa! Y mae yn offrymu yr un byd i fynu i'w hunanolrwydd ei hun!—y mae ei thân cyntefig wedi llosgi allan, ac y mae yn cyneu tân dyeithrol i aberth arall; gan offrymu y byd fel diofrydbeth ar amrywiol greiriau ei gyfoeth, ei fawredd a'i falchder. O fod yn ddrych o'r anhunanolrwydd a'r cariad dwyfol, yn tynu ati syndod y byd, ac yn enill dynion i efelychu ei haelfrydedd, hi a basiodd trwy yr amrywiol raddau o ddyrywiad ysprydol, yn edrych tros ganlyniadau pethau, yn tyfu yn ddiofal am ei dyledswyddau, yn troi ei dylanwad i ffrydleoedd bydol, yn troi pob peth cyssegredig i fod yn îs-wasanaethgar i fawredd ac elw bydol, nes y daeth yn ddrych angenfilaidd o hunanoldeb holl grafangog oddiwrth yr hwn y gallai hyd yn od y byd ei hun ddysgu gwersi yn y gelfyddyd o drachwantu!"

Yn awr, feibion a merched Sïon, oni bu hyn? Y

mae y gosodiad yn rhy erchyll i'w addef, ond yn rhy wir i'w wadu. Y mae yr euogrwydd yn gorwedd ar yr eglwys er ys llawer cant o flynyddau bellach. Yn awr, ai dychonadwy iddi godi ei golygon ac edrych ar y byd llydan, a gweled llawer ymerodraeth fawr, llawer talaeth fras, llawer ynys ëang, yn gorwedd mewn tywyllwch, yn cael eu tôi trostynt â chysgod angeu, yn y rhai yr heuodd amser filiynau o hadau dynol, ac y medodd twyll a choelgrefydd gnydau toreithog oddiarnynt am gannoedd o dymorau, tra yr oedd hi yn cysgu a'i phen ar arffed y byd? A ddychon iddi edrych, meddaf, ar y meusydd ëang-feithion hyn, i'r rhai y dylasai fod wedi bwrw ei chryman er ys oesau, a medi llawer cynhauaf ffrwythlawn i'w Phrynwr oddiarnynt, heb guro ei dwyfron mewn gofid a hunan-edliwiad, a dywedyd, "O fy nghulni! O fy nghulni!" A ddychon iddi adolygu ei chyflwr cyntefig, pan oedd ei "chyfiawnder yn myned allan fel goleuni, a'i hiachawdwriaeth fel lamp yn llosgi;" pan oedd "gwaed Crist," fel y dywedai un, "yn rhedeg yn gynes yn ei gwythenau;" pan oedd ei gariad yn cyneu ac yn llosgi yn mhob calon, a'i ddelw yn argraffedig ar bob ymddygiad; pan oedd y byd tan ei thraed, y nefoedd yn ei chalon, a gogoniant Duw ac iachawdwriaeth dynion o flaen ei llygaid; pan oedd yn goresgyn pob cŵr y sangai ei throed arno, gan ddryllio cestyll, goresgyn tyrau, tynu i lawr bob ymchwydd a dych'mygion, yn caethiwo meddyliau miloedd o ddynion i ufudd-dod Crist; yn rhanu ysglyfaeth yspail fawr, ac yn trais-dynu y byd i blygu ger bron Gwaredwr croeshoeliedig, heb yr un arf rhyfel, ond y gwirionedd noeth yn ei dwylaw; a ddychon iddi edrych ar, ac ystyried y pethau hyn, a'u cydmaru â'i gweithrediadau presenol, heb deimlo

yn alarus ei bod wedi dyrywio, colli ei nerth a'i chariad cyntaf! Ond pa fodd y bu hyn? pan oedd y byd yn ei herlid ac yn ei baeddu, yn gwgu arni ac yn ei gwaradwyddo, yr oedd hi yn llwyddo ac yn gorchfygu: pa fwyaf a ddyoddefai tros Grist, mwyaf i gyd oedd ei chariad ato; a'i sêl o blaid ei achos a chwythid yn fflam angerddol gan wynt erledigaeth. Y blinder yn nghylch Stephan a ddygai wreichionen o'r tân i Samaria, ac a roddodd yr holl ddinas hono ar dân. Carcharu Paul am bregethu a wnaeth i lawer o'r brodyr fyned yn hyfion i draethu y gair yn ddiofn: o lwch un merthyr cyfodai i fynu gant o gyffeswyr. Ond wedi i'r byd ddechreu gwenu arni, Och, gyfnewidiad! talodd y moes yn ol iddo—daeth i gytundeb âg ef,—dechreuodd fasnachu yn ei aur, a'i arian, a'i feini gwerthfawr, ac i aberthu achos ei Phrynwr ar ei allorau, a'i wneuthur yn îs-wasanaethgar i ddybenion bydol. Yn fuan y gwelwyd hi wedi ei "gwisgo â phorphor, yn eistedd ar fwystfil o liw ysgarlad, a chwpan aur yn ei llaw, ac yn diodi yr holl genhedloedd â gwin llid ei godineb." Pan ymwychodd âg addurniadau allanol, hi a gollodd ei harddwch mewnol; pan yr aeth i ymgolurio âg aur ac arian, a pherlau daearol, hi a ymddyosgodd o'i holl wychder nefol. Collodd ddoniau ac addurniadau yr Yspryd: pan y daeth i gysylltiad â'r byd, hi a dorodd ei chysylltiad â Christ; aeth i buteinio gyda brenhinoedd y ddaear, a daeth i fod yn "FAM PUTEINIAID A FFIEIDD-DRA Y DDAEAR!" Mewn gair, pan y daeth i fod yn gyfaill i'r byd, aeth yn elyn i Dduw. Ni oddefai i'r ychydig ffyddloniaid a gadwent eu gwisgoedd heb eu halogi, i fyw o fewn ei chymundeb, na mwynhau rhyddid na heddwch y tu allan iddo

chwaith. Bu am oesau mewn cysylltiad â'i gorderchwyr, brenhinoedd y ddaear, yr awdurdodau gwladol, duciaid, pendefigion, a barnwyr y byd, yn ymdrechu trwy rym y cleddyf, a charcharau, a fflamau, i lwyr ddifa crefydd bur allan o'r byd; i ddiffoddi y tân sanctaidd oedd yn cyneu yn mynwesau yr Albigensiaid a'r Waldensiaid apostolaidd, yn nyffrynoedd Piedmont a glynau yr Alpau, nes o'r diwedd bron hollol lwyddo. Aeth nid yn unig yn gyfranog â brenhinoedd, ac yn gydradd â hwynt, ond hefyd i honi uchafiaeth arnynt; gwelwyd hwynt yn plygu ac yn ymostwng wrth ei thraed, a hithau yn sangu ar eu gwarau: nid ystyrient eu coronau yn sefydlog ar eu penau oni byddai ei dwylaw hi wedi eu gosod; ei bendith a ystyrid ganddynt yn werthfawrocach na'u gorseddau, a'i melldith a ofnent yn fwy nag uffern ei hun! Aeth i gymeryd arni eu hanrhegu â thitlau o anrhydedd; galwai un yn *"*Fab hynaf yr eglwys*," un arall yn †"*Amddiffynydd y ffydd:*" ac ni orphwysodd ar hyn chwaith, aeth i "ymddyrchafu goruwch pob peth a elwir yn Dduw, i eistedd yn nheml Dduw, ac i'w dangos ei hun mai Duw ydyw." i hòni awdurdod i faddeu pechodau, i gau ac i agor drysau y nef ac uffern; i draws honi awdurdod ar gydwybodau dynion, ac i werthu am arian bethau mwyaf cysegredig crefydd, ac eneidiau dynion hefyd. "Gwreiddyn yr holl ddrwg hwn oedd ariangarwch."

O garneddau y dyrywiad cyffredinol hwn y cyfododd yr Arglwydd eglwys burach iddo ei hun, yn amser y diwygiad Protestanaidd: glynodd llawer o rwd a llygredd yr eglwys Babaidd wrth wisgoedd yr un Brotestanaidd, ac ambell gangen o honi nid yw yn gwahaniaethu nemawr oddiwrthi ond yn unig mewn

* Brenhin Ffrainc. † Brenhin Lloegr.

enw; a'r cangenau puraf ydynt yn dwyn gormod o'i delw; graddol iawn yw ei hadferiad o'r daearglwyf, cybydd-dod a bydolrwydd. Yr oll a wnaeth eglwys Crist er efengyleiddio y byd o ddyddiau Luther hyd y dyddiau presenol, nid yw ond ychydig mewn cydmariaeth,—nid yw wedi gweithio ond megys trwy ei hûn. Ychydig iawn o broffeswyr Crist'nogaeth sydd wedi deall, ystyried, a theimlo eu rhwymedigaethau fel Crist'nogion; wedi meddwl erioed pa beth y mae y grefydd a broffesant yn ofyn ganddynt, ac yn ei ddysgwyl oddiwrthynt. Ychydig iawn, mewn cydmariaeth, a gydsyniant â'i honiadau, a gyflwynant eu hunain, gorph a chalon, a meddiannau, yn ebyrth ar ei hallorau,—a ystyriant eu hunain, a'r oll sydd ganddynt, nid yn eiddo iddynt eu hunain, ond i'r hwn a fu farw trostynt—a ddeuant ac a offrymant eu hunain yn wirfoddol at y gwaith mawr yr aberthodd *Apostol ac Archoffeiriad eu cyffes* ei hunan yn hollol iddo; sef adferu byd dyrywiedig yn ol at Dduw, i sancteiddrwydd a dedwyddwch. Llwyr roddodd Mab Duw ei galon i'r gwaith; ni welodd yr un aberth yn ormod i'w gwneyd:—rhoddodd ei gorph i'r curwyr, ei gernau i'r rhai a dynent y blew—ei wyneb i waradwydd a phoeredd—ei ben i'r drain—ei ddwylaw a'i draed i'r hoelion—ei ystlys i'r waywffon—a'i enaid i farwolaeth. "*Yr hwn, ac efe yn gyfoethog, a ddaeth er ein mwyn ni yn dlawd.—Yr hwn a'i rhoddes ei hun drosom, &c.* Ei ymroddiad ef sydd i fod yn gynllun o'r eiddom ninau: os na welodd ef ddim ag oedd ganddo yn ormod ac yn rhy werthfawr i'w aberthu, ni ddylem ninau edrych ar ddim felly. Ni feddylia dynion yn gyffredin wrth ymaflyd mewn proffes o grefydd am gynyg dim ond eu heneidiau, i gael eu cadw rhag

uffern, a'u cyrph i ymddangos yn awr ac eilwaith yn nhŷ, a chydag ordinhadau Duw, i'r dyben o gadw iachawdwriaeth eu heneidiau yn eu cyraedd, megys; ond am eu meddiannau, eu haur a'u harian, cedwir y rhai hyny yn ofalus ganddynt, ac ni chyfranant at achosion crefyddol ond cyn lleied a fyddo bosibl: gweddillion pob achos arall a gaiff achos Mab Duw. Dynion bydol wedi ymlusgo i mewn i'r eglwys ydynt; ni newidiasant ddim ond eu henwau; cyfrifir a gelwir hwy yn ddynion crefyddol yn awr, yr hyn ni wneid o'r blaen, ond yr un yw eu hegwyddorion a'u dybenion; byw iddynt eu hunain y maent eto; trin y byd—eu masnach,—iddynt eu hunain, ac nid fel goruchwylwyr tros Dduw. Gwnant grefydd yn îs-wasanaethgar i ddybenion bydol, ac nid y byd i ddybenion crefyddol; aberthant grefydd ar allorau y byd, ac nid y byd ar allorau crefydd; offrymant achos Crist i'w gwasanaethgarwch eu hunain, ac nid eu hunain i'w wasanaethgarwch ef.

Y mae yn ddiareb gyffredin yn mysg Crist'nogion, fod "Crefydd yn llawer rhatach tan yr oruchwyliaeth hon nag oedd tan yr oruchwyliaeth Iuddewig." h. y., nad yw yn gofyn cymaint o aberthau at draul ei chynhaliaeth yn awr ag oedd gynt: ac y mae llawer o *gyfarwyddwyr y bobl wedi peri iddynt gyfeiliorni* yn y mater hwn, trwy ddysgu hyn o'r areithfäoedd; ac felly wedi bod yn euog o ddysgu cybydd-dod, a'i bregethu i ddynion. Ni allesid coginio tamaid mwy melus a blasus at archwaeth byd ac eglwys na hwn; nac ychwaith yr un mwy chwerw a diflas i archwaeth pob Cristion ag y byddo taflod ei enau yn ei le, ac yn deall cam flas. Pa beth, crefydd i fod yn rhatach yn awr nag oedd gynt? Pa ham? Ai nid yw o gymaint

gwerth yn awr a chynt? A ydyw yn llai ei gogoniant tan yr oruchwyliaeth hon nag oedd tan yr hen? A ydyw yr oruchwyliaeth efengylaidd wedi tywyllu a gwaelu crefydd a'i hordinhadau? Os cynhygir, ac os gellir profi hyn, yna, caniatâwn y gosodiad. Ond os yw yn *rhagori mewn gogoniant*, yn amgenach yn ei chyfansoddiad, yn eglurach a goleuach trwyddi oll, os yr oruchwyliaeth oreu a helaethaf ei breintiau a'i manteision ydyw, o ganlyniad, y mae yn rhesymol dysgwyl ei bod yn gofyn mwy oddiwrth y rhai sydd yn byw tani, mewn cyferbyniad i'w rhagoroldeb, nag a ofynid at achos crefydd tan yr hen oruchwyliaeth. Nid oes nn tir-ddeiliad a ddysgwylia ostyngiad yn ei ardreth, wedi i'w feistr dynu i lawr hen dŷ candryll, ac adeiladu tŷ newydd helaethach, harddach, a mwy cyfleus iddo, ac ychwanegu at ei dir gyda hyny; nid yw yn dysgwyl amgenach na bydd yn gofyn codiad cyfatebol i helaethrwydd y gwerth a'r manteision a ychwanegwyd iddo: eto, y mae dynion yn dysgwyl peth fel hyn gan Dduw. Y mae maes dyledswyddau Crist'nogion yn helaethach tan yr oruchwyliaeth hon hefyd: nid oedd gan yr oruchwyliaeth hono ond gwlad Canaan yn unig i'w llafurio, nid oedd crefydd i gael ei lledanu tros y byd yn gyffredinol: ond gorchymyn mawr diweddaf y Gwaredwr oedd, "Ewch i'r holl fyd, a phregethwch yr efengyl i bob creadur." Yn awr, "Pa fodd y pregethant oni's danfonir hwynt?" A pha fodd y danfonir hwynt ond ar draul haelfrydedd Crist'nogion? Ac onid cybydd-dod yr eglwys a gadwodd y byd cyhyd heb efengyl?

Pe byddai yr Arglwydd Iesu Grist ei hun yn y byd y dyddiau hyn, ac yn sefyll yn mhorth ei eglwys, i holi miloedd o ymgeiswyr am le ynddi am ei hegwydd-

orion, y mae lle i ofni y gwelid lluaws mawr yn myned ymaith yn athrist tuag adref, fel y gŵr ieuanc gynt, o herwydd bod eu calonau yn ymlynedig yn eu cyfoeth; ac na allent deimlo parodrwydd i wneyd yr aberthau a ofynid ganddo. Y mae dynion am bob peth yn rhad, ond yn neillduol crefydd; y mae arnynt yn gyffredin fwy o ofn aberthu dim o'u meddiannau yn achos hon nag unrhyw achos arall: gwelir yn fynych y dynion oeddynt yn ngwasanaeth diafol a phechod yn foddlon i wneuthur pob aberthau, eu cyrph a'u heneidiau, eu hamser a'u meddiannau: ond wedi dyfod at achos Crist, mawr y cyfnewidiad; o'r blaen, ymddangosent fel yn edrych ar yr holl bethau mawrion a wnaent fel yn rhy fychan; yn awr, edrychant ar y pethau lleiaf fel yn ormod. Yn yr hen wasanaeth, yr oeddynt fel pe buasent yn myfyrio pa fodd i wneyd digon; yn awr y maent fel yn myfyrio pa fodd y gallant beidio a gwneyd dim, fel pe buasai y diafol yn deilyngach meistr na Duw; neu, fel pe buasai yn fraint iddynt hwy gael gwasanaethu Satan, ac yn fraint i Dduw i gael gwasanaeth mewn enw ganddynt.

Y mae un peth tra beius y sylwais arno mewn amrywiol eglwysi gyda golwg ar y mater hwn, hyny yw, y gofal a gymerir i gadw oddiwrth aelodau newyddion unrhyw draul a fyddo yn myned gyda chynhaliaeth yr achos. Os bydd rhyw fater arianol i ymdrin ag ef, gofelir peidio a'i grybwyll yn mhresenoldeb dychweledigion ieuainc, rhag eu digaloni a'u dychrynu, fel y dywedir. Ond, ai fel hyn yr ymddygai Iesu Grist? Na, efe a ddywedai yn noeth, ac yn wyneb pob un a fynai fod yn ddysgybl iddo ef, yr aberthau a fyddai raid iddo wneuthur. Y gŵr ieuanc goludog a nodwyd eisioes a wasanaetha fel un engraifft

allan o laweroedd. Pan ddywedai un wrtho, "Mi a'th ganlynaf i ba le bynag yr elych." Dywedai yntau, "Y mae gan y llwynogod ffauau, ac adar y nefoedd nythod, ond gan Fab y dyn nid oes lle i roddi ei ben i lawr." "Pwy bynag nid ymwrthodo â chymaint oll ag a feddo, ni all efe fod yn ddysgybl i mi," &c. Gonestrwydd noeth a nodweddai ei holl ymddygiad ef; ni wnai na chuddio na darn-guddio unrhyw wirionedd o ŵydd dynion, pa mor annerbyniol bynag y gallai fod ganddynt: gofynai am yr holl aberthau angenrheidiol eu gwneuthur i'w ddysgyblion ar eu cychwyniad cyntaf allan fel canlynwyr iddo ef, a gadawai hwynt at eu dewisiad i fyned yn ol neu yn mlaen. Ac nid yw y pethau hyn i'w cadw eto o ŵydd y sawl a fynont fod yn ganlynwyr iddo, ond yn hytrach i'w gwasgu atynt fel dyledswyddau pwysig; a'r diffyg o hyn ydyw yr achos, mewn rhan fawr, bod eglwys Crist o nodweddiad mor grintachlyd y dyddiau presenol.

Dyledswydd arbenig gweinidogion a swyddogion eglwysig ydyw gwneyd yn eglur, a gwasgu yn ddwys yr honiadau sydd gan grefydd Crist ar ei phroffeswyr at eu hystyriaethau: ei bod yn eu hòni hwy a'r hyn oll sydd ganddynt; nad ydynt i gadw dim iddynt eu hunain; ïe, nad ydynt mwyach yn eiddo iddynt eu hunain; eu bod i wneuthur pob peth er gogoniant i Dduw, gan eu bod wedi eu prynu er gwerth.

Effaith dysgeidiaeth ddrwg ei hathrawon, neu ddiffyg yn y ddysgeidiaeth, yw cybydd-dod eglwys Crist mewn rhan fawr: a phan ddelo y ddysgeidiaeth i'w lle yn y mater hwn, y mae lle i obeithio y gwelir diwygiad buan. Pan y delo esiampl Iesu Grist yn dysgu dynion i gael ei chymeryd a'i dylyn gan ei holl

weision a swyddogion ei dŷ, bydd teyrnasiad cybydddod yn yr eglwys ar ben; bwrir y diafol hwn allan i'r byd, a phurir y lle sanctaidd oddiwrth ei halogrwydd. Y mae yn ddiameu na sefydlwyd yr un grefydd erioed yn mysg dynion, mor uched ei honiadau, yn gofyn y fath aberthau, a hunan-ymwadiad, â'r grefydd Grist'nogol, ond ni bu gan yr un twyllwr erioed y fath gymhelliadau i ofyn y cyfryw aberthau at y grefydd a gynygiai i ddynion. Yr oedd yr Arglwydd Iesu Grist yn gydwybodol o uchafiaeth y tir yr oedd yn sefyll arno, pan yr oedd yn gofyn y pethau hyn oddiwrth ddynion; yr oedd ef yn *diddymu angeu, ac yn dwyn bywyd ac anllygredigaeth i oleuni,* yn addaw bywyd tragwyddol, adgyfodiad gogoneddus yn y dydd diweddaf, ac yn ardystio gwirionedd ei addewidion trwy wyrthiau mawrion: fel hyn y mae y grefydd Grist'nogol yn dàl allan ragorfreintiau anfeidrol werthfawrocach ger bron dynion nag a gynhygia unrhyw grefydd arall wneyd, ac na dim ag y mae yn galw ar ddynion eu haberthu er mwyn eu cyrhaeddyd a'u mwynhau: ac un prawf neillduol o wirionedd a dwyfoldeb crefydd Crist ydyw, y wyneb hyf a wisga wrth anerch dynion, a'r honiadau uchel a ofyna oddi wrthynt, ac a gymella arnynt.

Y mae yn amheus iawn genyf fi, nad ydyw casglu a phentyru arian et eu gilydd yn bechod tan yr oruchwyliaeth hon: ac yr wyf yn gryf o'r farn na ddylai Crist'nogion proffesedig wneyd; oblegyd, beth yw arian, ond moddion defnyddioldeb i ddynion? A pha ddyben da a defnyddiol a atebant yn dyrau ar eu gilydd? Ni wna tomen o wrtaith unrhyw lesâd i'r tir heb ei gwasgaru ar hyd-ddo, ac felly ni wna aur ac arian wrth eu trysori yn bentyrau ar eu gilydd: ni all

Cristion ogoneddu Duw, na llesâu ei gyd-ddynion trwy gasglu arian, ond gall wneyd y ddau trwy eu cyfranu at achosion teilwng. Y mae cymaint o achosion a gwrthrychau teilwng yn dysgwyl wrthym, *y mae genym y tlodion gyda ni bob amser*, y mae y byd mawr llydan yn gorwedd mewn tywyllwch, ac eisiau ei wrteithio â gwybodaeth, a'i fendithio âg efengyl: y mae trysorgellau amrywiol o Gymdeithasau daionus yn agored i dderbyn ein cyfraniadau: ac a gaiff y ffynonau bendithfawr hyn sychu i fynu o ddiffyg cynorthwy? A gaiff eneidiau farw o eisiau gwybodaeth, ac aur Crist'nogion rydu ar eu gilydd yn eu trysorau? A gaiff yr efengyl a fwriadwyd gan y Duw haelionus i gael ei chyhoeddi i bob creadur tan y nef? yr hon sydd yn dwyn cyfoeth ac anchwiliadwy olud Crist i gyfoethogi eneidiau truenus a thlodion â golud parâus a thragwyddol, a gaiff hon, meddaf, fethu yn ei hanturiaeth? ei hatal yn ei gyrfa, a'i rhwystro yn ei hamcan, a moddion ei hanfoniad yn meddiant ei gweinyddwyr? A atelir y *golud gwell, a'r un paraus*, oddiwrth baganiaid angenus, o ddiffyg ewyllysgarwch mewn Crist'nogion i gyfranu o'u pethau *llygredig*, megys, *arian ac aur*, at y dyben? Na ato Crist'nogaeth. Y cwbl sydd a wnelo Cristion â'r byd hwn yw, gwneuthur cyfiawnder âg ef ei hun, ac a'i deulu, mewn bwyta ac yfed a gwisgo: dwyn yn mlaen ei alwedigaeth ei hun, a rhoddi dysg a galwedigaeth yn nwylaw ei blant, a thalu i bawb eu dyledion, a'r gweddill oll i gael ei aberthu at achosion crefyddol a daionus; at ogoneddu Duw a llesâu y byd; gan adael fel hyn ei holl amgylchiadau dyfodol ei hun a'i blant yn llaw Duw, a gallwn fod yn sicr na chaiff fod ar y cyfryw un eisiau dim daioni.

"Ni chaiff fod eisiau byth na thrai
Tra seren yn y nef,
Ar un o'r rheiny roddo'u pwys
Ar ei ffyddlondeb ef."

A allwn ni feddwl am funud y gedy y Duw daionus y cyfryw un a ofalo felly am ei ogoniant a'i achos, a gyssegro ei hunan a'r oll a feddo i wneuthur daioni trosto, heb ofalu am dano? Na, na, efe *a borthir yn ddiau;* a edy yr hwn sydd yn tori gwanc y cenawon llewod, yn darparu i'r gigfran ei bwyd, pan lefo ei chywion arno? a edy efe, meddaf, blant ei weision, hâd y rhai hyny a gyssegrasant eu bywydau a'u hamser a'u meddiannau at ei wasanaeth, heb ofalu am danynt? Y dyn a dreulio ei fywyd yn y dull a nodwyd, a edy etifeddiaeth well i'w blant ar ei ol, na phe byddai ganddo goron a theyrnas i bob un o honynt; gedy hwynt dan nawdd y nefoedd, yn wrthrychau o ofal neillduol rhagluniaeth Duw; a byddant, ond odid, yn cyfodi i fendithio y byd ar ei ol, trwy rodio yn ei lwybrau. "*Plant dy weision a barânt, a'u had hwynt a sicreir ger dy fron di.*" Meddyliaf bod casglu a phentyru arian yn cael ei wahardd yn benodol yn y Testament newydd. Y mae rhyw *dwyll* mewn *cyfoeth,* a *hudoliaeth* mewn *golud,* fel ag y mae agos yn anmhosibl i'r galon beidio cael ei rhwydo ganddynt wedi i'r dyn ddechreu cael blâs ar eu casglu; "Y neb a garo arian, ni ddygonir âg arian." medd Solomon; a'r ffordd debycaf i beidio myned i'w caru ydyw eu cadw draw, eu haberthu at achosion daionus; eu cymeryd fel moddion defnyddioldeb tros Dduw. Ond crybwyllwn yma rai ymadroddion o'r Testament newydd, ag ydynt, i'm tyb i, yn gwarafun i Grist'nogion i grynôi a chasglu aur ac arian. "Na thrysorwch i'wch drysorau ar y ddaear," medd Iesu Grist, "eithr

trysorwch i'wch drysorau yn y nef, lle nad oes na gwyfyn na rhŵd yn llygru; a lle ni chloddia lladron trwodd, ac ni ladratant." "Gwnewch i chwi gyfeillion o'r Mamon anghyfiawn, fel pan y byddo eisiau arnoch, y'ch derbyniont i'r tragwyddol bebyll." "Iddo yn awr," medd Iago, "chwi gyfoethogion, wylwch ac udwch am eich trueni sydd yn dyfod arnoch. Eich cyfoeth a bydrodd, a'ch gwisgoedd a fwytawyd gan bryfed. Eich aur a'ch arian a rydodd; a'u rhŵd hwynt a fydd yn dystiolaeth yn eich erbyn, ac a fwyty eich cnawd fel tân. Chwi a gasglasoch drysor yn y dyddiau diweddaf." Y mae genym esiampl Crist'nogion yr oes Apostolaidd hefyd, "Canys nid oedd un anghenus yn eu plith hwy: oblegyd cynifer ag oedd berchen tiroedd neu dai, a'u gwerthasant, ac a ddygasant werth y pethau a werthasid, ac a'u gosodasant wrth draed yr Apostolion: a rhanwyd i bob un fel yr oedd yr angen arno.—Ac ni ddywedodd neb o honynt fod dim ar a feddai yn eiddo iddo ei hunan, eithr yr oedd ganddynt bob peth yn gyffredin." Gwn fod llawer o wrth-ddadleuon yn erbyn gwneyd fel hyn yn bresenol, a gwn yn dda y'm cyfrifid yn benboethyn hurt pe dadleuwn tros hyn yn y dyddiau yma: ond ni fedraf fi weled er hyny y gwnelai hyn gymaint o annhrefn, hyd yn od yn yr amser hwn, o'r hyn lleiaf gallwn fod yn sicr o hyn, y gweddai yr egwyddor a'r ymddygiad uchod yn llawer gwell i Grist'nogion ein gwlad na'r egwyddor fydol grintachlyd a ddangosir gan y cyffredinolrwydd o broffeswyr. O wynfydedig gymdeithas! O fyth fendigaid egwyddorion! ac, O ddedwydd galonau nefol-wresog! mor wael oedd y ddaear yn eu golwg! mor anwyl yr oeddynt yn caru Crist, ac yn caru eu gilydd! "Y lluaws a gredasant

oeddynt o un galon, ac un enaid;" nid oedd ond megis un galon yn curo y gwaed i holl aelodau y gymdeithas,—ond megis un enaid yn ysgogi yr holl gorph,—achos un oedd achos pawb: ond pa le y mae yr yspryd hwnw yn awr? Pa le y mae yr egwyddorion hawddgar hyn wedi dianc? nid oes ond ambell fynwes a'u croesawant, ac ambell galon a'u lletyant, a hyny yn anamlach, y mae lle i ofni, nag un yn mysg mil o broffeswyr yr un grefydd ag a broffesai y rhai hyny. Nid oedd ond dau gybydd yn yr eglwys y dyddiau hyny, sef gŵr a gwraig, Ananias a Saphira; a chodwyd hwy yn esiamplau i holl grefyddwyr oesau dylynol y byd, er dangos adgasrwydd y pechod hwn yn ngolwg Duw, yn neillduol mewn proffeswyr. Y mae yn beth nodedig, mai y drwg hwn a fu y tramgwydd cyntaf i'r eglwys Iuddewig wedi ei dyfodiad i Ganaan, a'r tramgwydd cyntaf i'r eglwys Grist'nogol. Yspryd trachwantus a chybyddlyd Achan a flinodd ac a rwystrodd lwyddiant gwersyll Israel, a'r un yspryd a ddechreuodd rwystr yn yr eglwys Grist'nogol yn ei dechreuad. Gallai fod y pethau hyn yn rhag-arwyddion ac yn rhag-rybuddion i Israel ac i'r eglwys Grist'nogol mai y pechod hwn a brofai yn ddinystr iddynt; pa fodd bynag, felly y bu, "Am anwiredd ei gybydddod," medd Duw am Israel gynt, "y digiais wrtho, ac y tarewais ef," &c. Nodir y pechod hwn yn neillduol gan y prophwyd Jeremia fel un achos neillduol o ddinystr Jerusalem, a chaethgludiad yr Iuddewon i Babilon; a nodwyd eisioes, a nodir eto yn helaethach ac eglurach yn y Traethawd canlynol, mai dyma fu yn achos o aflwydd Crist'nogaeth.

Ond y mae dyddiau gwell ar grefydd wrth y drws. Gwelir agwedd arall ar yr eglwys yn fuan; wedi

deffro o'i chwsg, ymddyosg o'i daearwisg; ymysgwyd o'r llwch, ac ymddatod oddiwrth rwymau ei gwddf, ac yn gwisgo "gwisgoedd ei gogoniant," wedi ei hadferu i'w phurdeb cyntefig, yn *edifarhau ac yn gwneyd y gweithredoedd cyntaf*; ac yna yn *tori allan ar y llaw ddeau, ac ar y llaw aswy. Hi a adeilada yr hen ddiffaethfa, cyfyd yr annghyfaneddfa gynt, adnewydda y dinasoedd diffaeth, ac anghyfanedd-dra llawer oes.* Yna, y rhodia y cenhedloedd at ei goleuni, a brenhinoedd y ddaear at *ddysgleirdeb ei chyfodiad. Yna caiff weled, a hi a ymddysgleiria; troir ati luosogrwydd y môr, a daw golud y cenhedloedd iddi*; a bydd hithau yn ddigon pur ac ysprydol i wneuthur iawn ddefnydd o hono y pryd yma. Bydd y dychweledigion at grefydd y dyddiau hyn, yn dyfod â'u *harian* a'u *haur gyda hwynt i enw yr Arglwydd eu Duw*, neu at ei achos ef: nid yn dyfod âg arian ac aur, ond *eu* harian *a'u* haur, h. y., byddant yn aberthu y cwbl a feddant i fynu i achos yr Arglwydd; a mwynâ crefyddwyr fel hyn fwy o bleser crefydd, mwy o gymundeb melus â Duw, a mwy o nefoedd yn eu heneidiau ar y ddaear, nag a fwynâ eneidiau culion crintachlyd proffeswyr cybyddlyd yr oesau blaenorol, hyd yn od yn y nef ei hun, os aethant neu os ânt yno. Mwynânt fwy o wir ddedwyddwch wrth wasgaru eu heiddo a'u meddiannau i ddyfrâu a gwrteithio y byd, mewn un awr, nag a fwynâodd proffeswyr bydol-fryd yn ystod haner can' mlynedd wrth dyru arian at eu gilydd. "Y mae yn fater teilwng o ystyriaeth fwyaf difrifol yr eglwys Grist'nogol," medd Awdwr y "Mamon," pa faint o ddiffyg ei llwyddiant yn ei hymdrech i helaethu teyrnas Crist, sydd i'w briodoli i'w chybydd-dod. Pa mòr annhraethadwy fwy fuasai

llwyddiant yr anturiaeth Grist'nogol, pe buasem ond yn unig yn gweithredu i fynu â'n hargyhoeddiad o'n dyledswyddau fel Crist'nogion! Pa beth a allasai sefyll o flaen yspryd a ddangosai ewyllysgarwch i roddi pob peth i fynu er mwyn Crist? Gwelsai y byd yn y fath ymddygiad dystiolaeth o wirionedd a gallu yr efengyl, yr hon na allasai ei cham-ddeall na'i gwrth-ddywedyd. "Duw, sef ein Duw ni, a'n bendithiasai;" buasai yn ymogoneddu yn y fath bobl, ac yn ein gwneuthur yn enwog â'i fendithion ger bron y byd,—"Duw a'n bendithiasai;" ac fel effaith o hyny, "holl derfynau y ddaear a'i hofnasent ef."

"Pa beth a fuasai hanesyddiaeth y cyn Grist'nogion pe buasent wedi eu melldithio â chariad at arian fel y mae Crist'nogion y dyddiau presenol! Ac ystyried eu dwfn dlodi, ac absenoldeb yr holl gyfleusderau sydd i'w cael yn bresenol er cyflawni eu hamcanion, cylch bychan iawn a fuasai yn gosod terfynau i'w llafur, ac un tu dalen a fuasai yn ddigon i gynwys hanes eu gorchestion. Ond gan deimlo natur bwysig y gwrthrych yr oeddynt yn rhwym wrtho, bod iachawdwriaeth neu golledigaeth y byd yn dybynu yn offerynol ar eu hymddygiad: rhoisant heibio bob pwys, bwriasant yr oll a feddent i drysorfa cymwynasgarwch, a dalient eu hunain yn rhyddion a pharod i wneuthur archiadau eu Harglwydd,—ac efe a barodd iddynt fod yn fuddugoliaethus yn mhob lle."

Drachefn, wrth gymell tymher ac yspryd haelfrydig, dywed yr un Awdwr, "Felly y carodd Duw y byd, fel y rhoddodd efe ei unig-anedig Fab" i'w waredu ef. Yr amcan yn wir i ba un y rhoddwyd ef oedd, fel efe ei hun, yn anfeidrol; amcan na all fod ei gyffelyb, a gwaith na raid byth ei ail wneyd. Ond y swydd i'r

hon y bwriada Duw bob dyn yn y foment wedi ei ddychweliad ydyw, bod yn anrheg newydd i'r byd. Y berthynas â'r byd yn yr hon y gesyd ef a fwriedir i fod yn amlygiad newydd o'r un anfeidrol gariad ag a'i cymhellodd ef i roddi Crist; nid ydyw i'w olygu yn ddim llai nag arwydd-luniawl gynhrychioliad o'r ddawn *annhraethol hono* i'r byd. Nid y *ddawn hono* ydyw, ond efe a anfonwyd i ddwyn tystiolaeth am dani; nid i'w chyhoeddi â'i wefusau yn unig, ond i ddysgrifio a choffâu ei llawnder a'i rhadlonrwydd yn ei nodwedd ei hun. Fel ei Arglwydd bendigedig, y mae i edrych arno ei hunan yn gyssegredig i achos dedwyddwch dynoliaeth, yn gyssegredig er tragwyddoldeb."

"Gristion, ti a adwaenost râs ein Harglwydd Iesu Grist,—a all y byd ganfod bodoliaeth ei râs ef oddiwrth dy ymddygiad di? A ydyw dy haelfrydedd yn deilwng o hono ef, "yr hwn ag efe yn gyfoethog a ddaeth er dy fwyn di yn dlawd?" Trôdd efe ei hunan yn ffynon o râs a chariad, a galwodd di i fod yn Gristion, fel y byddit yn ffrydle gyssegredig ei râs i eraill. Y mae yn gofyn am i holl weinyddiaeth cymwynasgarwch y nefoedd a'r ddaear gael eu gosod ar waith, mewn trefn i wneyd cyfiawnder â bwriadau ei gariad; a galwodd di i'w wasanaeth mewn trefn i ychwanegu y weinyddiaeth hono. 'Does bosibl dy fod trwy garu arian yn atal cyflawniad yr amcan hwnw. Buasai cystal i'r byd colledig pe na buasai efe erioed wedi marw er ei iachawdwriaeth, os bydd i'w Swyddogion appwyntiedig a chyssegredig annghofio ei wneyd yn hysbys. Yn sicr nid wyt, trwy fyw i ti dy hun yn unig, trwy dreulio dy eiddo arnat dy hun mor gyflym ag yr wyt yn ei dderbyn, yn gadael y byd i gasglu bod ei nodweddiad ef yn dwyn unrhyw debygolrwydd i'r

eiddot ti; a'i adael, heblaw hyny, i drengu tan dy lygad, oblegyd y parai ymdrech i'w waredu draul. Ni ddarfu i ti, ac ni's gellit ddysgu Crist felly. Ond pa beth ynte ydwyt yn ei wneuthur, mwy na'r Pagan i'w eulundduw? mwy nag eiddunwr *(rotary)* Crist'-nogaeth lygredig i wrthrych ei barch coel-grefyddol? neu fwy na'r bydol ymroddwyr i bleserau a hunan-fwynâd? Pa beth mwy wyt yn ei wneuthur nag eraill?"—

"Crist ni's boddâodd ef ei hun. Efe a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd. Tywalltodd ei enaid i farwolaeth. Ei hun ni fynai efe ei wared; ni fynai ddysgyn i lawr oddiar y groes. O! fel y darfu iddo am dymor ei ddiddymu ei hun! fel y cymerodd ein lle, ein melldith, ac y dygodd y cwbl! Dyna beth oedd tosturi—dyna beth oedd edrych ar yr eiddo ereill—dyna beth oedd cymwynasgarwch;—anhunanol, digyfartal, ac anghydmarol gymwynasgarwch. Bydded ynoch y meddwl yma. Ni ellwch byth obeithio ei gystadlu ef, oblegid y mae yn anfeidrol—gras Duw. Ond cymaint a hyny mwy ydyw eich rhwymau i agosâu ato gymaint a alloch."

"Gristion, ti a adwaenost y gras hwn, yr wyt yn ei deimlo ef. Pa faint o ddyled sydd arnat ti i'th Arglwydd? A fyddi di un amser yn cynyg cyfrif y swm? Ymdrecha i gael yr argraff o honi ar dy feddwl; ac os teimli wedi hyny unrhyw anewyllys-garwch i gyssegru dy feddiannau iddo, bydd hyny yn codi yn unig oddiar yr ystyriaeth o'i hannigonolrwydd fel at-daliad cymwynasgarwch mor fawr. Ond y mae efe yn gofyn am danynt fel arwydd o gariad—ydyw, y mae yn gofyn am danynt."

Yn awr, ddarllenyddion hoff, yr wyf yn eich gollwng

i mewn i'r ystafelloedd trefnwych a gewch yn y Traethawd, wedi eich cadw yn lled hir yn y porth aflerw hwn o ragarweiniad. Fy nymuniad a'm gweddi yw, bod i'r llyfryn hwn fod tan fendith y nef yn foddion i ddeffroi eglwysi cysglyd y dywysogaeth i ystyriaeth a theimlad o'u rhwymau fel canlynwyr Crist; i feithrin ynom oll y meddwl haelfrydig hwnw ag oedd yn Nghrist Iesu: i ladd yspryd bydol a chybyddlyd proffeswyr yr oes, fel y byddo mwy o fendith a boddlonrwydd Duw arnom yn ein holl ymarferiadau crefyddol: fel yr ymddygom yn addas i'r alwedigaeth y'n galwyd iddi, yn deilwng o ddysgyblion i'r *hwn a'i dibrisiodd ei hun, gan gymeryd arno agwedd gwas; ac a roddodd ei einioes yn bridwerth tros lawer;* ac fel y byddom yn esiamplau o haelfrydedd Crist'nogol i holl eglwysi y byd. Amen.

# ARIANGARWCH.

GAN nas gall fod yn bechod i ddyn chwenychu arian er cyflawni ei anghenion, a chan y byddai yn ganmoladwy ynddo chwenychu arian er ei alluogu i fod yn ddefnyddiol, rhaid fod yr "ARIANGARWCH" a ddynodir fel *gwreiddyn pob drwg* yn cynwys rhyw syched didor am arian, rhyw ymddiried eulunaddolaidd ynddynt, a rhyw greulawn anewyllysgarwch i'w cyfranu er trysori sail dda i'r enaid erbyn yr amser sydd ar ddyfod. Dyma'r *ariangarwch* sy'n peri i'r galon gyfeiliorni oddiwrth y ffydd, ac ymdrywanu â llawer o ofidiau, a syrthio i brofedigaeth a magl nes ymddyrysu yn y chwantau ynfyd ag ydynt wedi boddi myrddiynau i ddinystr a cholledigaeth: ac yn y cynhygiad canlynol i nodi a darlunio NATUR, NIWEID, a MEDDYGINIAETH y fath dymher ofnadwy, ymdrechir dilyn hyd y medrir iaith ac yspryd ysgrythyrau y gwirionedd.

Gellir darlunio yr ariangarwch yma yn

1. Fel tymher ag sydd wedi cael effeithiolaeth ëang a grymus ymhob oes o'r byd. Dengys hanesyddiaeth ei bod wedi cael teyrnasu dros galon dyn, o ddyddiau Adda hyd yr oes hon, gyda rhwysg bron dïattal a chyffredinol. Nodir ei llwybr gan Eliphaz y Temaniad fel yr "hen ffordd a sathrwyd gan yr anwiriaid ag y bu y diluw gynt yn ysgubo ymaith eu sylfaen. Hon, ar ol hyny, o gylch dechreuad brenhiniaeth Nimrod fu'n dyrysu tangnefedd a chysur teuluoedd gobeithiol

y Patrieirch. Yr oedd yn destyn galarnad yn amser Dafydd, fod cymaint o gyniwair ar hyd ei "ffordd;" a bod "ymadrodd" y rhai a ymddiriedent yn eu golud mor gymeradwy gan eu hiliogaeth. Yn nyddiau heddychlawn ffyniant Solomon yr oedd y "gofid blin yma yn *fawr* ac yn *gyffredin* yn mysg dynion. Er fod Doethineb y pryd hyny yn sefyll yn y pyrth, ac yn esgyn yr uchel-fànau i godi ei llef yn ei erbyn, eto yr oedd *llawer* gŵr ag y rhoddodd Duw iddo gyfoeth heb allu bwyta o hono, ond yn ei gadw er ei niweid, ac yn ei adael wrth farw i gael ei afradloni gan estroniaid. Arwyddir gan Ezeciel fod nid yn unig y bobl yn Juda, ond fod eu tywysogion a'r offeiriaid mor chwanog i "elwa elw," nes cyd-ymwerthu i boenu y truan a'r tlawd, i orthrymu y dieithr a'r weddw, i dywallt gwaed, ac i ysu eneidiau: ac mor ëang ydoedd ymledaeniad y drwg yma fel ag y dywedodd yr Arglwydd—"Ceisiais hefyd ŵr o honynt i gau y cae, ac i sefyll ar yr adwy o'm blaen dros y wlad, rhag ei dinystrio, ac nis cefais." At yr un "gwagedd a gofid blin" y cyfeiria doeth-fab Sirach pan y dywed, "Llawer a ddyfethwyd o achos *aur*, ac o'u blaen yr oedd eu dinystr. Pren tramgwydd yw efe i'r rhai a aberthant iddo, ac wrtho ef y delir pob anghall. Gwyn ei fyd y goludog a geir yn ddifai, ac nid aeth ar ol aur. Pwy yw efe? a nyni a'i galwn ef yn hapus: canys pethau rhyfedd a wnaeth efe yn mysg ei bobl. Pwy a brofwyd trwy yr *aur* hwn, ac a gafwyd yn berffaith? efe a gaiff fod yn orfoleddus. Pwy a allodd bechu, ac nis pechodd? ac a allodd wneuthur drygioni, ac nis gwnaeth? Am hyny y sicrheir ei dda ef, a'r gynulleidfa a fynega ei elusenau ef." Wrth rybuddio ei ddisgyblion i "ymogelyd rhag cybydd-dod," y mae

Crist yn ei ddynodi fel y pechod ag oedd y pryd hyny yn dyrys-faglu "cenhedlaethau y byd:" ac yn oes foreuaf yr eglwys Grist'nogaidd yr oedd yr Apostolion yn gorfod ysgrifenu at *dadau,* ac at *wyr ieuainc,* fel "na charent y byd, na'r pethau sydd yn y byd." A phan y meddyliom am y mawr amryw ymdrechion sy'n cael eu gwneyd i "dyru golud," gan eu cydmaru â gwaelder y cynhygion a wneir i ledaenu crefydd, y mae lle i gasglu mai *Ariangarwch* ydyw y pechod sydd *heddyw* yn fwyaf parod i amgylchu arddelwyr yr efengyl, mai hwn yn benaf sy'n atal cryfhâd a chynydd eu crefydd bersonol, ac mai hwn hefyd sy'n gwanhâu eu heffeithiolaeth, ac yn andwyo eu defnyddioldeb. Ië, y mae genym le i ofni, gydag Andrew Fuller, yr achosir dinystr mwy o broffeswyr crefydd gan y pechod hwn na chan un pechod arall, am fod mor hawdd iddo gael ei fagu a'i guddio dan gochl ffug-grefyddol.

2. Gellir darlunio ariangarwch fel tymher ag sydd yn cynhyddu beunydd, ac ar waith yn ddiorphwys. Gwanycha rhai chwantau wrth heneiddio, ond cryfhâ hwn. Ceir seibiant weithiau gan nwydau eraill, ond ni oddef cybydd-dod i'w ddeiliaid byth orphwyso. Y neb a garo arian ni ddigonir ag arian; na'r neb a hoffa amldra a chynyrch. Y llawnder sydd ganddo ni âd iddo gysgu, ac anwiredd a ddychymyg efe ar ei wely. Y mae ei galon yn effro drwy drymder y nos, am fod gwib-deithiau ei chwant yn gofidio ei yspryd. Er ei fod yn *unig* ac heb *ail,* heb na phlentyn na brawd i ddyfod ar ei ol, nid oes diwedd ar ei lafur. Y mae mewn "trafferth blin, ac ni chymer hamdden i ofyn, "I bwy yr wyf yn llafurio, ac yn difuddio fy enaid oddiwrth hyfrydwch?" Wrth edrych ar arwydd-lun

Quarles o'r cybydd yn ceisio gwasgu y *byd* i'w freichiau, anhawdd peidio llefain, "O fel y lleda ei ddwyfraich, gan eu hestyn yn hwy na'u mesuriad! O fel y gwasga ei ddwyfron fel y gallo gofleidio ychwaneg ac ychwaneg o sorod y byd. Crafanga drysor at drysor. Digon a gais ormod, a gormod a newyna am fwy. Y mae olwynion Bath-dŷ ei lafurus fyfyrdod yn troi o hyd, ac yn bathu chwantau newyddiou bob moment—chwantau nas gwyddant pa le i ddisgyn—chwantau yn cyflymu wrth dreiglo fel tònau y llîf, ac yn ymledu wrth gyflymu fel llanw y môr. Colla chwys ei gorph yn ngwres y dydd mewn lludded tost, a threulia olew ei lusern yn oerder y nos mewn sŷn ofalon. Ceisia amgylchu y ddaear, ac wedi gorlenwi ei freichiau â'i gwagedd, ymgrafanga am un dyrnaid arall: ac felly er ymgais am orphwysdra, nid oes derfyn ar ei ludded, gan fod ei chwantau poethwyllt yn cynhyddu gyda chwanegiad ei flynyddoedd." Y mae yn ddïareb gyffredinol fod awydd cybyddion yn cryfhâu fel y maent yn ymheneiddio:—a hawdd cael rheswm am hyny. Y mae ffrŵd llygredd yn moreuddydd bywyd yn ymwahanu i lawer rhedle, megis chwant y cnawd, a chwant y llygad, a balchder y bywyd; ac felly torir grym llîf ariangarwch: ond yn rhanau olaf yr oes, fel ag y mae adfeiliad galluoedd y corph yn cau rhedlëoedd rhai o'r chwantau, y mae ffrwd llygredd y galon yn ymgrynhoi i redfa cybydddod, nes chwyddo y llifeiriant i rym anwrthwynebadwy. Sylwa Jeremiah Burroughs, "Nad all dyn byth chwyddo ei olud i fod gymaint â'i galon, ond y gall ostwng ei galon i fod cyn lleied â'i olud:" a pha le bynag y mae y golud a'r galon yr un faint, yno y mae *boddlonrwydd*. Felly dylai yr hwn a ewyllysio fod yn

ddedwydd ymdrechu mwy, yn ol cynghor Plato, i leihâu ei awydd nag i fwyhau ei olud; oblegid os na ffrwynir dymuniadau calon gybyddlyd, ymgryfhânt ac ymlïosogant yn feunyddiol. Pa fwyaf a gânt, mwyaf a geisiant. Nid ydys ond awchlymu eu hawydd wrth eu porthi. Er difa beunydd, y maent o hyd yn newynu. Fel yn y *dyfrglwyf marwol*, pa fwyaf yfir, poethaf fydd y syched: ac felly o radd i radd cynhydda *afiechyd* dirboenus y cybydd, nes o'r diwedd y llethir ei galon gan ddwys-ofalon a sỳn-feddyliau; ac yna mewn hiraeth ac ing rhaid iddo adael ar ol y sorod ag y gwerthodd y nefoedd er ei fwyn. Ni alara neb ar ei ol wrth weled ei guddio yn y bedd; a difyr-fwynhâ eraill y golud a bentyrodd ar draul colli ei enaid.

3. Gellir darlunio ariangarwch fel tymher anhawdd iawn ei marweiddio,—ac yn enwedig os bydd wedi cael ei hir feithrin yn y fynwes. Y mae hyn, dychon, i'w briodoli i dwyll nodedig ei hansawdd—i'r anhawsdra a geir i fanwl-ddarlunio ei gweithrediadau tufewnol—ac i'r farn anghywir a ffurfir yn rhy gyffredin am duedd dinystriol ei heffeithiolaeth.

Y mae ei *thwyll* mor fawr, fel ag y ceir llaweroedd i'w chondemnio gyda ffieiddiad mewn eraill, pan yn ei hoff feithrin gyda thawelwch yn eu mynwesau eu hunain. Y mae yn dallu dyn gymaint gyda golwg ar ei gyflwr a'i nodweddiad, fel nad ydyw braidd byth yn lled-dybied ei fod yn bechadur. Felly mae yn cael ei ddyrysu mewn rhwydau, nas gall byth eu canfod. Y mae gofalon diles yn difa ei gryfder, ond nis gŵyr efe. Y mae yn annheimladwy o'i berygl, pan *yn boddi* i ddinystr. Y mae ei gydwybod yn rhy gysglyd i deimlo, yn rhy lygredig i ymresymu, ac yn rhy galed i rybuddio. Nid oes ynddo yr un teimlad arosol o'i

angen am faddeuant, ac felly y mae yn hollol ddieithr i'r "duwiol dristwch sydd yn gweithio edifeirwch," ac yn tywys i fywyd. Y mae ei lïosog ddyfeisiau i bentyru golud yn cael ei fyfyrdod môr llwyr, fel nad oes ganddo na thuedd na hamdden i feddwl dim am geisio trysor yn y nef: ac y mae ei awyddfryd cynhyddol yn hoelio ei serchiadau wrth ei aur, ac yn plethu ei oludoedd anwadal o gylch llinynau ei galon. Ac os gall dyn *fel hwn* orchfygu yr anhawsderau sydd ar ei ffordd i ogoniant, mawr fydd ei waredigaeth! Os gall dyn *fel hwn* ddianc rhag dinystr, caiff ei gadw yn ddïos "megis trwy dân!" Os achubir dyn *fel hwn* o afaelion yr ail-farwolaeth, bydd hyny fel cipiad pentewyn o'r gyneuedig dân, neu fel rhwygiad ysglyfaeth o waedlyd gil-ddanedd marwolaeth.

Ond heblaw caledawl dwyll y chwant hwn, y mae yr anhawsdra sydd i ddatguddio yn *brydlawn*, ac i olrhain yn *fanylaidd* ei weithrediadau tufewnol yn mawr ychwanegu y rhwystrau sydd ar y ffordd i'w orchfygu. Gall dyn fod mor llawn o gariad at y byd, nes bod yn hollol amddifad o gariad y Tad, ac eto gael ei oddef yn yr eglwys drwy ei oes, heb gael ei amheu gan y craffaf o'i frodyr. Sylwa Henry, "Fod y serchiadau, fel gwreiddiau pren, yn tyfu o'r golwg, a phan yr ymblethant o gylch sorod y ddaear, y gwnant eu gorchwyl yn ddistaw, ac y collir yr enaid heb i neb wybod hyny." Gellir darlunio nodweddiadau y puteiniwr a'r meddwyn mor eglur nes peri iddynt ddeall ar unwaith eu bod yn euog o bechodau ag ydynt yn cau allan o'r nefoedd; ond nid ydyw yn hawdd felly i wasgu argyhoeddiad o'i euogrwydd at feddwl y cybydd. Mynych y ceir ef, pan y byddir yn ei rybuddio o'r ddamnedigaeth ddu sydd yn crogi

uwch ei ben, yn eistedd yn wyneb-uchel a digyffro i gymwyso bygythion y weinidogaeth at ryw rai o'i gymydogion. Am ddynion fel hyn y llefara Duw wrth ei brophwyd Ezeciel, "Deuant hefyd atat fel y daw y bobl, ac eisteddant o'th flaen fel fy mhobl, gwrandawant hefyd dy eiriau, ond nis gwnant hwy: canys â'u geneuau y dangosant gariad, *a'u calonau sydd yn myned ar ol eu cybydd-dod.* Wele di hefyd iddynt fel cân cariad un hyfrydlais, ac yn canu yn dda: canys gwrandawant dy eiriau, ond nis gwnant hwynt." Siaradant wrth y parwydydd ac o fewn drysau eu tai yn erbyn eu hathrawon; ac os dygir i'w côf ei bod yn analluadwy iddynt wasanaethu Duw a Mammon, trônt ymaith fel y "Phariseaid ariangar," gan eu cyfiawnhâu eu hunain a gwatwar eraill; ac felly ânt waeth waeth, gan dwyllo a chael eu twyllo. Ac os gofynir fel y gwnaeth yr Esgob Hall, "Paham y mae rhai yn pregethu eu llais, eu nerth, a'u bywyd ymaith, heb allu llwyddo i enill dynion?"—Gellir ateb, "Fod y byd yn eu llygaid, fod y byd yn eu clustiau, a bod y byd yn eu calonau; ac nad oes dim modd gwneyd lles i galon fydol. Y mae yn oer ac yn galed; trŷ yr ergyd yn ol, fel einion y gôf, ond byth ni wneir un argraff arni."

Y mae yr anhawsdra i orchfygu y chwant yma yn cynhyddu yn mhellach o herwydd anghywirdeb y tybiau a ffurfir yn rhy gyffredin am gyflwr a nodweddiad y cybydd. Gall y pechod yma nid yn unig ddirgel-weithio mòr ddistaw fel na byddo modd ei ddwyn i'r golwg, ond pan weithiau y daw i'r golwg, nid yw yn cael ei ffieiddio yn ol erchylldra ofnadwy ei effeithiolaeth. Anaml y mae yn cael edrych arno yn y lliw y mae yn cael ei ddarlunio yn ngair Duw. Y mae y byd yn "bendithio y cybydd, yr hwn y mae

yr Arglwydd yn ei ffieiddio." Y mae felly yn anrhydeddu pan y mae ef yn dirmygu,—yn canmol pan y mae ef yn condemnio,—ac yn barnu dyn yn rhinweddol a dedwydd pan y mae ef yn ei gyhoeddi yn euog a thruenus. "Mae'n deilwng o sylw," medd Mr. Venn, "mai nid y cybydd-dod a fernir yn *warthus* gan ddynion ydyw'r cybydd-dod ag y mae'r Bibl yn *benaf* yn ein rhybuddio i'w ochelyd; ond rhyw dymer a ystyrir gan y byd yn hawddgar a rhinweddol.—Dacw ddyn yn ymgyfoethogi yn ei alwedigaeth, nid trwy dwyllo na chrib-ddeilio, ond trwy fendith y nef ar ei lafur a'i ddiwydrwydd. Y mae yn ymhyfrydu yn ei lwyddiant, ac yn ymloni mewn gobaith o feddu llawer o dda yn mhen ychydig o flynyddoedd. Penderfyna, yn y cyfamser, i fod yn gynil ac yn ymdrechgar; nes y delo'r adeg iddo gael dianc o lafurus drafferthion masnachaeth, i fwynhâu melusderau anrhydeddus esmwythdra: yn awr, pwy o ddilynwyr egwyddorion amser a all ganfod dim i'w feio yn ymddygiad y dyn yma? Ac eto dyma'r dyn a ddynoda Iesu fel caethwas "Ynfyd" i'w awydd am bethau daear. Dyma'r dyn a ddarlunir ganddo yn cael ei alw mewn dychryn o ganol ei drysorau i sefyll yn adyn euog ger bron brawdle ei Wneuthurwr digofus! Ië, dyma'r dyn a nodir ganddo fel *gwallgofddyn* andwyedig, ac a goffeir er rhybydd i bawb ymogelyd rhag "cybydd-dod." A phe buasai ei *eglwys* yn gwrando ar ei lais, ac yn derbyn ei rybuddion,—pe buasai yn gostwng ei chalon i ufuddhâu i'w ddeddfau, ac yn pwyso cymeriad y bydol-ddyn yn nghlorianau y cysegr, yn lle wrth bwysau anghywir gaugyfrifiad y byd, yna buasai ei heddwch yn llifo fel yr afon, a buasai ei chyfiawnder yn ymledu fel tònau y môr.

Y mae DRWG y dymer yma i'w ganfod yn y *dianrhydedd* a wna i Dduw,—y *gofid* a achosa i gymdeithas, a'r *annedwyddwch* a faga yn y fynwes lle mae'n cartrefu.

1. Y mae'n dianrhydeddu Duw. Pan ystyriom yr hyn yw Duw, yr hyn a wnaeth drosom, a'r hyn a geisia oddiwrthym, canfyddwn fod Ariangarwch yn bechod ag sy'n cynwys ynddo yr anniolchgarwch duaf, yr eulunaddoliaeth ffieiddiaf, a'r gwrthryfel ëonaf.

Duw *cariad* yw; ac y mae ei gariad yn dragwyddol, yn anfesuredig, yn ddigymysg, ar waith o hyd yn ngweinyddiadau ei oludoedd diderfyn, ac y mae ei fawr-amryw amlygiadau yn aneirif ac yn ddiddiwedd. Y mae yn "raslawn ac aml o drugaredd;" ac yn tawel ymhyfrydu yn y dedwyddwch ag y mae ei haelioni anfeidrol yn ei feunyddiol achosi. Y mae tiriondeb ei drugaredd yn gwenu ar ei holl weithredoedd. Oddi wrtho ef y deillia pob rhoddiad daionus. Efe sydd yn rhoddi i bawb anadl, ac einioes, a phob peth da. Ynddo ef yr ydym yn byw, ac yn symud, ac yn bod. Efe yw Tad ein trugareddau, a ffynhon dyfroedd ein diddanwch. Rhoddodd ei Fab i farw yr ein lle, a'i air i oleuo ein llwybr, a'i Yspryd i sancteiddio ein calonau. Y mae yn rhoddi i ni wlaw o'r nefoedd, a thymhorau ffrwythlawn, ac yn llenwi ein calonau â lluniaeth ac â llawenydd. Y mae yn ein llwytho beunydd â'i gymwynasau. Y mae ei drugaredd yn well na bywyd, yn cyrhaedd hyd y nefoedd, a lle i feibion dynion ymgysgodi dan ei hadenydd. Ac y mae y daioni sydd yn *nghadw* i'r rhai a'i hofnant ef yn anchwiliadwy ac yn ddiddarfod. Derbyniant ganddo etifeddiaeth ddihalogedig a diddiflanedig yn y nefoedd. Digonoldeb llawenydd sydd yno ger ei fron, ac ar ei

ddeheulaw y mae digrifwch yn oes oesoedd. A'r unig wasanaeth a geisia oddiwrthym am yr holl gymwynasau hyn, yw i ni "roddi iddo ein calonau."—Ei gydnabod yn ein holl ffyrdd, ei anrhydeddu fel Bod o anfeidrol fawrhydi, ei garu fel Bod o burdeb dihalog, ei wasanaethu fel union Lywydd y bydysawd, ac ymhyfrydu ynddo fel y ffynhon o bob dedwyddwch. Yr unig ad-dâl a ddysgwylia am ei holl ddoniau, yw i ni alw ar ei enw, a phreswylio yn ei babell, a phwyso ar ei fraich hollalluog, a gobeithio yn ei drugaredd, ac yfed o phiol ei iechydwriaeth, a gwahôdd byd ar drengu i gyfranogi o'i chyflawnder. Ac onid yw hyn yn *rhesymol* wasanaeth? Ond y cybydd, trwy ymddiried yn ei olud yn lle yn y Duw byw, trwy ddisgwyl mwy oddiwrth ei feddiannau a'i ddyfeisiau ei hun nag oddiwrth berffeithderau ac addewidion ei Wneuthurwr, a geidw oddiwrtho y gogoniant dyledus i'w enw. Llawenycha am fod ei gyfoeth yn fawr, ac oblegid i'w law gael llawer. Gesyd ei obaith mewn aur, a dywed wrth aur coeth, Fy ymddiried wyt. Ymedy â ffynhon y dyfroedd byw, a chloddia iddo ei hun bydewau toredig na ddaliant ddwfr. Newidia wirionedd Duw yn gelwydd, ac addola y creadur yn fwy na'r Creawdwr. Wedi "ymlenwi" âg oferedd, y mae'n "gwadu" yr Arglwydd. Gwaria ei ariau am yr hyn nid ydyw fara, a'i lafur am yr hyn nid yw yn digoni; a'i enaid, yn lle ymhyfrydu mewn brasder, a ymbortha ar lwch. Y mae ei galon yn llamu ac yn ocheneidio am *glai melyn* o'r mŵn-glawdd, ond dirmygedig yn ei olwg ydyw Craig ei iechydwriaeth. Mewn hen arwydd-lun, gwelir ef mewn lludded tost, a'r *byd* ar ei gefn, ac yn ceisio llusgo wrth ei draed hardd-lechau y ddeddf. Sefydla ei lygaid a'i galon ar "beth nad yw," ond

diystyra gyfiawnder y nef, a hen olud doethineb. Rhydd cynydd ei gyfoeth iddo fwy o hyfrydwch nag a rydd cymdeithas ei Dduw; a gwell ganddo golli gwên dirion trugaredd na cholli ychydig o lwch melyn yn awel aflwyddiant. Wrth iddo edrych yn unig ar y pethau a welir, y mae ei amcanion a'i serchiadau yn cael eu cyfyngu o fewn cylch amser; y byd hwn ydyw terfyngylch ei obaith a'i ddisgwyliad; *ac efe ei hunan* ydyw canolbwnc y cyfan. Y mae *yn fyw* i gasglu cyfoeth, ac i gyflawni chwantau y corph: ond *yn farw* i weithredoedd da ac i iechydwriaeth ei enaid. Trŷ ei gefn yn ddiystyrllyd ar sylweddau tragwyddol, ac ymflina i ymlid ar ol hûd-gysgodau munud awr. Llwytha ei hun â'r "clai tew," pan y gelwir arno i redeg am ddiddiflanedig goron y bywyd. Gorlwytha ei long pan y mae ei drysor tragwyddol bron suddo i'r dyfnder. Y mae ei enaid o hyd, naill ai yn ymlynu wrth y llwch, neu yn ymgrwydro heb orphwysfan. Heb feddwl dim am y Duw a'i gwnaeth, rhŷdd ei ogoniant i arall, a'i fawl i fân-ddelwau o aur. Abertha, heb ofid, ei amser, ei lafur, ei iechyd, ei gymeriad, a'i enaid ar allor ei fammon anghyfiawn; ac yna ni bydd ganddo ddim i'w roddi i Grist na'i achos. Mewn perthynas i hudawl effeithiolaeth Ariangarwch, sylwa y Dr. Chalmers mai, "Golud ydyw y ddelw fawr ag y mae y byd oll braidd yn ei haddoli, a bod llawer dinas yn ein tir wedi llwyr-ymwerthu i'r eulun-addoliaeth yma. Os nad ydyw dyn yn edrych am ei fwyniant yn uwch na'i arian, yna arian yw ei dduw; y duw y rhŷdd ei ymddiried ynddo, a'r duw y rhŷdd serch ei galon arno. Neu ynte, os o'i arian y sugna ei fwyniant melusaf, ei arian a ddilynir ganddo fel ei ddaioni penaf; ac felly y mae y Duw byw yn cael ei

wthio ymaith oddiar orsedd y galon; ac yspeilir ef o'r diolchgarwch a'r ufudd-dod dyledus iddo am ei gymwynasau beunyddiol: canys yn lle eu derbyn fel ag y maent yn dyfod o'i law ef, derbynir hwy fel pe byddent yn dyfod oddiwrth ryw awdwr arall, ac i hwnw y rhoddir y galon am danynt. Trwy hyn y mae golud yn cymylu cymeriad y Duw anweledig, yr hwn yw Awdwr ein holl gysuron; ac y mae yn cuddio y llaw sydd yn ein dilladu, ac yn ein porthi, ac yn estyn i ni holl angenrheidiau bywyd. Y mae felly yn tewhâu y llèn ddu sy'n lluddias llygad y teimladau i ganfod gogoniant y Goruchaf; a chollir yr adnabyddiaeth o hono fel rhoddwr ein cysuron; oblegid gan y bernir eu bod yn deilliaw oddiwrth y *golud,* y mae hwnw yn sefyll rhyngom â'r Bod anfeidrol ag y mae a wnelom âg ef. Tuedda hyn i ledu ac i sicrhâu y rhwyg sydd wedi cymeryd lle rhwng Duw â dynion, ac ychwanega holl rym un prif eilun at gydunol ddrwgeffeithiolaeth yr holl fân eilunod Pan y mae gogwyddiad serch ac ymddiried y galon tuag at arian, nid oes dim modd iddi ymgodi at Dduw; ac i'r graddau y byddo dyn yn ymorphwys ar ei gyfoeth am gysur a diogelwch, i'r graddau hyny y mae yn ymwrthod â Duw fel ei obaith a'i ymddiried. Dichon y gall *weithiau* anrhydeddu Duw â'i wefusau, ond y mae'n talu i'w eilun addoliad y galon: ac am "anwiredd y cybydd-dod" yma—am ragrith, ac aniolchgarwch, a gwrthryfel ei gybydd-dod y mae Jehofa yn ddig ac yn llawn llidiawgrwydd, canys Duw eiddigus ydyw; a phan unwaith yr enyner tân ysol ei eiddigedd, efe a lysg fel na byddo diffoddydd: ac nid all nac arian nac aur ddim gwared yr euog yn nydd angerdd ei ddigofaint. Pan aeth Israel gynt yn frâs, pan y

camddefnyddiodd y llawnder ydoedd wedi ei dderbyn o haeledd y nef, pan y dywedodd yn ei galon, "Fy nerth fy hun, a chryfder fy llaw a barodd i mi y cyfoeth hwn," pan y tewychodd ac y gollyngodd dros gof y Duw a'i lluniodd, pan yr anghofiodd diriondeb yr hwn a'i cafodd mewn tir anial, ac mewn diffaethwch gwag erchyll, ac a'i harweiniodd oddiamgylch, ac a barodd iddo ddeall, ac a'i cadwodd fel canwyll ei lygad;—"Yna y gwelodd yr Arglwydd ac a'u ffieiddiodd hwynt, a dywedodd,—Cuddiaf fy wyneb oddi wrthynt, edrychaf beth fydd eu diwedd hwynt; canys gyrasant eiddigedd arnaf â'r peth nid oedd dduw: digiasant fi â'u hoferedd; minau a yraf eiddigedd arnynt hwythau â'r rhai nid ydynt bobl, â chenedl ynfyd y digiaf hwynt; canys tân a gyneuwyd yn fy nig, ac a lysg hyd uffern isod, ac a ddifa y tir a'i gynyrch, ac a wna i sylfaeni y mynyddoedd ffaglu. Casglaf ddrygau arnynt; treuliaf fy saethau arnynt; llosgedig fyddant gan newyn, ac wedi eu bwyta gan wres poeth a chwerw ddinystr; anfonaf hefyd arnynt ddanedd bwystfilod, yn nghyd â gwenwyn seirph y llwch: y cleddyf oddiallan, a dychryn oddifewn, a ddyfetha y gŵr ieuanc a'r wyryf hefyd, y plentyn sugno yn nghyd a'r gŵr briglwyd.—O na baent ddoethion, na ddeallent hyn, nad ystyrient eu diwedd!" Yn yr un modd yn amser Jeremia, wedi bygwth dinystr ar ddinystr i wneuthur llawn ddiwedd arnynt, cyhoedda yn angerdd ei ddig—"Yr wyf yn llawn llidiawgrwydd; blinais yn ymatal: tywalltaf ef ar y plant yn yr hëol, ac ar gynulleidfa y gwŷr ieuainc hefyd: y gŵr a'r wraig a ddelir, yr henwr a'r llawn o ddyddiau: a'u tai a ddygwyddant i eraill, eu meusydd a'u gwragedd hefyd; canys estynaf fy llaw ar drigolion

y wlad, medd yr Arglwydd. Oblegid o'r lleiaf o honynt hyd y mwyaf, pob un sy'n ymroi i *gybydd-dod*; ac o'r prophwyd hyd yr offeiriad, pob un sydd yn gwneuthur ffalsder." Dywed wrthynt trwy Malachi, "Melldigedig ydych trwy felldith; canys chwi a'm hyspeiliasoch i, yr holl genedl hon." A chyhoedda y Testament newydd yn yr iaith gadarnaf, "Nad oes i'r cybydd, yr hwn sydd ddelw-addolwr, etifeddiaeth yn nheyrnas Crist."

2. Y mae cybydd-dod yn achosi gofidiau anirnadwy i holl gylchoedd cymdeithas.—I'r *tlawd* yn ei angen—i'r *plant* a fegir—i dangnefedd *teyrnasoedd*—ac i lwyddiant *eglwysi* y saint.

Niweidia y *tlawd yn ei angen;* oblegid y mae gormes yn gyffredin yn dilyn cybydd-dod. Y mae y rhai a wyllt-ymawyddant i bentyru golud yn barod i "werthu y tlawd er arian, a'r anghenus er pâr o esgidiau." Gorchymyna deddf y nef i ddyn beidio caledu ei galon, na chau ei law yn erbyn y tlawd a'r dieithr yn y tir; ond y cybydd, pan welo ar ei ffordd y dieithr, tlawd, a chlaf, yn newynog ac archolledig, a dry ei wyneb draw, ac a gilia "o'r tu arall heibio." Dywed y ddeddf, "Pan gynhauafoch gynhauaf eich tir, na feda yn llwyr gonglau dy faes, ac na chynull loffion dy gynhauaf, ond gâd hwynt i'r tlawd ac i'r dieithr:" ond y cybydd a ddwg ymaith "ddyrnaid lloffa" y newynog; ac felly a gyll ei hawl i'r addewid sy'n dwyn y fendith a'r cynydd. Dywed y ddeddf, "Os echwyni arian i'm pobl sydd yn dlawd yn dy ymyl, na fydd fel occrwr iddynt." Ond y cybydd a gymer wystl gan y tlawd, ac a'i gâd yn noeth heb ei wisg yn yr oerni, ac a bâr iddo gofleidio y graig o eisiau diddosrwydd. Dywed y ddeddf, "Na chystudd-

iwch mewn un modd y weddw na'r amddifaid;" ond enfyn y cybydd y weddw alarus oddiwrth ei borth yn waglaw; a chan symud y terfyn efe a ymwthia i feusydd yr amddifaid, heb gofio fod "Tad yr amddifaid" yn fyw ac yo nerthol i ddial. "Y neb a gymer drugaredd ar y tlawd, sydd yn rhoddi echwyn i'r Arglwydd;" ond y cybydd a gyfyd iau gormes i lethu y truan, a gwelir ei eiddo yn toddi o flaen anadl ei orthrymydd, fel y tawdd caenen o eira o flaen heulwen Calanmai. Gan rym sugniad ei awydd, gwelir meddiannau ei gymydogion gweiniaid yn cyflym ymsymud tua'i ffau: ac o ychydig i ychydig canfyddir y tŷ a'r tyddyn sy'n fâgle i wyth neu ddeg o blant mân, a gardd a bwthyn y llafurwr boddlon, a buwch a dafad y weddw lesg yn cael eu cydlyncu i fedd agored chwant y cybydd: ac felly melldithion y gorthrymedig a orphwysant ar ei enaid, ac ar ei dylwyth, ac ar ei holl feddiannau. Pan y dywed y ddeddf, "Na ysbeilia y tlawd am ei fod yn dlawd;" y mae dannedd a chil-ddannedd cenhedlaeth y cybyddion fel cleddyfau ac fel cyllill i ddifa y tlodion oddiar y ddaear, a'r anghenus o blith dynion. Dygant allan wehilion y gwenith, gan brinhâu yr ephah, a helaethu y sicl, er gorthrymu yr anghenog, heb feddwl am y fraich hollalluog sydd wedi ei chodi i ddïal, nac am y Duw sydd yn tystio trwy lŵ, "Nad anghofia byth yr un o'u gweithredoedd." Os bydd brawd neu chwaer yn noeth, ac mewn eisiau beunyddiol ymborth; a dywedyd o un wrthynt, Ewch mewn heddwch, ymdwymnwch, ac ymddigonwch; eto heb roddi iddo angenrheidiau y corph, pa les fydd? Yr hwn sydd ganddo dda y byd hwn, ac a welo frawd neu chwaer

mewn eisiau, ac a gauo ei dosturi oddiwrthynt,—pa fodd y mae cariad Duw yn aros ynddo ef?"

Y mae cybydd-dod rhieni yn niweidiol iawn i'r *plant a fegir*; canys y mae yn lluddias iddynt gael yr addysgiadau a'r mwynderau a'u galluogant i fod yn ddefnyddiol a dedwydd fel aelodau cymdeithas, a thrwy hyny byddant yn debyg, naill ai i fod yn fwy bydol na'u rhieni, neu i ryfygus ymollwng o'r tu arall i genllif afradlondeb. Dan deimlad dwys a bywiog o ëangder effeithiolaeth y drwg yma, mae y cenhadwr parchus, Richard Knill, yn difrifol anog rhieni i ofalus hyfforddi eu plant pa fodd i ochelyd maglau "ffordd Balaam," yn y geiriau canlynol,—"Na redwch ar ol arian eich hunain, a bydd hyny yn sicr o gael effaith dda ar eich plant. Na foed iddynt byth gael eich gweled chwi yn ymgrymu i'r ddelw aur. Na ddysgwch iddynt dybied mai Elw ydyw duwioldeb, ond boed i'ch ymarweddiad *brofi* iddynt o ddydd i ddydd fod duwioldeb, gyda boddlonrwydd, yn elw mawr. Yr wyf wedi teithio llawer, ac yr wyf yn gorfod casglu oddiwrth yr hyn a welais, mai y wers gyntaf a ddysgir i blant gan y rhan amlaf o rieni ydyw, mai y *penaf peth yw arian*. Dyma oedd y cyfeiliornad a dwyllodd Balaam, na foed iddo eich twyllo chwithau. Anogwch eich plant i fod yn gall fel y seirph, yn ddiniwed fel y colomenod, ac yn ddiwyd fel y gwenyn; ac yn mlaenaf dim ymdrechwch argraffu yn gynar ar eu meddwl, na fyddai o un lles iddynt enill yr holl fyd, a cholli yr enaid, nad allai goludoedd y bydysawd ddim eu dedwyddu os heb grefydd, ac y byddant yn dlawd byth os heb Grist wrth farw." Pan yn anog *ieuenctyd* i ymogelyd rhag cyfeiliorni drwy y twyll

yma, sylwa Mr. Knill yn mhellach,—"Y gall llawer cenad dros Grist ddywedyd yn y dyddiau hyn,—Demas a'm gadawodd, gan garu y byd presenol. O fel y mae llawer gŵr ieuanc fu unwaith yn awyddus ymofyn am y ffordd tua'r nef, wedi ei lygru a'i galedu trwy ariangarwch. Pan gartref dan gronglwyd ei dad crefyddol buasai yn dywedyd,—Pe rhoddai Balac i mi arian ac aur lonaid ei dŷ, nid allwn glwyfo fy nghydwybod trwy wneuthur na bychan na mawr yn groes i air yr Arglwydd, ond wedi hyny ymollyngodd i ffrwd y byd; a thrwy ganfod y ddelw aur o'i flaen o hyd yn y masnach-dŷ a'r farchnadfa, trwy siarad am dani wrth fwrdd y wledd fel wrth fwrdd y cyfnewid, a thrwy ganmol ei thegwch ar ddydd Sul fel ar ddydd Llun, gwyrodd ei galon ati, nes o'r diwedd y syrthiodd i lawr i'w haddoli." Gan i gynifer ó filoedd gael eu hudo yn y dull yma, bydded i'r rhai sydd yn awr yn dechreu eu gyrfa fasnachol trwy ddyrysni y byd, ochelyd y gau lwybrau sydd wedi bod mòr andwyol i eraill. Bydded iddynt anrhydeddu yr Arglwydd â'r peth *penaf*, sef y *blaen*-ffrwyth o'u holl gynyrch. Bydded iddynt gofio mai gwreiddyn pob drwg yw ariangarwch,—fod Crist yn gofyn ac yn teilyngu y galon, ac y rhoddir iddynt yn ychwaneg bob peth angenrheidiol os ceisiant yn *gyntaf* deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef. Y mae y prophwyd Habacuc yn cyhoeddi y gwaeau trymaf yn erbyn yr hwn "a elwo elw drwg i'w dŷ, i osod ei nyth yn uchel." Dwg warth i'w dŷ, a barnedigaeth ar ei dylwyth; o herwydd y gareg o'r mur a lefa yn ei erbyn, a'r trawst o'r gwaith coed a'i hetyb. Y neb "a flina ei dŷ" yn yr ystyr yma, a "berchenoga y gwynt;" ac ni bydd ei lafur a'i enill ond gwagedd a gorthrymder. Ei blant,

neu y rhai a ddeuant ar ei ol, a lygrir trwy ei ymddygiad, nes peidio a bod yn gall; ac felly trŷ y golud a bentyrodd yn fagwraeth i afradlonedd a diogi, a therfyna yn fynych mewn angen a gwarth. Wrth gyfeirio at lygrawl effeithiolaeth ymddygiadau y cybydd, sylwa y Dr. Dwight, ei fod yn gosod ger bron ei deulu a'i gymydogion ddarlun byw o fydolddyn ysgeler ac annedwydd. Ei fod yn anghofio Duw wrth addoli aur. Ei fod yn difa o hyd, ond heb byth gael ei ddigoni. Ei fod yn difadu ei dylwyth o gysuron bywyd, ac yn grwgnach wrth estyn iddynt y briwsion angenrheidiol. Mai crintachrwydd ydyw prif nodweddiad ei einioes. Ei fod yn camdreulio ei ddydd o ras i drysori iddo ei hun ddigofaint erbyn dydd digofaint. Ei fod yn cyflymu tua ei gyfrif olaf, heb un ymdrech na meddwl am barotoad erbyn yr amgylchiad ofnadwy. A'i fod, nid yn unig yn ei andwyo ei hun, ond fod ei gyfrwysder a'i lwyddiant ef yn hyfhâu ac yn denu ei gymydogion i ddilyn yr un llwybrau o ddichell a gormes. Ac felly bod gwreiddiau chwerwon cybydd-dod yn ymledu ac ymlïosogi o'i amgylch, ac yn debyg o dyfu yn mhob tŷ trwy ei ardal. Dysgir ei feibion i ddibrisio rheolau moesoldeb, i droseddu egwyddorion cydymdeimlad, i rwygo rhwymiadau cydwybod, ac i ddiystyru ewyllys eu Duw—os gallant mewn un modd gael gafael yn yr *elw:* ac yna, wedi ymgaledu o'u mebyd, a chael eu hyfforddi o'r bru i wneuthur ysgelerder, ymadawant, fel mewn gwanc, o dŷ eu tad, i ysglyfaethu bywydolion cymdeithas.

Y mae ariangarwch yn wreiddyn i lawer o ddrygau gwladol o'r ysgelerder erchyllaf. Y mae wedi dyrysu tywysogion yn ei faglau, ac wedi dallu ynadon i ŵyro

barn yr amddifaid. Y mae wedi suddo llywiawdwyr yn mhydewau dyryswch, ac wedi magu y fath chwantau niweidiol mewn llawer ymerodraeth gref, ag a'i boddodd i ddinystr. Dylai y darluniadau ysprydoledig a roddir i ni o gwymp Tyrus, ac Assyria, a'r Aipht, a Moab, a Babilon, ac Israel, *trwy falchder a thrais eu cybydd-dod,* gael eu codi yn uchel, fel arwydd-nodau tân, i rybuddio teyrnasoedd eraill o'r perygl o gael eu dryllio yn ystormydd diluw yr un chwantau ofnadwy. Am TYRUS dywedir, "—Trwy dy ddoethineb a'th ddeallgarwch y cefaist gyfoeth it; ïe, y cefaist aur ac arian i'th drysorau; trwy dy fawr ddoethineb ac wrth dy farchnadaeth yr amlheaist dy gyfoeth, *a'th galon a falchiodd o herwydd dy gyfoeth:* trwy amlder anwiredd dy farchnadaeth y llenwaist dy ganol â thrais, ac yr halogaist dy gysegroedd: am hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Wele fi yn dwyn i'th erbyn ddieithriaid, y trawsaf o'r cenhedloedd; a thynant eu cleddyfau ar degwch dy ddoethineb, a halogant dy loywder; disgynant di i'r ffos, a byddi farw o farwolaeth yr archolledig yn nghanol y môr:— dygaf dân allan o'th ganol, yr hwn a'th ysa; a gwnaf di yn lludw ar y ddaear yn ngolwg pawb a'th welant. Dy olud, a'th ffeiriau, dy farchnadaeth, dy forwyr, a'th feistraid llongau, cyweirwyr dy agenau, a marchnadwyr dy farchnad, dy ryfelwyr, a'th holl gynulleidfa a syrthiant yn nghanol y môr ar ddydd dy gwymp di. Holl breswylwyr yr ynysoedd a synant am danat, a'u brenhinoedd a ddychrynant ddychryn: y marchnadyddion yn mysg y bobloedd a chwibianant arnat: dychryn fyddi; ac ni byddi byth."—Am ASSYRIA dywedir, "Wele, Assur oedd gedrwydden yn Libanus, yn deg ei cheinciau, a'i brig yn cysgodi, ac yn uchel

ei huchder, a'i brigyn oedd rhwng y tewfrig. Dyfroedd a'i maethasai hi, y dyfnder a'i derchafasai; a'i hafonydd a gerddent o amgylch ei phlanfa; bwriodd hefyd ei ffrydiau at holl goed y maes. Am hyny yr ymdderchafodd ei huchder hi goruwch holl goed y maes, a'i cheinciau a amlhasant, a'i changhenau a ymestynasant o herwydd dyfroedd lawer: holl ehediaid y nefoedd a nythent yn ei cheinciau hi, a holl fwystfilod y maes a lydnent dan ei changhenau hi; ïe, yr holl genhedloedd llïosog a eisteddent dan ei chysgod hi.—Am hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, O herwydd ymdderchafu o honot mewn uchder, a rhoddi o honi ei brig yn mysg y tewfrig, *ac ymdderchafu o'i chalon yn ei huchder*, am hyny rhai ofnadwy y cenhedloedd a'i torasant hi ymaith, ac a'i gadawsant hi; ar y mynyddoedd ac yn yr holl ddyffrynoedd y syrthiodd ei brig, a'i changhenau a dorwyd yn holl afonydd y ddaear; a holl bobloedd y tir a ddisgynasant o'i chysgod hi. Yn y dydd y disgynodd i'r bedd, gwneuthym alaru: töais y dyfnder am dani hi, ac yr ydoedd ar holl goed y maes lesmair am dani hi. Gan swn ei chwymp hi y cynhyrfais y cenhedloedd, fel nad ymdderchafo coed y dyfroedd yn ei huchder.—Am ei drygioni y bwriais hi allan." Am yr Aipht a'i chynorthwywyr, y rhai a ymogoneddent yn "amlder eu golud, ac yn nghadernid eu rhwysg, dywedir,—"Disgynasant i uffern ag arfau eu rhyfel; a rhoddasant eu cleddyfau dan eu penau: eithr eu hanwireddau fydd ar eu hesgyrn hwy, er eu bod yn arswyd i'r cedyrn yn nhir y rhai byw." Am Moab y dywedir, "O herwydd am i ti ymddiried yn dy drysorau, tithau a ddelir: Camos hefyd a â allan i gaethiwed, a'i offeiriaid a'i dywysogion yn nghyd. Rhoddwch

adenydd i Moab fel yr ehedo ac yr elo ymaith; canys ei dinasoedd hi a fyddant anghyfanedd heb breswylydd ynddynt: ni ddianc un ddinas, eithr derfydd am y dyffryn, a'r gwastad a ddifwynir, megis y dywedodd yr *Arglwydd*." Am BABILON y dywedir,—"Tydi yr hon ydwyt yn aros ar ddyfroedd lawer, yn aml dy drysorau, dy ddiwedd di a ddaeth, sef mesur dy gybydd-dod. Wele fi i'th erbyn di, o fynydd dinystr-iol, medd yr Arglwydd; a myfi a estynaf fy llaw arnat, ac a'th dreiglaf di i lawr o'r creigiau, ac a'th wnaf di yn fynydd llosg: ac ni chymerant o honot faen congl na sylfaen, ond diffaethwch tragwyddol a fyddi di, medd yr Arglwydd. A mi a ymwelaf â Bel, ac a dynaf o'i safn ef yr hyn a lyncodd, a'r cenhedloedd ni ddylifant ato mwyach. A bydd Babilon yn garneddau, yn drigfa dreigiau, yn syndra, ac yn chwibianiad, heb breswylydd. A myfi a feddwaf ei thywysogion hi, a'i doethion, a'i phen-aethiaid, a'i swyddogion, a'i chedyrn, a hwy a gysgant hûn dragwyddol, ac ni ddeffroant, medd y Brenin, enw yr hwn yw Arglwydd y lluoedd."^ Am ISRAEL y dywedir, "Fel hyn y dywed yr Arglwydd Dduw, Drwg, drwg unig, wele, a ddaeth. Diwedd a ddaeth, daeth diwedd; diwedd a ddaeth ar bedair congl y tir. Daw trychineb ar drychineb, a bydd chwedl ar chwedl; yna y ceisiant weledigaeth gan y prophwyd: ond cyfraith a gollir gan yr offeiriad, a chyngor gan yr henuriaid. Y brenin a alara, a'r tywysog a wisgir âg anghyfanedd-dra, a dwylaw pobl y tir a drallodir. Ymwregysant hefyd mewn sachliain, ac arswyd a'u töa hwynt. Eu harian a daflant i'r heolydd, a'u haur a roir ymaith fel peth aflan: eu harian na'u haur ni ddichon eu gwared hwynt yn nydd digter yr Arglwydd:

eu henaid ni ddiwallant â'u *golud*, a'u coluddion ni lanwant, oblegid tramgwydd eu hanwiredd ydyw." Cybydd-dod a andwyodd y cenhedloedd cryfion yma fu gynt yn flodeuog, a thrwy dwyll ac anwiredd golud y symudwyd y frenhiniaeth oddiwrth un bobl i bobl eraill. Cynhyrfodd eu golud hwynt i falchïo, dysgodd eu balchder hwynt i ormesu, parodd eu gormes iddynt ymranu, arweiniodd eu hymraniadau i wendid, a therfynodd eu gwendid yn eu dinystr. Ymdderchafiad eu calon o herwydd cynydd eu cyfoeth a ddarfu achosi eu cwymp. Eu balchder yn wyneb ymlediad ac ymlïosogiad eu canghenau cysgodfawr a theg, a'u hymffrost am fod eu brigyn mor uchel rhwng y tew*frig* a barodd i Sanct y nefoedd ymddisgyn o'i aneddle i'w hysgythru i ddinystr. Eu gwaith yn ymogoneddu yn "amlder eu trysorau" ydoedd "maen tramgwydd eu hanwiredd;" a phan gyflawnwyd "mesur eu cybydd-dod," daeth dinystr ar ddinystr, fel tònau y dymestl, ar draws eu gogoniant, nes rhoi terfyn i'w hymffrost, a gwneud diwedd ar eu rhwysg. Ac wrth daflu cip-olwg ar hanes cenhedlaethau *diweddarach*, canfyddir ar unwaith fod "twyll golud," mewn dirif amgylchiadau, wedi gwyro calon y brenin ar ei orsedd, wedi gogwyddo yr ynad i gyfeiliorni o lwybr uniondeb, wedi cyflymu camrau y marsiandwr i dwyll ac anwiredd, wedi dysgu y trysorwr cyhoeddus i afradloni yn anghyfiawn, ac wedi gwyll-gynhyrfu byddinoedd y gormeswr i orlifo holl gylchoedd gwib-deithiau eu cynddaredd ysglyfaethgar â gwaed y diniwaid. Pan y mae gwlad yn edrych am "ŵyr nerthol a geirwir, yn ofni Duw, ac *yn casau cybydd-dod*, i weinyddu ei chyfreithiau, mwynhâ lonyddwch a llwyddiant; ond pan y mae ei barnwyr a'i swyddog-

ion yn "troi ar ol cybydd-dra," ei gogoniant a ymadawodd. Ac onid oes genym le i ofni fod yr ariangarwch yma wedi *gorfodi* ein gwlad ein hunain i fabwysiadu trefniadau er cynhaliad y tlawd, a lledaeniad egwyddorion duwioldeb, ag ydynt wedi troi hoff-ffrydiau iachusol a grisialaidd elusengarwch a haelfrydedd i ymdreiglo yn araf drwy redleoedd *gorfodaeth*—trefniadau ag ydynt, yn lle tyneru y galon i dosturi a chariad, yn mygu ei serchiadau drwy eu lluddias i rydd-weithredu. Ac onid o'r un ffynhon ofnadwy, sef cybydd-dod, y tarddodd yr arferiad anghyfaneddawl, ag sydd wedi ffynu mor helaeth drwy ranau o'n gwlad, o "gysylltu tŷ at dŷ," ac o "gydio maes wrth faes," ac o ychwanegu crefft ar grefft, nes bod eisiau lle yn nghanol y tir. Y mae y gormes gwaeddfawr yma wedi difadu myrddiynau o gartrefleoedd cysurus, ac wedi eu taflu i ddyfnderoedd tlodi, gan eu caethiwo gyda hyny yn maglau diogi, ac yn nghadwynau trosedd.

> I ddrygau nifeiriol bydd gwlad yn ysglyfaeth.
> Os tyrir ei golud nes gwywo'i phoblogaeth;
> Gall anadl awdurdod wneud llu o Arglwyddi
> I gyflym flodeuo, neu gyflym ddiflanu,—
> Ond os caiff y *werin*, drwy gam, eu distrywio,
> Nid Senedd, na Brenin, all byth eu hadfywio.

Pan y mae cybydd-dod yn cael meddiant o'r swyddau *isaf* yn ngweinyddiad llywodraeth gwlad, y mae yn debyg o wneud hafog ofnadwy: ond pan y mae yn cael esgyn i gadair anrhydedd, pan y mae yn cael lle yn nghyngor tywysogion, pan yn cael eistedd ar orseddfainc barn, a phan yn cael croesawiad i lŷs y Senedd, y mae ei hafog, fel y sylwa Dwight, yn ymledu gyda mwy o gyflymdra nag ehediadau y dychymyg. Ariangarwch oedd yr achos o'r rhan fwyaf o'r rhyfeloedd

gwaedlyd a wasgodd deyrnasoedd Ewrop i riddfan yn y llwch dan faich dychrynadwy o ddyledion ac o drethi. Ariangarwch a gynhyrfodd fyddinoedd Spaen i gyflawni eu creulonderau erchyllaf tua Mexico a Pheru. Ariangarwch fu'n hwylio y caeth-longau o America ac o Ewrop i ororau Affrica,—fu'n rhwygo oddiyno fyrddiynau ar fyrddiynau o rieni a phlant o fynwesau eu ceraint,—fu'n eu cludo mewn cadwynau dros dònau yr Atlantic,—a fu'n eu gwasgu wedi hyny i'r bedd drwy ing a lludded. Y mae ariangarwch yn mhob oes, ac yn mhob gwlad, wedi bod yn difa cysuron, ac yn rhwygo calonau dynolryw. Creulon ydyw fel angau, a diddigoni fel y bedd. Lledodd ei anferth geg yn ddifesur, a llyncodd i ddystryw ogoniant llawer dinas, a lliaws llawer gwlad.

Ond er cymaint yr anrhaith a achosodd yn *mreniniaethau dynion*, y mae y ffieidd-dra anghyfaneddol a ddygodd lawer gwaith i *Eglwysi y Saint* yn llawer mwy. Teyrnas Crist nid yw o'r byd hwn; ac nid all dim fod yn fwy gwrthwynebol i'w hegwyddorion, nac yn fwy croes i'w hyspryd, na thymer gybyddlyd. Os caiff unwaith le mewn unrhyw sefydliadau crefyddol, bydd yn sicr o ddifa eu grym, ac anurddo eu hawddgarwch, ac yna eu newynu i angeu. Y mae wedi gwneuthur mwy i ddyrysu tangnefedd, ac i lygru purdeb yr eglwys nag a fedrwyd wneud trwy unol gyfrwysder a malais ei holl elynion eraill: ac nis gall byth fyned allan yn ngwisgoedd ei harddwch, ac yn mawrhydi ei haeledd, nes cael ei dad-ddyrysu o afaelion y byd,—yr hwn sydd yn awr fel rhyw hen sarph dorchog yn ymblethu o gylch ei haelodau er maglu ei cherddediad, yn ymddolenu am ei gwddf er atal ei hanadl, ac yn gwenwyno ei gwaed drwy blanu

ei golyn du fforchog yn ngwytheni ei chalon. Darfu i'r Apostolion, gan weithredu yn ol addysgiadau ac yn yspryd eu Hathraw dwyfol, orchymyn yn y dull difrifolaf i'r eglwysi "ymogelyd rhag cybydd-dod," a'u rhybuddio yn y modd ffyddlonaf i wylio beunydd yn erbyn dichellion ystrywgar y fath elyn cyfrwys-ddrwg;—yr hwn, os unwaith y goddefid iddo ymlusgo i mewn, a'u hysbeiliai o'u nerth a'u harddwch, a andwyai eu defnyddioldeb a'u llwyddiant, ac a droai eu cariad yn derfysg, eu gorfoledd yn dristwch, a'u hiraidd-nôdd yn sychder hâf. Arwyddent mai nid gweddaidd ydoedd i gybydd-dra gael ei "*enwi*" yn mysg Saint, ac y dylent ymgilio oddiwrth y cybydd gan beidio "*cyd-fwyta*" âg ef. Amlygent y dylai holl swyddogion yr eglwys fod—nid yn ariangar, nid yn budr-elwa, nid heb gydnabod eu digon, nid yn wynebu bob un am ei elw o'i gwr, nid yn tybied mai elw yw duwioldeb—ond yn barod i gyfranu i gyfreidiau y Saint, yn hawdd ganddynt roddi, yn dilyn lletty-garwch, o ymarweddiad diariangar, ac yn ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da. Dangosent y gwnai yr athraw ariangar ddymchwelyd tai cyfain, y gwnai farsiandïaeth o eneidiau dynion, ac y treiglai faen tramgwydd o flaen llwythau yr Arglwydd er mwyn budr elw. Darlunient galonau wedi ymgynefino â chybydd-dod fel "brychau yn y cariad-wleddoedd," yn eu pesgi eu hunain yn ddiofn, tra yn cilgwthio yr anghenog o'r wledd:—fel "cymylau diddwfr," a gylch-arwenir gan wyntoedd gauafaidd, y rhai, yn lle dyhidlo y gwlith ireiddiol i adfywio a ffrwythloni, a daenant ddüwch oeraidd ar bob peth o'u hamgylch; fel "prenau diflanedig" heb ffrwyth o sancteiddrwydd i Dduw, na chymwynasgarwch i ddyn;—"ddwywaith

yn feirw," yn diffrwytho y tir, ac wedi eu diwreiddio fel nad all arogl dyfroedd beri iddynt mwy flaguro; fel "tònau cynddeiriog y môr," yn ewynu allan eu cywilydd eu hunain mewn athrawiaethau gau, neu mewn ymffrost gorwag; fel "Ser gwibiog" yn twyllhudo y pererin llesg trwy anwadalwch eu gau-lewyrch, i'r rhai y cadwyd niwl tywyllwch erbyn eu tragwyddol fachludiad. Rhagddangosent y byddai "amseroedd enbyd" yn sicr o ddyfod, os goddefid i ddynion "a'u serch arnynt eu hunain" ymlusgo i'r eglwysi: ac y byddai y "drygfyd" wrth y drws pan y cymerid y *trugarog* ymaith. A ffyddlawn a chywir oedd eu geiriau, canys dengys hanesyddiaeth yr eglwys fod *aur* wedi gwobr-ddenu myrddiynau i bellderoedd tir gwrthgiliad, ac na buasai *fflamau* erledigaeth byth yn eu dychrynu i gyfeiliorni mor bell. Pan ddechreuodd yr eglwys ymgyfoethogi—pan gyfodwyd y wraig i eistedd ar y bwystfil o liw ysgarlad, pan y cafodd ei dilladu â phorphor, a'i gwychu âg aur, pan y dechreuodd ymogoneddu yn helaethder ei marsiandïaeth, yn nghostfawredd ei golud'oedd, yn amlder ei moethau, ac yn rhwysg ei phuteindra gyda brenhinoedd y ddaear, buan y meddwodd ar waed y Saint, ac y daeth yn fam puteiniaid a ffieidd-dra y ddaear. Ei phechodau hi a gyrhaeddasant hyd y nef, a Duw a gofiodd ei hanwireddau hi, ac a lanwodd iddi yn ddau-ddyblig o gwpan ei phoenedigaeth, ac a archodd i'w bobl ddyfod allan, ac ymgilio ar ffrwst o gyraedd ei phläau hi, a sefyll draw o hirbell i edrych ar fwg ei llosgiad hi.

3. Y mae tymer gybyddlyd yn sicr o drywanu y galon lle byddo â gofid ar ol gofid, nes ei hollol andwyo.

Dengys Solomon fod y rhai sy'n ymflino mewn brys i ymgyfoethogi yn cael eu gwyllt daflu yn ol ac ymlaen ar dònau gwagedd; eu bod yn cynllwyn am waed, ïe, eu gwaed eu hunain; ac mai creulawn a pheryglus ydyw holl lwybrau y rhai sydd yn chwanog i elw. Arwydda Dafydd eu bod yn rhodio mewn cysgod, ac yn ymdrafferthu yn ofer; mai rhith-fwyniant sydd ganddynt; fod eu traed ar lithrigfa tywyllwch, a'u bod felly yn agored i ddinynstr disymwth, tra ar yr un pryd y mae dychrynfeydd marwolaeth yn pigo eu harenau. Dywed Habacuc eu bod yn "ymflino yn y tân, ac yn ymddiffygio am wir wagedd." A chrybwylla mab Sirach, nad oes neb mor ffol â'r cybydd,—nad yw ei gyfran byth yn digoni ei lygad, ei fod yn tyru golud i'r rhai a'i gwastraffant drwy bob afradlonedd, ei fod yn cynfigenu wrth ei gnawd ei hun, ac yn twyllo ei natur o'i hiawnderau, ei fod yn cynyg ei enaid ar werth, a bod ei anwiredd yn ysu ei ymysgaroedd, ac yn sychu ei yspryd.

> "O anfad chwant am aur! pan er dy fwyn
> Y cyll y ffol ei hawl i dda *dau* fyd,—
> First starv'd in this, then damn'd in that to come."

*Achosa ofalon a lludded,* oblegid trwy fod y galon ariangar yn drigfa i awydd diorphwys, a thrwy fod cyrhaeddiad y gwrthrychau a chwenychir y rhan amlaf yn ansicr, y mae y meddwl yn cael ei hongian rhwng ofn a gobaith mewn ingawl *ofal;* ac y mae y gofal hwnw yn ei gynhyrfu at ryw orchestion diddiwedd, ac yn ei gadwyno drwy ei oes yn gaethwas i *ludded,*—yr hwn a arwain i siomedigaeth anocheladwy mewn un o *bedair* ffordd—naill ai methir cyrhaeddyd y mwynderau a chwenychir, er yr holl rag-ofalon a'r drafferth; neu ynte, os gellir eu cyrhaeddyd, trônt allan o lai gwerth

nag oeddid yn ddysgwyl; neu ynte, os tybir eu bod yn digoni, lledant eu hadenydd yn ddisymwth, a diangant ymaith; neu ynte, os byddir wedi sicrhâu meddiant lled ddiogel o honynt, gofynir yr enaid yn ddirybudd, a bydd raid eu gadael i eraill. Darlunir effeithiau gofalon a siomedigaethau y dymer yma gan hen brydydd Seisnig mewn dull tebyg i'r hyn a ganlyn.

"Hebrynga'r marsiandwr ei galon i'r cefnfor,
I ofal tosturi cynddaredd y dòn;
Ac os collir ei long, ei galon a gollir,
Ac i brudd-glwyf marwolaeth y gollwng ei ben.

Yr arddwr wrth ddiwyd aredig ei dyddyn,
A blana ei galon gyda'r hâd dan y gwys;
Ac os tyfa ei ŷd, ei galon flodeua,—
O'r pridd y mae'r naill fel y llall yn cael maeth.

Ar lôg, gyda'i arian, mae calon yr occrwr,
Yn rhwym wrth helyntion echwynwr gwan draw;
Ac os methu wna masnach y tŷ lle bo'i drysor
I'w galon doredig try'r tŷ hwnw'n fedd.

Mewn pwrs y mae calon yr arian-bentyrwr,
Yn ddu-oer ei lle, dan glo, yn y gist;
A phan y cais weled ei galon a'i drysor,
Caiff un lle bo'r llall,—un allwedd wna'r tro."

Lle y byddo ein trysor, yno y bydd ein calon hefyd. Ymegniwn, gan hyny, am drysor yn y nef, ac yna bydd y trysor yn ddiogel, a bydd y galon yn ddedwydd. Gloywwn lygad ffydd fel y gwelom waelder teganau daear. Nid yw'r byd yma yn werth ein serch. Na phwyswn arno: nid yw ond corsen ysig ar y goreu,— ac y mae dagr wrth ei blaen a drywana y galon.

*Y mae tymer ariangar yn ataliol i bob ymestyniad am wybodaeth.* Pan y mae holl feddylfryd calon dyn ar ei olud, "Gwell yw erthyl na hwnw. Mewn oferedd y daeth, ac yn y tywyllwch yr ymedy; ni welodd yr haul, ac ni ŵyr ddim." A phe byddai byw ddwyfil o flynyddoedd, *anoeth* fyddai yn y diwedd.

Fel y "Pharisead ariangar" gwrthoda addysg, a dirmyga gerydd. Ni chais wybod doethineb: ni fŷn gymeryd athrawiaeth deall: ni wrendy er ychwanegu addysg, ac ni ddaw i gynghorion pwyll. Os gwrendy yn achlysurol ar air y deyrnas, "y mae gofalon y byd hwn, a hudoliaeth golud, a chwantau am bethau eraill yn dyfod i mewn, ac yn tagu y gair, a myned y mae yn ddiffrwyth." Y mae ordinhadau y Sabboth, nid yn hyfrydwch, ond yn faich i'w enaid; a dywed—"Pa bryd yr â y newydd-loer heibio, fel y gwerthom ŷd? a'r Sabboth, fel y dygom allan y gwenith, gan briuâu yr epha, a helaethu y sicl, ac anghyfiawnu y clorianau trwy dwyll? I brynu y tlawd er arian, a'r anghenus er pâr o esgidiau, ac i werthu gwehilion y gwenith?" Yn lle "ymffrostio yn hyn, ei fod yn deall, ac yn adnabod yr Arglwydd a wna drugaredd, a barn, a chyfiawnder yn y ddaear,—ymffrostia yn ei gyfoeth," ac felly nis gall yr Arglwydd ei Wneuthurwr ymhyfrydu ynddo. Efe a'i gollwng i gaethiwed ei chwantau ei hun; rhŷdd iddo ei ddymuniad, ond enfyn gulni i'w enaid.

*Y mae tymer ariangar yn rhwystrol i yspryd gweddi a nefolrwydd ymarweddiad.* Y mae fel glûd tew yn cadw edyn yr enaid yn nglŷn wrth y ddaear, fel nad allo ymgodi tua'r nef i ddal cyfeillach â Duw. Dyma brif wreiddyn pob gwrthgiliad; oblegid os câr neb y byd, nid yw cariad y Tad yn aros ynddo ef. Gan fod y byd yn cael ei galon, nid oes ganddo ddim i'w gynyg i'r Arglwydd. Ni fedd amser i na darllen na myfyrio. Ni fedd hamdden i feddwl am na phechod na sancteiddrwydd. Nid yw yn cofio bod na nefoedd nac uffern yn bod. Ni fedr gael cyfle i ystyried sefyllfa ei enaid. Nid all hebgor munud i godi ei

lygad o'r ddaear, er cael cip-olwg ar y nef. Y mae yn cyfrif ei arian tra y mae angau yn curo wrth ei ddôr. A haws yw i gamel fyned drwy grai y nodwydd ddûr, nag i oludog *fel hwn* fyned i mewn i deyrnas Dduw.

*Mae y dymer yma yn andwyol i bob defnyddioldeb.* Ni cheir nemawr o adeiladaeth oddiwrth gyflawniadau difywyd y dyn sy'n synied pethau daearol. Nid oes na chariad at Grist na thosturi at ddyn yn ei gymell; oblegid nid oes le i'r fath deimladau gael gweithredu yn ei fynwes : ac felly y mae ei weddiau fel penteulu, a'i addysgiadau fel athraw yn yr ysgol, a'i ymddiddanion fel aelod eglwysig, a'i gynghorion fel cyfarwyddwr mewn sefydliad crefyddol, yn ddifywyd a dieffaith. Nid yw'n teimlo dim o rym duwiol y serch sanctaidd, a'r sêl hunan-ymwadol ag sydd yn hanfodol i gyfansoddi bywyd o ddiwydrwydd a defnyddioldeb.

Y mae y dymer yma, tra yn magu yn y galon anfoddlonrwydd ac anesmwythder, yn ei *difuddio o bob sylweddol fwynhad.* Da a theg ydyw i ddyn fwynhâu yn dawel o ffrwyth ei lafur: ond cyfoeth wedi ei gadw er niwed i'w berchenog yw y trueni mwyaf blin a welir dan haul. Pa fûdd sydd i'r hwn a lafurio fel hyn am y gwynt? Er amled ei dda, pa fûdd a fwynhâ, ond eu gweled â'i lygaid? Efe a fwyty mewn tywyllwch ei holl ddyddiau, a chaiff lawer o ddigter llidus gyda'i holl ofal a'i ofid. Y mae ymdaith ei enaid wrth ddyfal-wylio am gyfoeth yn peri i'w gnawd gurio, ac y mae dwysder ei ofalon, fel rhyw glefyd poeth, yn dyrysu ei gwsg. Y mae yn gwario ei arian am yr hyn nid ydyw fara, a'i lafur am yr hyn nid yw yn digoni. Pan y taer wahoddir ef i swper mawr yr efengyl, rhaid iddo fyned i weled ei

dyddyn, ac i brofi ei bum iau ychain, ac atolyga gael ei gymeryd yn esgusodol: ac felly y mae holl gyfoethog arlwyadau y nef yn cael eu colli ganddo; ac yn lle ymhyfrydu mewn brasder, y mae ei enaid yn newynu. Ni ŵyr ddim am siriol foddlonrwydd calon ddiolchgar. Ni ŵyr ddim am iachusol felusderau meddwl tawel. Ni ŵyr ddim am hyfryd ffrwythau tiriondeb cydymdeimladol. Ni ŵyr ddim am buredig gyfranogiad o fûdd cymdeithasol. Ni ŵyr ddim am yr uchel hyfrydwch sydd yn deilliaw oddiwrth bob ymegniad i wneuthur daioni. Nid all dim teimladau o'r fath yma gael unrhyw groesaw yn ei fynwes. Gyda golwg ar *drueni* y dymer bechadurus hon, sylwa y Dr. Chalmers—"Fod y dyn, yn yr hwn y mae yn cael llywodraethu, yn llwyr ddibrisio ei gyfoeth presenol y funud y daw i'w feddiant, a bod ei awydd diddigoni yn ymderfysgu yn ddiorphwys, gan draws-arglwyddiaethu ar ei reswm, a dibaid ocheneidio am ychwaneg. Pan feddyliom nad yw yn cael dim boddhâd yn y meddiannau sydd ganddo, trwy ei fod yn sychedu yn ddidor am yr hyn nad oes ganddo; a phan ystyriom ei fod drwy bob cam o'i ymestyniad am olud yn ëangu cylch ei beryglon, ac yn llïosogi y bylchau drwy ba rai y gall picellau tanllyd gofid gyraedd ei galon; pan gofiom ei fod yn cael ei luchio beunydd ar frig trochionwyllt dònau cynddeiriog damwain, a'i fod yn disgwyl bob moment i'w lestr gôr-lwythog gael ei ddryllio gan rym y croes-wyntoedd, a bod cynwrf ei deimladau tymhestlog yn cuddio byd arall yn hollol o'i olwg.—Pwy, wrth edrych ar feddwl terfysglyd a dyrysedig y dyn anedwydd hwn yn cael ei guro gan dònau helbul, yn erbyn creigiau siomedigaeth, na ddywedai,—Fod aderyn bach yr awyr wrth byncio cân

natur yn y goedwig, i ganmol darpariadau rhagluniaeth, yn llawer dedwyddach nag ef. A pha faint mwy dedwydd nag ef ydyw y Cristion tawel sydd yn byw yn ei ymyl! yr hwn, heb ddim o bethau daear ond ymborth a dillad, sy'n ymfoddloni ar hyny; yr hwn sy'n rhoddi ei serch ar yr elw mawr sy'n dwyn boddlonrwydd; yr hwn, wrth feithrin tangnefedd yr efengyl yn ei galon, a chadw gogoniant y nefoedd yn ei olwg, sydd wedi cael allan y wir ffordd i fod yn hapus; yr hwn sydd wedi dewis ei gyfran yn yr unig fan lle y mae digon i'w gael; a'r hwn, wrth ymlid cybydd-dod o'i fynwes, sydd wedi gallu ymlid ei ofalon a'i groesau ymaith ar yr un pryd."

Y mae tymer ariangar yn *arwain i bechodau eraill.* Y rhai sydd yn ewyllysio ymgyfoethogi sydd yn syrthio i brofedigaeth a magl, a llawer o chwantau ynfyd a niweidiol, y rhai sydd yn boddi dynion i ddinystr a cholledigaeth. Gŵr drwg ei lygad a brysura i ymgyfoethogi, ac ni bydd dieuog. Y mae ei draed ar lithrigfa, ac efe a wna gam am damaid o fara. Dengys Paul fod dynion ariangar "a'u serch arnynt eu hunain, yn ymffrostwyr, yn feilchion, yn gablwyr, yn anufuddion i rieni, yn anniolchgar, yn annuwiol, yn angharedig, yn tori cyfamod, yn enllibaidd, yn anghymesur, yn anfwyn, yn ddiserch i'r rhai da, yn fradwyr, yn waedwyllt, yn chwyddedig, yn caru melus-chwant yn fwy nag yn caru Duw: a chanddynt rith duwioldeb, eithr wedi gwadu ei grym hi."—"Rhai yn sefyll yn erbyn y gwirionedd, dynion o feddwl llygredig, ac yn anghymeradwy o ran y ffydd." ïe, "GWREIDDYN POB DRWG YW ARIANGARWCH."

Y mae yn wreiddyn i *falchder:* canys y mae y dyn

ariangar yn ddoeth yn ei olwg ei hun, a chan anghofio yr Arglwydd ei Dduw, yr hwn sydd yn rhoddi iddo synwyr a nerth i beri cyfoeth, efe a ddywed yn ei galon, Fy nerth fy hun, a chryfder fy llaw a barodd i mi y cyfoeth hwn: ni'm symudir, o herwydd ni fyddaf mewn drygfyd o genhedlaeth i genhedlaeth. Llawenycha am fod ei gyfoeth yn fawr; gesyd ei obaith mewn aur, a dywed wrth aur coeth—Fy ymddiried wyt. Am hyny cadwyna balchder ef, a gwisga trawsder am dano: a'i dafod, gan ddywedyd yn uchel, a gerdd drwy y ddaear; ac o'r diwedd yn rhyfyg ei ymffrost, efe a ddengys i'w elynion holl dai ei drysorau.

Y mae yn wreiddyn i *anfoddlonrwydd*. "Gall ychydig" fel y sylwa Galen, "ddigoni natur, a gall llai ddigoni gras; ond nid oes dim a all ddigoni chwantau y cybydd." Gall dyn o ymarweddiad diariangar fod yn foddlon ar yr hyn sydd ganddo, oblegid efe a ŵyr pwy a ddywedodd—Ni'th roddaf di i fynu, ac ni'th lwyr adawaf chwaith; a chan hyderu yn ei nawdd a'i ffyddlondeb ef, y mae tawelwch yn llenwi ei galon, a sirioldeb yn addurno ei wedd. Ond y mae chwantau aniwalladwy ac ofnau beunyddiol y cybydd yn ei gadw yn anesmwyth ac anedwydd. Y mae yn grwgnach yn erbyn rhagluniaethau y nef, ac nis gall ymddiried i ffyddlondeb ei Greawdwr.

Y mae yn wreiddyn i *weniaith;* oblegid y mae y rhai sydd yn rhodio yn ol y chwant hwn ar y brif ffordd i "fawrygu wynebau dynion er mwyn bûdd;" a llefarant eiriau chwyddedig gweniaith wrth y cyfoethogion, a hyny yn unig er mwyn eu harian.

Y mae yn wreiddyn i *gelwydd*. "Drwg, drwg, medd y prynwr ariangar, ond pan êl o'r neilldu, efe a

ymffrostia." Y mae ei dymer, trwy ymhŷfrydu mewn twyll, yn ei demtio i gamddarlunio ymhob dull y medro holl nwyfau ei fasnachaeth, pa un bynag ai prynu ai gwerthu y byddo: a phan y byddo yn bwyta neu yn yfed, gall ymffrostio, heb wrido, mor fras ac mor felus ydyw "ffrwyth ei anwiredd." Gwisga weithiau "grys o rawn," er ei alluogi i dwyllo, a phrophwyda anwiredd yn enw Arglwydd y lluoedd: ac ni rusa, os gall elwa elw, i ddywedyd celwydd, nid yn unig wrth ddynion, ond wrth yr Yspryd Glân.

Y mae yn wreiddyn i *genfigen*. "At genfigen y gogwydda chwant yr yspryd a gartrefa yn y cybydd." Y mae llwyddiant ac anrhydedd ei gymydog yn ei wneyd yn druenus. Ymboena wrth feddwl am y tawelwch a fwynheir gan arall. Cenfigena wrth *bawb* o'i amgylch—wrth ei *uwchradd*, am eu bod o radd uwch nag ef; wrth ei *gydradd*, am eu bod o'r un radd ag ef; ac wrth ei *isradd*, rhag iddynt ddyfod yn gydradd neu yn uwchradd iddo. Gall ymbesgi ar anghysuron ei gyd-ddynion, ond pan byddo corn yr hael yn cael ei dderchafu i anrhydedd, efe a rincian ei ddanedd. Wrth weled fod "calon iach" yr haelfrydig yn "fywyd i'w gnawd," y mae ei genfigen yn "rhyfela yn ei aelodau," yn "pydru ei esgyrn," ac yn ysu o'i fewn nes ydyw ei gnawd a'i galon yn "toddi ymaith."

Y mae yn wreiddyn i *falais*. Gefeilliaid yn cyd-dyfu o'r un gwreiddyn chwerw ydyw cenfigen a malais. Tra y mae cenfigen yn ymofidio wrth ganfod llwyddiant arall, y mae malais yn gwisgo gwên rhagrith, a thrwy ogan a hustyng eiriau llawn gwenwyn marwol, llunia gynllwynion i'w andwyo: a newidia'r Ethiopiad ei groen, a'r llewpard ei frychni, cyn y gallo calon ariangar roddi heibio ei malais.

Y mae yn wreiddyn i *greulondeb.* Nid oes dim all fod yn fwy effeithiol i sychu deigryn grisialaidd tosturi o'r llygad, ac i ddiffodd holl argyhoeddiadau cydymdeimlad y galon nag ariangarwch. Mae'r fynwes fyddo dan lywodraeth y fath dymer yn sicr, bob yn ronyn, o fyned mor "angharedig a diserch," nes y gall esgeuluso yn ddiystyrllyd y tlawd yn ei gyfyngder, a gallu gorthrymu, heb ofid, yr amddifaid a'r weddw.

Y mae yn wreiddyn i *gyfeiliornadau.* Tra yn chwenychu arian y mae y galon yn sicr o "wyro oddi wrth y ffydd;" nid dichon drwy fabwysiadu ar unwaith ryw gredo anuniawn, neu drwy broffesu yn sydyn ryw heresi damniol, ond oddiwrth *y ffydd* sydd yn edrych ar y pethau ni welir, sy'n ymborthi ar fara y bywyd, sy'n arwain at orsedd trugaredd, sy'n ymhyfrydu mewn cymundeb â Duw, sy'n gweithio drwy gariad, sy'n gorchfygu y byd, ac yn diffodd picellau y fall,—y mae yn gwyro mor bell nes bod yn hollol ddideimlad o effeithiolaeth ei phurdeb, ac yn gwbl amddifad o orfoledd ei chysuron. Wrth "dybied mai elw yw duwioldeb," y mae yn "chwyddo," er heb wybod dim; ac yn "amhwyllo yn nghylch cwestiynau, ac yn ymryson yn nghylch geiriau,"—ac yn ymddyrysu mewn "cyndyn ddadleuon" sy'n llygru y meddwl ac yn tristhâu yr yspryd. Calonau o'r fath yma, yn amddifaid o gariad a grym y gwirionedd, sy'n cymhell dynion i "athrawiaethu y pethau ni ddylid, er mwyn budr elw;" ac i wneud marsiandïaeth o eneidiau anfarwol trwy chwedlau gwneuthur: ac wrth ddirgel ddwyn i mewn eu heresiau dinystriol, llawer a ganlynant eu distryw hwynt, ac o herwydd hyny y ceblir ffordd y gwirionedd.

Y mae yn wreiddyn *annuwiaeth.* Yr annuwiol,

wrth "fendithio y cybydd," gan uchder ei ffroen ni chais Dduw; nid yw Duw yn ei holl feddyliau ef: ac y mae barnedigaethau y nef yn uchel allan o'i olwg ef. Pan yn ymgrymu yn nghynllwynfa y pentrefydd i dremio ar y tlawd er ei hudo i'w rwyd, a phan yn ymlusgo i'w gilfachau i ladd y gwirion, efe a ddywed yn ei galon, "Anghofiodd Duw, ac ni wêl byth." A phan yn gwasgu deigryn gofid o lygad y weddw wan, dywed, "Pa fodd y gŵyr Duw? A oes gwybodaeth gan y Goruchaf?"

Y mae yn wreiddyn i *anghof anniolchgar o ddoniau Duw, ac i wrthryfel rhyfygus yn ei erbyn.* Y dyn a ymddiriedo yn lliosogrwydd ei olud, wele, hwnw yw y dyn ni esyd Dduw yn gadernid iddo; eithr â yn frâs ac a winga, ac a wrthyd yr hwn a'i harweiniodd ac a'i cadwodd fel canwyll ei lygad, ac a ddiystyra graig ei iechydwriaeth: a chan guro ei ddwylaw yn malchder ei lwyddiant, efe a esyd ei enau yn erbyn y nefoedd, a'i dafod a gerdd drwy y ddaear i ddirmygu cenhedlaeth y rhai isel. A phan â dros feddwl calon o gyfoeth, ei lygaid a saif allan gan frasder, ac efe a estyn ei law yn erbyn Duw, ac yn erbyn yr Hollalluog yr ymnertha, ac efe a rêd yn y gwddf iddo ef, trwy dewdwr tôrau ei darianau.

Y mae ariangarwch, fel gwreiddyn yr holl ddrygau hyn, yn *andwyo y cymeriad.* Os dylai yr hwn sydd am gael cyfeillion "gadw cariad, nis gall y cybydd gael cyfaill i'w barchu mewn hawddfyd, nac i lynu wrtho yn ei adfyd; a phan ei tynir ef allan o'i babell, ac y diwreiddir ef o dir y rhai byw, y cyfiawn a welant hyn ac a chwarddant am ei ben ef. Y neb a atalio ei ŷd, y bobl a'i melldithiant ef; ond bendith fydd ar ben y neb a'i gwertho. Y neb a ddyfal geisio ddaioni,

a enill ewyllys da: ond y neb a roddo ei oglud ar gyfoeth a syrth, Y neb a gyfyd ei law yn erbyn yr amddifad, ac a wna i lygaid y weddw ddiffygio, a ddiystyrir gan ddynion ei babell ei hun; a dirmyg llawer teulu a'i dychryna. "Gwae" medd yr Arglwydd drwy Jeremia, "yr hwn a adeilado ei dŷ drwy anghyfiawnder, a'i ystafellau drwy gam, gan beri i'w gymydog ei wasanaethu yn rhâd, ac heb roddi iddo am ei waith;—yr hwn a ddywed, Mi a adeiladaf i mi dŷ ëang, a stafellaa helaeth, ac a nâdd iddo ffenestri, a llofft o gedrwydd, wedi eu lliwio â fermilion. A gei di deyrnasu, am i ti ymgau mewn cedrwydd? Oni wnaeth dy dad farn a chyfiawnder, ac yna y bu dda iddo. Efe a farnodd gŵyn y tlawd a'r anghenog, yna y llwyddodd—er hyny dy lygaid di a'th galon nid ydynt ond ar dy gybydd-dod.——Am hyny, fel hyn y dywed yr Arglwydd am Jehoiacim, fab Josia, frenin Juda,—Ni alarant am dano, gan ddywedyd, O fy mrawd, neu, O ei ogoniant ef! A chladdedigaeth asyn y cleddir ef, wedi ei lusgo, a'i daflu tu hwnt i byrth Jerusalem." Sylwa y Dr. Louth fod "Rhai cyfoethogion yn cael eu parchu yn allanol, pan y mae y dull a gymerant i gasglu cyfoeth yn cael ei ffieiddio; a bod haelfrydedd a thosturi yn sicr o enill anrhydedd, tra na chaiff cybydd-dod a gormes ddim ond dirmyg cyffredinol. Pan y mae gorthrymydd blodeuog yn dysgleirio mewn aur a pherlau, gorchuddir y peth duaf a gwaelaf dan yr addurn drutaf ac ardderchocaf. Y mae y cerlyn a fyno gael ei ystyried yn hael yn bla i gymdeithas: a'i galon yn galed, a'i law yn gauad, y mae yn fwy awyddus na'r môr pan yn llenwi, ac yn fwy diffrwyth na'r traeth pan dreio. Y mae yn dramgwydd i grefydd, ac yn warth i ddynoliaeth; ac

nid yw yn gymwys i fyw yn y byd hwn, ond er cael ei wneud yn siampl o gyfiawnder dialeddol yn y byd a ddaw." Y mae fel y glaswellt pen tai, yr hwn a wywa cyn y tyfo; â'r hwn ni leinw pladurwr ei law, ac ni ddywed y rhai a ânt heibio, Bendith yr Arglwydd arno. Efe a ymlithra o'r byd heb i neb alaru ar ei ol. Gyrir ef ymaith yn ei ddrygioni, ac wrth weled ei gyfrgolli rhoddir bloedd gorfoledd.

Bydd *marwolaeth* y fath adyn yn anrhaethol ofnadwy. nis gall na'i arian na'i aur ei wared yn y dydd hwnw. Bydd raid iddo gefnu am byth ar bob mwynder a mawredd. O ganolddydd ei ogoniant y mae ei haul yn machludo dan gwmwl. Syrth, ac nis cyfyd mwy. Wedi hir wasanaethu y byd, gadewir ef, yn hen a blinedig, i drugaredd y dymestl a'i dadymchwel yn dragwyddol. Cynydd ei dŷ a gilia, a'i dda a lifa ymaith yn nydd ei ddigofaint. Efe a lyncodd gyfoeth, ac efe a'i chwyda, Duw a'i tŷn allan o'i fôl ef. Y mae ei serchiadau yn ymlynu wrth fwynderau y ddaear, ond nis gall eu cymeryd gydag ef. Gyda'i ochenaid angeuol y mae yn cydnabod eu gwagedd, ond y mae yn edrych arnynt yn sŷn hiraethlawn wrth eu gadael. Yr oedd wedi eu rhoddi i gadw erbyn llawer o flynyddoedd, ond gofynir ei enaid oddiwrtho, ac y mae yn gorfod teimlo iddo wneud yn "ynfyd." Cysegrodd ei holl rym i gasglu trysor ar y ddaear, ac felly nid oes ganddo yr un trysor yn y nef. Sylfaenodd ei unig obaith ar wagedd sy'n darfod, ac yn awr dechreua deimlo ing anobaith na dderfydd byth. Derbyniodd ei holl fwyniant yn ei fywyd, ac y mae yn gweled yn awr nad oes dim yn ei aros ond poenau. Nis gall y trysorau a addolodd drwy ei oes, na phwrcasu ei ryddhâd, nac oedi ei ddamnedigaeth. Wrth gofio

iddo atal ei fara oddiwrth y newynog, ac na roddodd ddwfr i'r lluddedig, y mae dychryn disymwth yn ei oddiweddyd fel llifeiriant neu gorwynt. Hoenynau a guddiwyd o'i amgylch, a dychrynfeydd marwolaeth a ymfyddinant yn ei erbyn. Trwst ofnadwy sydd yn ei glustiau, a'r gwylliaid a'i hysiant allan o'i le. Pob edrychiad yn mlaen fel "gloyw-lafn o ddûr" a drywana ei galon; a'i adgofion wrth edrych yn ol, fel tân heb ei chwythu, a ysa ei ysprydoedd. Y mae y goludoedd a gam-ddefnyddiodd yn awr fel drain yn ei ystlys, neu fel meini melin wrth ei wddf. Teganau munud awr a gafodd ei holl ofalon. Esgeulusodd yr un peth angenrheidiol. Collodd ddigrifwch y nef. Ac yn awr, y mae ei waëau i amlhâu drwy oesoedd tragwyddoldeb.

Yn y *farn* y nefoedd a ddatguddiant ei anwiredd, a'r ddaear a gyfyd yn ei erbyn. Trŷ yr arian a rydodd, a'r gwisgoedd a fwytawyd gan bryfed, i gyflym dystiolaethu yn ei erbyn yno; ac efe a wyla ac a uda am y trueni a ddaw arno. Iawn mawr nis gwared ei enaid y pryd hyn, canys ni bydd ei arian na'i aur o ddim pris yn ngolwg ei Farnydd Llwyr ofer iddo feddwl son am lïosogrwydd ei gyfoeth, oblegid ni thycia ei drysorau penaf yn nydd digofaint. Agorir y llyfrau, a darllenir holl hanes ei feddwl a'i fuchedd yn nghlyw nefoedd a daear. Cyhoeddir ei ffoledd yn ceisio cuddio arian ei Arglwydd. Cymerir y dalent oddiarno; a theflir ef, fel y gwas anfuddiol, i'r tywyllwch eithaf. A'r Brenin, fu gynt dan hoelion yn achos pechadur, a eistedd ar orseddfainc ei ogoniant, ac a ddywed wrth gollfarnu y fath ddynion,—"Bum newynog, ac ni roesoch i mi fwyd; bu arnaf syched, ac ni roesoch i mi ddiod; bum yn ddieithr, ac ni'm

dygasoch gyda chwi; yn noeth, ac ni'm dilladasoch; yn glaf ac yn ngharchar, ac nid ymwelasoch â mi." Yna töir hwynt â gwarth, ac â dirmyg tragwyddol: a phan y dechreuant yfed o'r gwin digymysg a dywalltwyd yn phïol ei lid ef, holl sanctaidd delynorion y nefoedd a ganant yn unol ac yn uchel am gyfiawnder a chywirdeb gweithredoedd eu Brenin.

Ond i'r dyben i WELLA y pla ofnadwy hwn—i FARWHAU y fath dymher bechadurus—byddai yn fuddiol i ni——

1. Ystyried nodweddiad y bydol-ddyn, gan ei gydmaru â mawrfrydigrwydd dedwyddol y dyn sy'n gorchfygu y byd, ac yn gyfoethog tuag at Dduw. Llygrawl chwant am gyfoeth a rhwysg, fel rhyw bla dinystriol yn ymledu beunydd, ddarfu lenwi'r ddaear â thrais yn nyddiau Noa, nes ymofidio o'r Arglwydd o herwydd drygioni dynion, ac i'r diluw ddyfod i'w hysgubo ymaith. Awyddfryd balch am rwysgfawredd y byd, yn tori allan mewn ymegniadau rhyfygus i wneud ei gysuron yn ddigon denawl i gadw y serchiadau ar y ddaear, a achosodd y fath gymysgiad iaith yn ngwastadedd Shinar, ag sy'n debyg i fod yn ataliol i ddedwyddwch cymdeithas hyd ddiwedd amser. Awydd am gyfoeth a dueddodd gydymaith breintiedig y Patriarch Abraham i ddewis gwastadedd dyfradwy yr Iorddonen, a breision ddoldiroedd Sodom, o flaen nawdd a chymdeithas y nef; ac felly darfu i'r golud a'i twyllodd fyned yn yspail i'w elynion didrugaredd; diflanodd ei gysuron, dirymwyd ei ddefnyddioldeb, ac andwywyd ei deulu. Caru gwobr anghyfiawnder a barodd i Balaam mab Bosor gyfeiliorni o'r ffordd uniawn i fyned ar ol tywysogion Moab, yn ddiystyr o fygythion y nef, ac o argyhoeddiadau ei gydwybod ei

hun; a'i boenus siomedigaeth yn wyneb methiant ei holl gynhygiadau i wasanaethu Duw a mammon a'i cynhyrfodd i ddysgu Balac i fwrw y fath rwystr ger bron meibion Israel, ag a barodd iddynt droseddu yn erbyn eu Duw trwy eilunaddoliaeth a godineb: a chofnodwyd gwallgofrwydd y prophwyd dawnus yma er rhybudd i'r rhai a ddeuent ar ol—canys daliwyd ef gan *angau* yn ymladd yn erbyn Duw. Darfu i gybydd-dod un dyn yn amser Josuah flino holl wersyll Israel, fel ag y toddodd calonau y bobl, ac yr aethant fel dwfr: canys pan welodd Achan yn mysg diofryd-yspail Jerico fantell Fabilonig dêg, a dau càn sicl o arian, ac un llafn aur o ddeg sicl a deugain ei bwys, efe a'u chwenychodd, ac a'u cymerodd, ac a'u cuddiodd yn mysg ei ddodrefn ei hun, ynghanol ei babell; a thynodd drwy ei drosedd ddigofaint y nefoedd ar yr holl gynulleidfa. Ond pan ddifethwyd yr ysgymun-beth, dychwelodd yr Arglwydd oddiwrth angerdd ei lid, ac agorwyd "drws gobaith" i Israel yn nyfnder "dyffryn trallod." Yr un awydd am gyfoeth a barodd i Saul a'i bobl wrthryfela yn erbyn y nef trwy ragrith a chyndynrwydd mwy ffiaidd na dewiniaeth a delw-addoliaeth, pan y rhuthrasant ar yspail yr Amaleciaid, er arbed iddynt eu hunain y goreu o'r ychain a'r brasaf o'r ŵyn, mewn cyhoedd anufudd-dod i orchymyn y Duw hollwybodol a sanctaidd, na fyn drais yn boeth-offrwm; ac sydd yn hoffi ufudd-dod yn well na brasder hyrddod. Cybydd-dod Joel ac Abiah, meibion Samuel, a wasgodd Israel i'r cyfeiliornad o wrthod eu Duw trwy ofyn iddynt frenin yn ol ffordd y cenhedloedd. Crintachrwydd Nabal ddarfu feithrin ynddo yr anfoesgarwch a derfynodd yn y fath brudd-glwyf ag a wnaeth ei galon fel careg, ac a gyflym-weithiodd ei

angau. Chwenychu gwinllan ei gymydog a wnaeth yspryd Ahab mòr athrist, fel y taflodd ei hun ar ei wely, y trôdd ei wyneb oddiwrth ei gynghorwyr, ac y gwrthododd fwyta bara; a hyn a arweiniodd yn y diwedd i'r cyflawniad o'r fath erchyllderau ag a ddygodd ei dylwyth i warth a dinystr. Ariangarwch a hudodd Gehazi i'r pechod a achosodd i wahanglwyf Naaman lynu wrtho ef ac wrth ei hâd yn dragywydd. Ariangarwch hefyd, wedi ei hir fynwesu, a barodd i Judas ragrithio mor ffiaidd pan yn sôn am ranu i'r tylodion, ac a'i temtiodd wedi hyny i fradychu ei Athraw i ddwylaw ei fwrddrwyr. Ac onid yr un chwant a ddygodd lid uniongyrchol y nef ar Ananias a Saphira,—a barodd i Demas adael Paul,—ac a ddallodd Simon y swynwr i dybied y gallai brynu dawn Duw er arian? Y mae cariad y byd, cyn yma, trwy drech-bwyso llawer o'r talentau dysgleiriaf, wedi peri i lawer gŵr ieuanc hoff fyned ymaith yn athrist oddi wrth y Ceidwad; wedi peri i lawer prophwyd gwybodus, fel Balaam, gyfeiliorni ar ol budr elw; ac i lawer crefftwr cywrain, fel Demetrius, godi terfysg yn erbyn y gwirionedd. Y mae balchder eu cyfoeth wedi darostwng llawer brenin galluog, fel Nebuchodonosor, i gyflwr yr anifail; wedi cyflymu llawer prifweinidog cyfrwysgall, heblaw Haman, i syrthio o uchder ei rwysg; ac wedi twyllo llawer Difes yn ei borphor i esgeuluso ei iechydwriaeth, nes codi ei olygon mewn poenau. Amcanwyd y coffa am eu dinystr hwy i fod yn rhybudd i'w hôloeswyr. Ond er hyny, hyd heddyw

"Ar chwareufwrdd rhosynawg bywyd, prin modfedd yn uwch na'r bedd,
Mae'r balch yn ymwibio yma a thraw am ganmoliaeth,
A'r cnawdol yn ymlid ar ol difyrwch sydd waeth;
Y bydol ochneidia am aur, a'r gwladwr am awdurdod;

A phawb am ryw goeg-deganau o'r fath!
Felly mae calonau dynion, fel ùs, neu bluf ar drô-lŷn gwyllt,
Yn cylchdroi gyda'r ewyn pothellawg, dan wenau yr haulwen,
Nes suddo o'r golwg i ddû-lynclyn anobaith."

Anrhaethol ddedwyddach na dynion fel hyn yw y dyn sy'n byw drwy ffydd, yn gyfoethog tuag at Dduw, yn gorchfygu y byd, a'i ymarweddiad yn y nefoedd! Fel Noa y mae, gyda pharchedig ofn, yn darparu trwy lafur er achub ei dŷ. Fel Abram, y mae'n cofleidio yr addewidion, yn cyfaddef mai pererin ydyw ar y ddaear, yn edrych am ddinas ag iddi sylfaeni, ac yn chwenychu gwlad well, hyny ydyw, un nefol. Fel Jacob, y mae'n codi colofn yn mhob Bethel, gan addunedu degymu i Dduw yn ol ei lwyddiant yn ei ffordd. Fel Moses, y mae'n ymwroli fel un yn gweled yr anweledig, yn dewis yn hytrach oddef adfyd gyda phobl Dduw, na chael mwyniant pechod dros amser, ac yn barnu yn fwy golud ddirmyg Crist na thrysorau y ddaear, canys edrych y mae ar daledigaeth y gobrwy. Fel Samuel, gall apelio at ei wlad a'i Dduw, pan dan ei ben gwyn, a dywedyd,—Na ddallwyd ei lygaid â gwobrau anghyfiawnder. Fel Dafydd, y mae, â'i holl gryfder, yn ei hawddfyd a'i drallod, yn paratoi at wasanaeth tŷ ei Dduw; aur i'r gwaith aur, arian i'r arian, pres i'r pres, haiarn i'r haiarn, a choed i'r gwaith coed: ac y mae hefyd yn taer anog eraill i ymroddi yn ewyllysgar i ymgysegru i'r Arglwydd. Fel Solomon ieuanc, y mae'n dewis doethineb a gwybodaeth o flaen cyfoeth a gogoniant. Fel Agur, y mae'n ofni profedigaethau cyfoeth a thlodi, ac yn erfyn am i'w linynau syrthio lle y gallo fod yn fwyaf duwiol a defnyddiol. Fel Nehemiah, y mae'n foddlon i aberthu llawer er prynu rhyddhâd ei frodyr sy'n gaeth. Fel y Samariad tosturiol, y mae'n

troi i ymgeleddu yr ymdeithydd archolledig a llesg. Fel y weddw dlawd, y mae â llygad llòn yn barod i fwrw "*o'i brinder*" i drysorfa crefydd. Fel Dorcas, y mae ei elusenau yn tynu dagrau gorfoledd a diolchgarwch o lygaid y weddw. Fel y Pen-publican cyfoethog, y mae haner ei dda at wasanaeth y tlawd. Fel y Canwriad cariadlawn, y mae am adeiladu rhyw Synagog. Fel Cornelius ddefosiynol, y mae yn gwneuthur llawer o elusenau. Fel Job amyneddgar, y mae cnû ei ddefaid yn cynhesu y noeth, ac y mae bendith yr hwn oedd ar ddarfod am dano yn gorphwys ar ei ben. Fel Philemon, ac Onesiphorus, a Gaius, ac Epaphroditus, y mae'n hoff ganddo loni ymysgaroedd y Saint, Fel Iago a Cephas ac Ioan, y mae yn ofalus ac yn ddiwyd i gofio am y tlawd. Fel Barnabas, mab diddanwch, a thir ganddo, y mae am neillduo yr elw i'w ranu rhwng y rhai fyddo mewn angen. Fel Priscila, ac Acwila, a Phebe, y mae am fod o ryw gymorth i holl eglwysi y cenhedloedd. Fel Mair Magdalen, a Joanna, gwraig Chusa, a Susanna, a dwy chwaer Lazarus, y mae am weini i Iesu a'i ddisgyblion o'r pethau sydd ganddo. Fel Paul, y mae'n foddlon i gael ei golledu yn mhob peth fel yr enillo Grist, ac yn ewyllysgar i dreulio ac ymdreulio er achub eneidiau. Fel eglwysi cyntefig Macedonia a Chorinth, y mae yn ol ei allu, ïe, ac uwchlaw ei allu, yn ymhelaethu yn nghyfoeth ei haelioni, er llawenychu cymdeithas gweinidogaeth y Saint. Fel llwythau Israel gynt, y mae am gael "digon a gweddill o ddefnydd" at holl waith a gwasanaeth pebyll yr Arglwydd. A gall ganu—Cydwybod dawel yw fy nghoron: meddwl boddlon yw fy ngorphwysfa: Mae'm gwynfyd yn fy mynwes. Cûl yw fy awydd, a

hawdd ei ddiwallu. Gallaf wênu ar y byd beth bynag fyddo ei wedd. Ni ddwg ei wên i mi ond ychydig o elw, ac ni wna ei ŵg i mi ond ychydig o golled." Hawddgar oedd cymeriad, a pheraidd yw coffadwriaeth y rhai fu'n ymdrechu yn eu tymor byr i arfer eu cyfoeth megis heb ei gamarfer. Dywedir fod y prif ynad Hale, a Lord Harrington, a Dr. Hammond, a Dr. Annesley, a lluoedd eraill, yn rheolaidd gysegru y *ddegfed ran* o'u holl elw at achosion crefyddol,—fod Mr. Baxter, a Dr. Doddridge, a Dr. Gouge, a Dr. Wright yn cysegru *mwy* na hyny—fod y meddygon enwog John Clarke, ac Edmund French, a John Bathurst yn cysegru holl ynill y dydd cyntaf o'r wythnos—fod yr Archesgob Tillotson, a'r Dr. Watts, a Mrs. Lowman yn cysegru y *bumed*—Mrs. Bury o Bristol y *bedwaredd*—Ardalyddes Warwick y *drydedd*—Mrs. Rowe, a'r anrhydeddus Robert Boyle yr *haner*—a'r Parchedigion Thomas Brand, a Thomas Gouge, a Mrs. Baxter fwy na hyny. Darllenwn am fasnachwr ieuanc yn cysegru swllt yr wythnos y flwyddyn gyntaf, haner coron yr wythnos yr ail flwyddyn, coron y drydedd, pymtheg swllt y seithfed—gini yr wythfed, &c.; gan ychwanegu ei roddion fel yr oedd rhagluniaeth yn ei lwyddo. Gwir ddedwydd yw y bobl ag y mae eu bywyd, fel yr eiddo Howard, yn "gylchdaith o haelioni a dyngarwch;" y rhai sy'n cofio y diymgeledd er ysgafnhâu eu cyfyngderau; a'r rhai ydynt yn gwresog a haelfrydig ymegnio er diwygiad y byd. Pan yn myned heibio i feddau, neu yn clywed enwau, neu yn darllen buchdraethau y fath ddynion a Dale, a Dwight, a Pascal, a Reynolds, a Thornton, a Lloyd, a Wilson, y mae deigryn tynerwch yn ymneidio o'r llygad wrth feddwl am ffrwyth eu llafurus gariad, ac y

mae y fynwes yn cynhesu wrth gofio am helaeth ragoriaethau eu haeledd. Heblaw bod eu cyrph yn aberthau byw i Grist, yr oedd eu meddiannau hefyd yn gysegredig at ei achos. Yr oedd yr eglwysi yn cael llawer o orfoledd ac o gysur yn eu cariad. Yr oeddynt fel goleuadau tanbeidiol yn dysglaer lewyrchu yn eu tymhor. Yr oedd eu bywydau yn llwythog o ffrwythau y ffydd hono ag sy'n gweithio drwy gariad tuag at Dduw a dyn: gadawsant esiampl ar eu hôl wedi ei llawn addurno â rhinweddau efengylaidd, ac erys eu cyfiawnder a'u cymwynasgarwch mewn coffa tragwyddol. Y mae dynion o'r fath yma, fel y sylwa Chrysostom, yn "ddiawydd am olud, ac eto yn oludog; yn ddiawydd am barch, ac eto yn barchus; yn ddiawydd am orphwysdra, ac eto yn cael gorphwys; yn ddiawydd am y ddaear, ac eto yn cael y ddaear a'r nefoedd." Trwy ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da, y maent yn trysori iddynt eu hunain sail dda erbyn yr amser a ddaw: y maent yn ymdrechu ymdrech deg, yn rhoddi heibio bob pwys anghyfreithlon ac afreidiol, yn rhedeg eu gyrfa trwy amynedd, yn cadw eu ffydd, ac yn dal gafael yn y bywyd tragwyddol.

2. Er marwhâu tymer ariangar byddai yn dda myfyrio ar wagedd ac anwadalwch trysorau daear, gan eu mynych gydmaru â hen olud parhâus y nef. Darlunir goludoedd y byd fel "peth nad yw;" fel "cysgod yn cilio," ac nid sylwedd a saif; fel teganau goreuredig yn ymddangos yn hardd oddidraw, ond yn gwaelu wrth eu cyffwrdd: ac felly yn siomi y disgwyliad. Tra y mae'r cybydd difwynhâd yn eistedd yn athrist ar ei *wyau aur*, y maent yn dëor o'r diwedd, ac yna yn "ehedeg ymaith:" neu ynte, fel petrisen y mynydd, y mae ef, yn haner ei ddyddiau, yn gorfod

eu gadael heb ddëor; "ac yn ei ddiwedd ynfyd fydd." Gyda chyflymder a nerth, megis eryr yn ymgodi tua'r wybr, felly yr eheda golud ymaith—o'r cyrhaedd, o'r clyw, ac o'r golwg. "Trysorau ar y ddaear" ydynt. Daear yw eu sail, a daear fydd eu terfyn: o'r llwch y daethant, ac i'r llwch y dychwelant. "Nid ynt yn digoni," canys ymëangu o hyd, fel y bedd, y mae awydd y neb sydd yn eu caru. Y mae, mewn gorthrymder yspryd, yn llefaru, *Moes, moes;* ond ni ddywed byth, *Digon.* Goludoedd anwadal ydynt, a mynych y diflanant gyda thrwst fel twrf taran y dymestl. Annoeth "ymddiried" ynddynt, na phwyso arnynt, am nad ydynt ond "sylfaen o dywod," ar ba un nis gall y cysur fod byth yn gryf, na'r gobaith yn gadarn. Blodau a wywant weithiau mewn haner diwrnod ydynt. Ffrydiau breision a fynych sychant yn ngwres cyntaf y dydd. Gall "gwyfyn a rhŵd eu llygru," oblegid y mae hadau llygredigaeth ymhethau goreu y ddaear—yn ei danteithion melusaf, ei sidanau meinaf, a'i pherlau puraf: gall "lladron gloddio drwodd a'u lladrata" a gellir eu colli mewn deng mil o ffyrdd eraill Delw ac argraff daear sydd arnynt: ni byddant gymeradwy ond hyd fin y bedd, ac felly ni's gallant fod yn gyfran i neb ond yn y bywyd hwn; a pha fodd y gall bywyd a dedwyddwch anfarwolion "sefyll ar amlder pethau" o'r fath yma! Dan ocheneidio yn eu canol, y mae eu meddiannydd annedwydd yn mynych orfod gofyn,—

"Pa le caf gartref i'm crwydredig serch?
Oes dim i'w gael sefydla'm gwamal fryd?
— Dim pur sylweddol dda a leinw'r galon lesg,
Yn lle ei bod yn blin ymwibio o hyd?
A oes ar dônau'r byd 'run *arch* a rydd
Orphwysdra bellach i fy ngh'lomen wàn?
Oes dim yn bod ddiwalla chwant y fron,

Na neb, na dim, a gwyd fy mhen i'r lân?
Chwenychais *aur;* a'r ddaear, wrth fy nghais,
Hebryngai'n ebrwydd i mi drysor llawn:
Am *bleser* hoff, 'nol hyny, codais lais,
A hithau'n fwyn a'm gwnai yn ddifyr iawn:
Yn daer, 'nol hyn, ymbiliais am ei *bri,*
Ac yna'n rhwydd ei huchel fri 'roed i'm:—
Ond cyn addfedu'n deg o'i ffrwythau hyn,
Gwywasant *oll.* Yr aur, fel tarth, yn ddim
Ddiflanai'n glau, a buan ar ei ol
Y bri a'r llonder wnaent fy ngado'n drist."

Na, na! ni fedd daear yr un "Arch o orphwysdra" i galon flin. Wrth ddyblu y trysorau, nid yw ond dyblu'r gofalon. Ni ddŵg ei pharch a'i bri ond siomedigaeth a diflasdod. Nid yw ei mwynderau goreu ond *pothellau* a dorant mewn moment dan wên wanaf yr heulwen sy'n eu hardd-liwio. Gall dyn weled a phrofi yr oll a fedd y byd, a bod yn y diwedd heb orphwysdra: a'r dyn sy'n ymgodi uwchaf o gyrhaedd ei helyntion aflonydd ydyw y mwyaf tawel a dedwydd. Er prawf o hyn gellid crybwyll yma dystiolaeth a roddwyd ar derfyn einioes, gan un ag oedd wedi hir weled gogoniant, a phrofi o fwynderau y byd.—"Rhedais," meddai Lord Chesterfield, "drwy holl gylchoedd difyrwch ac elw, ac yr wyf wedi darfod â hwynt oll. Mwynhëais bleserau dewisaf y byd, a felly gwn am eu hoferedd, ac nid wyf yn ymofidio wrth eu colli. Medraf eu prisio yn hawdd, ac yn wir, nid yw eu gwerth ond *isel iawn.* Hawdd yw i'r rhai sydd heb eu hadnabod eu prisio yn rhy uchel. Y mae eu gorddysgleiriad allanol yn dallu y golygon; ond bûm i tu draw i'r *llenni;* a phan yr adfeddyliwyf am yr hyn a welais, ac a glywais, ac a wneuthum, nis gallaf braidd gredu nad breuddwyd gwyllt rhyw ddiod gwsg ydoedd y dwndwr, a'r cynwrf, a'r difyrwch i gyd; ac ni hoffwn, ar un cyfrif, i ail ymfeddwi er

dilyn drachefn y fath freuddwyd hudawl. Ond a allaf fi ddweud fy mod yn dyoddef fy nghyflwr digysur ac athrist presenol gyda'r tawel ymostyngiad ag y mae rhai yn allu gydnabod? Na, na, oblegid nis gallaf ei ysgoi. Yr wyf yn ei oddef am fy mod yn *gorfod* ei oddef. Nis gallaf feddwl am ddim yn awr ond am y dull goreu i *ladd amser*, gan ei fod wedi troi yn elyn i mi; a'm penderfyniad yw cysgu yn y cerbyd y gweddill o'm taith." O'r fath gyfaddefiad athrist! y fath gyflwr trwm! a'r fath ymadawiad prûdd â rhwysg y byd! O mor hudawl ydyw mwynderau a goludoedd amser! Dyma ddyn o ddoniau anfarwol, ar derfyn ei daith yn penderfynu "cysgu yn ei gerbyd" i *ladd amser!* Dywedai un arall, sef Septimus Severus, pan wedi esgyn i brif gadair arglwyddiaeth y byd—"Bum yn bob peth, ond nid yw y cyfan o ddim gwerth." A dywedai un arall, ar ol y prawf tecaf, "Gwagedd o wagedd, gwagedd yw'r cwbl." Am hyny

"Gad fi, O serch, sy'n glynu wrth y llwch,
Fy enaid llesg! anadla am bethau gwell;
Myn drysor nad all rhŵd ei lygru byth;
Diflanu mae yr oll a geir dan haul."

Nid gwiw ymddiried am wynfyd na gorphwysdra mewn dim ond CYFOETH CROES CRIST. Y mae golud ei râs, a thrysorau ei ogoniant ef yn anchwiliadwy. Ni fynegir byth eu gwerth. Rhy fyr at hyn ydyw rhifyddiaeth angylion. Er fod ei oludoedd ef wedi cyfoethogi myrddiynau ag oeddynt wedi suddo i ddyfnderoedd trueni, y mae ei drysordai eto yn agored, ac i barhau felly trwy yr holl "oesoedd a ddaw:" a thlawd yn wir ydyw y bobl na chymerant ddim llafur, ac na wnant unrhyw aberth i geisio y fath "berlau têg o uchel bris." Gwell yw eu marsiandiaeth hwynt na marsiandiaeth o arian, a'u cynyrch sydd well nag aur

coeth. Ni cheir hwynt er aur o Ophir, ac nid yr Onix na'r Saphir a'u cystadla hwynt. Ni chofir y cwrel na'r gabis, ac ni chyd-brisir hwynt â'r Topaz o Ethiopia. Gwerthfawrocach ydynt na'r gemau, a'r *holl* bethau dymunol nid ydynt gyffelyb iddynt. Y maent yn *hen* "olud parhâus," yr hwn ni lygra pryf, ac ni ddifa rhŵd trwy ddyddiau tragwyddoldeb. "Pethau sydd uchod" ydynt mewn lle na ddaw lleidr yn agos iddo. "Trysor yn y nefoedd," yr hwn ni dderfydd, ac ynghadw mewn "pyrsau na heneiddiant." "Sicr drugareddau" cyfamod o luniaethiad tragwyddol ydynt. "Sylwedd" a leinw holl drysorau yr enaid, ac "elw mawr" yn dwyn boddlonrwydd ydynt; ac amlder o heddwch fydd i'r rhai oll a'u carant. Gwneir hwynt yn frenhinoedd ac yn offeiriaid i Dduw a'i Dad ef. Digonir hwynt â chysuron ei gariad, a diddenir hwynt â helaethrwydd ei ogoniant. Y maent yn gyd–etifeddion â Christ; ac y mae etifeddiaeth ddihalogedig a diddiflanedig yn nghadw iddynt yn y nefoedd; a gallant fawr lawenhau yn nghanol tristwch eu "hamryw brofedigaethau." Cedwir hwynt gan allu Duw, trwy ffydd, i iechydwriaeth. Gorchfygant y byd. Derbyniant y gareg wèn a'r enw newydd. Rhoddir coron cyfiawnder ar eu pen. Cânt fwyta o'r manna cuddiedig, a rhodio gyda Christ mewn gwyn, ac eistedd ar orseddfa ei ogoniant, ac aros yn nheml ei sancteiddrwydd, ac etifeddu pob peth.

3. Er marwhâu y dymer ariangar, byddai'n fuddiol yn mhellach i daflu golwg dros y maes ëangfaith sy'n ymagor o flaen haelfrydedd y Cristion. Y mae eto dir lawer iawn i'w feddiannu. Y mae mwy na CHWE' CHAN MIL O FILOEDD o'n "cymydogion" anfarwol, heb glywed gair am ffordd y bywyd, yn meirw yn eu

pechodau; ac yn meirw hefyd tra y mae drws mawr a grymus yn agored i ni eu cynorthwyo. Y mae Crist *yn awr* yn rhoddi ger bron ei eglwys ddrws agored i bob gwlad, yr hwn ni ddichon neb ei gau. Y mae hyd yn nod byrth *China* yn agored; ac y mae ei thri chan mil o filoedd—a myrddiynau India—a phobloedd tros fil o ynysoedd yn gruddfan dan yr iau a wasgodd *lawer* cenhedlaeth o'n hynafiaid i dywyllwch dudew yr ail farwolaeth, ac yn awr yn "estyn llaw" am gynorthwy, ac yn hiraethus "ddisgwyl" am gyfreithiau Crist. Y mae holl faes y byd yn awr yn agored o flaen preswylferch Sion, ac er bod y rhan fwyaf o hono eto yn anialdir anghyfanedd, ni ddylai ei phlant ddim bod yn "esmwyth" nac yn "ofnus o galon." Dylai dwylaw gweiniaid ei gweithwyr gael eu cryfâu fel y palmanter prif-ffordd, ac y parer i ddyfroedd y bywyd dori allan yn ffrydiau iachusol, fel gan flodeuo y blodeua y diffeithwch o'u plegid, ac y llawenycha hefyd â llawenydd ac a chân. Yn lle diog gysglyd gwynfan—"na ddaeth yr amser eto," boed i'r eglwys ymysgwyd o'r llwch, ac ystyried ei ffyrdd, a chrediniol ufuddhau i orchymynion ei Duw. Na chaffed ei Dʏ Eꜰ fod mwy yn anghyfanedd, ond boed i'w sylfaen gael ei gosod yn ogyfled â'r byd, a boed i'w oruwch-adeiladaeth gael ei ddwyn yn mlaen, fel yr ymhyfrydo Eꜰᴇ yn ei wasanaeth, ac y gweler ei waith tuag at ei weision, a'i ogoniant tuag at eu plant hwy; ac y trefner, mewn prydferthwch, holl weithredoedd eu dwylaw. Na ddywedwn, "Y mae eto bedwar mis, ac *yna* y daw y cynhauaf; ond dyrchafwn ein llygaid, ac edrychwn o'n hamgylch, canys wele, y meusydd, gwynion ydynt eisioes i'r cynhauaf: a'r cynhauaf yn ddiau sydd fawr, ond y gweithwyr yn anaml, a hyny

o ddiffyg ffydd a pharodrwydd ynom ni i erfyn am i ychwaneg gael eu hanfon. Gan fod ein cynhauaf *ni* yn myned heibio, ein bwyd a'n diod ddylai fod llafurio i wneuthur ewyllys Iachawdwr y byd, fel y gallo yr hwn sydd yn hau yn helaeth gartref, a'r hwn sydd yn medi trwy lafur yn mysg y Paganiaid, gasglu ffrwyth lawer i fywyd tragwyddol, a llawenychu yn nghyd yn y mwynhâd o'r gyflog. Gan fod cenhadon heddwch wedi cael eu hawdurdodi i fyned "i'r holl fyd" i gynyg bywyd a rhyddid i'w fyrddiynau digyfrif, a chan fod rhwyddineb iddynt yn awr i rodio trwy y tir "ar ei hyd, ac ar ei led," na ddyweder mwy fod yr amser i "ryddhau plant angau" *heb ddyfod*, oblegid gwrandawyd eu "huchenaid," talwyd pridwerth eu rhyddâd, aeth y gorchymyn allan o orseddfainc trugaredd, ac yn awr ydyw dydd eu hiechydwriaeth. Yr amser i drugarhau wrth Sïon, ïe, yr amser *nodedig* a ddaeth; oblegid y mae gweision yr Iôr yn hoffi ei meini, ac yn tosturio wrth ei llwch hi. Dieithriaid a adeiladant ei muriau: dygir iddi olud y cenhedloedd: brenhinoedd a brenhinesau a'i gwasanaethant. Gelwir ei magwyrydd yn iechydwriaeth, a'i phyrth yn foliant: a gwneir hi yn ardderchawgrwydd tragwyddol, ac yn llawenydd i'r holl genhedlaethau. Y mae dysgleirdeb ei chyfodiad yn dechreu tywynu; oblegid, fel y sylwa Dr. Bennett, "Y mae gwybodaeth, ar adenydd y wawr, yn myned i ymweled â phob goror o'r byd, er ei ddihuno o'i hirfaith gysgadrwydd. Y mae y gwybodaethau a'r celfyddydau yn palmantu ffyrdd i gerbydau haelioni yru i gonglau pellaf y ddaear. Yr ydys yn dechrau teimlo mai y rhan *benaf* o grefydd ydyw ymegnio er ei lledaeniad; ac nad all dyn ddim bod yn Gristion ond i'r graddau y byddo yn llafurio i achub eraill: ac y

mae y buddugoliaethau a ynillodd crefydd y Bibl yn barod, ar rai o lygredigaethau gwaethaf coelgrefydd a thwyll, yn brawf digon eglur nad oes dim a saif o flaen cydymdrech teg a ffyddiog i efengyleiddio y byd." A phe byddai i bobl Saint y Goruchaf ymddeffroi o'u difrawder, ac ymryddhâu o gadwynau eu hangrhediniaeth, gan gydymanog i gariad a gweithredoedd da, rhoddid y frenhiniaeth iddynt hyd byth,—ïe, rhoddid "mawredd y frenhiniaeth dan yr holl nefoedd" iddynt hyd byth, a hyd byth bythoedd.

4. Er marwhâu y dymer ariangar, byddai'n llesol i'r myfyrdod aros ar y boddhâd a'r tawelwch y mae'r enaid yn fwynhau pan yn ymroddgar ac egniol i wneuthur da. Wrth gynorthwyo y gweiniaid, dylid cofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef, "Mai dedwydd yw rhoi yn hytrach na derbyn." Y rhai hael a felus fwynhânt o ffrwyth eu gweithredoedd eu hunain. Y maent yn hau yn helaeth ar faes elusen, ond wrth roddi hâd i'r hauwr, a'u bara yn ymborth i'r tlawd, y maent yn amlhâu eu hâd, ac yn lliosogi eu cyfoeth. Tra y maent yn gwasgaru, y mae ffrwyth eu cyfiawnder a'u cariad yn ychwanegu ac yn addfedu; ac y mae eu corn yn cael ei dderchafu mewn gogoniant. Y mae distaw ymbiliau y weddw yn tynu bendithion o hyfryd fryniau tragwyddoldeb ar eu pen, tra y mae y plentyn amddifad yn gwenu, drwy ei ddagrau, ar bob arwydd o'u tosturi. Daw iddynt dawelwch meddwl o gymeradwyaeth eu cydwybodau, ac enw da o gymeradwyaeth eu cyd-ddynion, a digonoldeb llawenydd o gymeradwyaeth eu Duw: a phan feddylir mor awyddus ydyw y galon am lawenydd a bri, y mae yn achos o syndod a galar fod y nifer amlaf o gyfoethogion y byd mor hollol ddiystyr a dibris o'r gallu sydd ganddynt

i gyrhaedd y dedwyddwch dymunolaf trwy wasanaethu eu cenhedlaeth, ac enill diolchgarwch a bendith cynulleidfa yr anghenus. Gall y ddwy hatling yn fynych orlenwi mynwesau y cyfranwr a'r derbyniwr o'r gorfoledd melusaf. Pwy, wrth edrych ar weddw oedranus yn crymu gan wendid, ac yn welw ei gwedd gan drist ofalon, yn arwain âg un law wyres fechan heb fam na thad at ymyl bedd newydd, ac â'i llaw arall yn codi ei harffedog fras i sychu y dagrau oedd yn ei hatal i weled bedd-argraff y foneddiges dirion oedd yn rhoddi iddi chwecheiniog yr wythnos?—Pwy wrth syllu ar olygfa fel hyn, allai gadw y chwecheiniog a barai gymaint o orfoledd? Yr ydym yn darllen mewn hen hanes am frenin da, yr hwn, pan feïid ef gan ei gyfeillion am wasgaru yn mysg y tylodion ran o'r goludoedd a bentyrasid o oes i oes gan ei hynafiaid—a ddywedai,—"Trysorodd fy nhadau eu trysorau mewn màn y gall lladron gloddio atynt, ond trysorais i fy nhrysorau mewn lle nad all llaw trais byth eu cyrhaedd. Tyrodd fy nhadau eu golud mewn lle na ddygant ddim ffrwyth, ond gwasgerais i hwynt fel y dygont ffrwyth. Ynillodd fy nhadau Fammon, ynillais inau eneidiau. Casglodd fy nhadau i eraill, cesglais i im fy hun. Yr oedd trysor fy nhadau ar y ddaear, y mae fy nhrysor i yn y nef. Trysorodd fy nhadau iddynt sail dda erbyn y byd hwn, ond trysorais i am sail dda erbyn y byd a ddaw." Haelfrydedd ydyw hanfod dedwyddwch; a dylai'r neb sydd am ei fwynâu fod yn *brydlawn*—yn *helaeth*—yn *ddiflino*—ac yn *llawen* yn ngweinyddiadau eu cymwynasgarwch. Y mae haelioni *cynarol* o fawr bwys; canys fel y sylwa yr Esgob Hall, "Y mae ynddo lawer o lawenydd heb ddim perygl, am y bydd bendithion y gweiniaid cyn-

northwyedig, a diolchiadau y Saint tylodion yn gysurwyr beunyddiol a allant wneyd ein dyddiau drwg yn rhai da, a'n dyddiau da yn rhai gwell: ond os *oedir* cyflawniad bwriadau haelfrydedd, byddant yn debyg o droi yn boenydwyr ar wely marwolaeth. Dedwydd yw'r dyn sy'n rhoi echwyn *yn fore* i'w wneuthur, canys rhaid i drysordai y nefoedd a'r ddaear dori cyn y caiff hwnw fod heb ad-daliad." Nac oedwch," medd Lord Bacon, "eich elusenau hyd angau; canys os pwysir pethau yn iawn, y mae yr hwn sydd yn hael y pryd hyny, yn hael o eiddo eraill yn hytrach nag o'i eiddo ei hun." Anogir ni hefyd i *ymhelaethu* yn ngweinidogaeth y swydd hon, ac i ymgyfoethogi mewn gweithredoedd da; canys y mae'n ysgrifenedig, "Yr hwn a hauo yn brin, a fêd hefyd yn brin; a'r hwn sy'n hau yn helaeth, a fêd hefyd yn helaeth." Yr oedd y diweddar enwog Thomas Scott yn golygu y dylem wasgaru cymaint ag ydym yn drysori, hyny yw, os gellid enill mil yn y flwyddyn, fod pum cant yn ddigon i'w rhoi heibio er darpariaeth i'r teulu, ac y dylai y pum cant eraill gael eu bwrw i drysorfa haelfrydedd. Ni chafwyd neb mewn tristwch yn ei ddiwedd am ei fod wedi gwneyd gormod dros achos y Gwaredwr: ond byddai'n well gan y rhan fwyaf yn yr awr gyfyng hono i ad-feddwl, fel Duc mawr Luxemburg, am estyniad cwpanaid o ddwfr oer i'r diymgeledd yn ei angen, nac am enilliad mil o fuddugoliaethau. A dymunodd un dyn da am gerfio ar ei fedd,—"*Yr unig gyfran a erys i mi yn awr o'r meddiannau fu genyf, yw yr hyn a wasgerais mewn elusen.*" Dylem hefyd *barhau*, heb ddiogi, i wneuthur daioni, tra y caffom amser cyfaddas; canys yn ei iawn bryd y medwn, oni ddiffygiwn. Dylai hefyd fod yn *hawdd*

genym gyfranu; canys yr hael a ddychymyga haelioni, ac a rag-ddarpar, gyda pharodrwydd meddwl, at y fath wasanaeth: ïe, efe a *ymbil* am genad a chyfle i gynorthwyo cymdeithas gweinidogaeth y Saint. Rhoddwr *llawen* y mae Duw yn ei garu; ac y mae ei rodd yn aberth o "arogl peraidd," cymeradwy a boddlon gan Dduw. A phe byddai i ddeddf cymwynasgarwch i aros fel hyn yn nghalonau, ac ar dafodau plant dynion, byddai pob dydd yn Sabbath, a phob tŷ yn nefoedd. Cylymid pob cenedl yn *un* yn rhwymyn perffeithrwydd. Rhyddheid y creadur o gaethiwed llygredigaeth. Ymledai buddugoliaethau efengyl y tangnefedd. A phreswyliai Duw gyda dyn ar y ddaear.

5. Er gwanhâu y dymher ariangar, a meithrin elusengarwch yn ei lle, gallai fod yn fuddiol i gofio weithian am y wobr fawr sy'n addewedig i'r ffyddloniaid hael-galon. Y mae iddynt addewid am fendithion *tymhorol*. "Anrhydedda yr Arglwydd â'th gyfoeth, ac â'r peth penaf o'th holl ffrwyth; felly y llenwir dy ysguboriau â digonoldeb, a'th winwryfoedd a dorant gan win newydd. Noda Henry, wrth sylwi ar y geiriau yma, Fod y rhai sy'n gwneud eu meddiannau bydol yn wasanaethol i grefydd, yn sicr o brofi crefydd yn wasanaethol i lwyddiant eu meddiannau bydol. Y mae "a wasgar ei dda," mewn gweithredoedd o elusen a duwiolder, ac eto "ychwanegir iddo" olud, cysur, a bri; y mae hefyd "a arbed fwy nag a weddai," oddi wrth yr anghenog ac achos Crist, ond efe a "syrth i dlodi," trwy ei fod yn colli gwên a nawdd y nef, ac yn sychu ei serchiadau gorau am fywiocau y meddwl. Yr "enaid hael" ag y mae ei wefusau yn dyferu caredigrwydd, a'i ddwylaw yn gwasgaru bendithion, "a frasheir" â phob gras a diddanwch; a'r neb a

"ddyfrhäo" eraill â ffrydiau ei haeledd, "a ddyfrheir yntau hefyd:" canys gwlith bendith a erys beunydd ar fryn ei breswylfod. Y neb a "gasäo gybydd-dra," ac a ddedwydd ymryddhäo oddiwrth ei flin ofalon a'i siomedigaethau, a "estyn ei ddyddiau" o ddefnyddioldeb a llawenydd, a'i enw a erys mewn bythol goffadwriaeth. Pan yn anog Job i roddi o'i ddwfr i'r lluddiedig, ac o'i fara i'r newynog, dywed Eliphaz "Rhoddi aur i gadw fel pridd, ac aur ophir fel cerig yr afonydd. A'r Hollalluog fydd yn amddiffyn i ti, a thi a gei amldra o arian." Pan oedd Israel yn amser Haggai yn balch breswylio yn eu "tai byrddiedig eu hunain," ac yn gadael tŷ eu Duw yn anghyfanedd, deuent at dŵr o ugain llestraid, a *deg* fyddai yno: ac at y gwingafn i dynu deg llestraid a deugain, ac *ugain* a fyddai yno: ond o'r pedwerydd dydd a'r hugain o'r nawfed mis, sef o'r dydd y sylfaenwyd Teml yr Arglwydd, rhoddodd y maes iddynt ei gynyrch: y winwydden hefyd, a'r ffigysbren, a'r pren olewydd, a'r pomgranad ni phallasant eu ffrwyth; ac ysgydwodd eu Duw y nefoedd a'r ddaear er eu bendithio a'u hamddiffyn. Ac ar ol hyny, er eu calonogi i gynal a dwyn yn mlaen wasanaeth y Deml, ymostyngodd i ddywedyd, "Dygwch yr holl ddegwm i'r trysordy, fel y byddo bwyd yn fy nhŷ; a phrofwch fi yr awr hon yn hyn, onid agoraf i chwi ffenestri y nefoedd, a thywallt i chwi fendithion na bo digon o le i'w derbyn?"—Yr "hael ei lygad," sef yr hwn sydd a'i lygaid yn agored ar wrthrychau o elusen, yn dosturiol yn yr olwg ar gyni, ac yn llòn wrth estyn cynorthwy, "a fendithir;" a'r hwn a wasgara i'r tlawd, gan roddi cyfran i saith, ac hefyd i wyth, "a sicrheir;" ei gorn hefyd, er holl falais cenfigen, a dderchefir i anrhyd-

edd; a'i gyfiawnder, wedi ei ysgrifenu yn y nef, a bery yn dragywydd. "Yr holl bethau hyn," sef pob bendith dymhorol angenrheidiol, "a roddir yn ychwaneg i'r rhai a geisiant *yn gyntaf* deyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef." Gŵyr eu Tad nefol am eu holl ddiffygion, ac y mae ei ofal am aderyn y tô, ac am lili y maes, yn wystl sicr na bydd iddo ddim anghofio ei *blant* sy'n ofni ei enw, yn gwneuthur ei ewyllys, ac yn ymddiried yn ei drugaredd.

Y mae yn nghadw iddynt hefyd fendithion ysprydol. Tra yn ymdrechu i arfer y byd megis heb ei gamarfer, y maent yn chwenychu gwlad well; o achos paham nid cywilydd gan Dduw ei alw yn Dduw iddynt hwy: oblegid efe a barotodd ddinas iddynt. Y maent hwy yn "ystyried wrth y tlawd," a'r Arglwydd a'u gwared yn amser adfyd, a'u bywhâ pan yn llesg, a'u diddana pan ar eu claf wely, ac a gyweiria eu holl wely yn eu clefyd. Efe a gofia eu cymwynasau yn yr amser a ddaw, a bydd yn ateg ac yn noddfa iddynt yn nydd blinder. Trwy barhau yn gwneuthur da, ceisiant ogoniant, ac anrhydedd, ac anllygredigaeth; a thelir iddynt yn ol eu gweithredoedd. Gan roddi cwbl ddiwydrwydd y maent yn ychwanegu at eu ffydd rinwedd; ac at rinwedd, wybodaeth; ac at wybodaeth, gymedrolder; ac at gymedrolder, amynedd; ac at amynedd, dduwioldeb; ac at dduwioldeb, *garedigrwydd brawdol*; ac at garedigrwydd brawdol, GARIAD: nid ydynt na segur na diffrwyth yn ngwybodaeth Crist; ac felly *yn helaeth* y trefnir iddynt fynediad i mewn i dragwyddol deyrnas eu Hachubwr. Canys efe a edwyn wasanaeth eu cariad a'u ffydd, ac a gyffesa eu henwau ger bron ei Dad a'r angylion. Adwaenant hwy ras eu Harglwydd; yr hwn, er nas

gwelsant, y maent yn ei garu: ac yn yr hwn, heb fod yr awrhon yn ei weled, ond yn credu, y maent yn mawr lawenhau â llawenydd anrhaethadwy: ac nid oes *dim* yn ormod ganddynt i'w adael a'i aberthu er ei fwyn ef a'i efengyl, ac felly cânt dderbyn y càn cymaint y pryd hwn, ac etifeddu bywyd tragwyddol.

6. Er lladd ein hariangarwch, byddai'n dda i ni ystyried gwerth ein heneidiau—ein cyfrifoldeb fel goruchwylwyr Duw—breuolder ein hoes—a'n proffes fel rhai yn cydsynio â gwirionedd y Bibl. Y mae enaid dyn o werth anrhaethadwy. Trwy fod ei ddeilliad yn uniongyrchol oddiwrth Dad yr ysprydoedd, y mae ei gyfansoddiad yn ysprydol. Nid unrhyw ddefnydd *gweledig* wedi ei or-gywreinio ydyw, ond y mae yn sylwedd *ysprydol* nad all angerdd tân nac "ymwasgiad bydoedd" byth ei ddifodi. Gall syllu ar berffeithderau y Jehofa yn rhyfeddodau ei ragluniaeth. Gall ddysgu hanes y brynedigaeth sydd yn Nghrist Iesu. Gall farnu ei weithredoedd ei hun gan wahaniaethu rhwng da a drwg. A gall rag-fyfyrio ar fythol ogoniant y byd a ddaw. Er ei fod wedi ei gysylltu, trwy ryw gwlwm dirgeledig, â chorph marwol, nis gall farw; ond dychwel, yn awr y datodiad, at Dduw yr hwn a'i rhoes; naill ai i'w fwynhau gyda'r dedwyddolion yn ngoleuni y nef, neu i suddo gyda'r euog dan ddychrynfeydd ei ddigofaint. Amcanwyd y gwahanol oruchwyliaethau o foddion moesol a sefydlwyd yn y byd i gydweithio er ei les. Rhoddodd Crist, megis Oen difrycheulyd, waed gwerthfawr ei einioes er ei brynu rhag marwolaeth; a rhan o hyfrydaf waith myrddiynau o angylion ydyw craffu ar ei hanes, arwylio ei ysgogiadau, cynorthwyo ei ymsancteiddiad, ac ychwanegu ei ddedwyddwch: a "pha leshâd i ddyn

os enill efe yr holl fyd, a cholli ei enaid ei hun; neu pa beth a rydd dyn yn gyfnewid am ei enaid?" Ni byddai golud mil o fydoedd yn gydwerth ag ef, ac eto y mae myrddiynau yn wyllt awyddus i'w werthu am y pethau mwyaf llygredig, megis arian neu aur, ac am ffol ddifyrwch munud awr. Gan ei fod wedi ei eni o'r nef, y mae o ddeilliad rhy uchel i fyw ar lwch melyn y ddaear. Nis gall fywiolaethu ar y fath sorod. Tragwyddoldeb yw ei etifeddiaeth, am bethau bythol y mae yn anadlu, ac y mae argraff anfarwoldeb ar ei holl ymddygiadau. Gan iddo gael ei greu i fod yn gyd-stâd â'r angylion mewn gogoniant, y mae yn anrhaethol îslaw ei urddas i geisio boddhâd a gorphwysdra mewn pethau darfodedig; ac nid oes dim a *all* ddiwallu ei ëang anfarwol ddymuniadau ond y cyflawnder sydd yn Nghrist. Dedwydd yw y dyn a all ddweud gyda Watts,—"Nid yw o gymaint pwys i mi wybod pa beth a ddigwydd y foru. Digon yw i mi os gallaf feddiannu fy hun heddyw. Yna os daw angau ar haner nos i atal fy anadl, byddwn ar ol hyny. yn etifedd i'r rhan benaf o honof fy hun. Gall y meini disgleiriaf, a'r teganau aur ddianc oddiarnaf. Gall bri a mawredd byd ehedeg ymaith. Hawdd ydyw colli yr oll a all y byd anwadal ei roddi, gan ei fod yn barotach i gymeryd nag ydyw i gyfranu. Ond y mae genyf drysorau gwell uwchlaw ei gyrhaedd. Pa ham, gan hyny, y rhaid i'm henaid drud wib-forio beunydd dros dònau enbyd mwynderau cnawdol i bigo tywod a chregin oddiar draethau amser!—yn lle byw ar y goludoedd pur a gaed trwy ras yr Iesu!" Er anog Cristionogion i haelioni, y mae yr apostol Pedr yn dwyn ar gôf iddynt eu cyfrifoldeb i Dduw, yn nghyd ag agos ddynesiad diwedd pob peth. Y mae yn

erchi iddynt geisio o flaen pob peth "gariad helaeth a gwresog," fel y gallont gyfranu, heb rwgnach, megis y derbyniodd pob un, fel daionus oruchwylwyr amryw ras Duw. A dylai pob dyn gadw mewn côf ei gyfrifoldeb i'w Wneuthurwr fel *"goruchwiliwr."* "Arian ei Arglwydd" ydyw y talentau a ymddiriedwyd i'w ofal, a disgwylir iddo farchnata â hwynt, fel gwas doeth a ffyddlawn, nes i'w Arglwydd ddyfod i gyfrif âg ef. Er mai nid gŵr caled ydyw ei Arglwydd, yn medi lle nis hauodd, eto y mae yn disgwyl casglu yn ol fel y mae wedi gwasgaru: ac nid ellir ei dwyllo. Ysgrifenir llyfr coffadwriaeth ger ei fron ef, ac efe a ddaw i gyfrif â'r gwas anfuddiol ar awr na thybio, ac a esyd ei ran gyda rhagrithwyr yn y tywyllwch eithaf: ond caiff y gwas da, a fu yn ffyddlon ar ychydig, fwynhau *helaethrwydd*, caiff ei osod ar *luwer*, a myned i mewn i lawenydd ei Arglwydd. Na thwyller ni, gan hyny, ni watworir Duw; os ymadawn â'r neb sydd barod i'w lladd—os na cheisiwn wared y rhai a lusgir i angau, gan ddywedyd, "Wele, ni wyddom ni hyn: onid yw pwyswr y calonau yn deall? a'r hwn sydd yn cadw dy enaid, oni ŵyr efe? ac oni thâl efe i bob un yn ol ei weithred?" Y mae dydd y tâl yn *sicr* o ddyfod, ac nis gwyddom pa mor *fuan* y bydd raid i ni roddi cyfrif o'n goruchwyliaeth; canys diau mai cwbl wagedd yw pob dyn pan fo ar y goreu: nid yw mesur ein dyddiau ond megis dyrnfedd, na'n heinioes ond megis diddym; a chan fod yr amser mor *fyr* "y mae yn ol fod o'r rhai a wylant, megis heb wylo; a'r rhai a lawenhânt, megis heb lawenhâu; a'r rhai a brynant, megis heb feddu; a'r rhai a arferant y byd hwn, megis heb ei gam-arfer—canys y mae dull y byd hwn yn myned heibio." Crybwyllir gan yr hen

awduron Rabbinaidd am Melchisedec,—pan anogwyd ef i adeiladu iddo dŷ, gan fod addewid ganddo am *bum' can' mlynedd* i fyw—iddo ateb, Nad oedd codi tŷ, *er hyny o amser*, ddim yn werth y llafur. Ond y mae myrdd yn awr yn gwyllt afradloni eu "deng mlynedd a thrugain" fel pe byddent i etifeddu y ddaear byth. Eu meddwl yw y pery eu tai yn dragywydd, a'u trigfeydd hyd genhedlaeth a chenhedlaeth. Enwant eu tiroedd ar eu henwau eu hunain; eto *meirw* y maent, gan adael eu golud i eraill. Fel defaid y gosodir hwynt yn y bedd. Angau a ymbortha ar eu tegwch, A'r cyfiawn a lywodraetha arnynt y bore. Nyni, gan hyny, a ni yn gwybod y pethau hyn o'r blaen, a ni yn cydnabod ein crêd am wirionedd y Bibl, am anfarwoldeb yr enaid, ac am farn i ddyfod, a ni yn cyffesu ein bod yn nyled gras, ein bod mewn sefyllfa prawf, a'n bod i ymddangos ger bron brawdle Crist—y mae ein cymeriad a'n cyffes yn uchel alw arnom i ymogelyd rhag cybydd-dod; i farweiddio tymer mòr anefengylaidd; i roddi ein serch ar bethau sydd uchod; i anrhydeddu yr Arglwydd â'n cyfoeth; ac i chwilio am sail dda erbyn yr amser a ddaw, yr hyn yw ein rhesymol wasanaeth ni.

7. Er marwhâu y dymer ariangar, byddai'n dda i ni feddwl weithiau am ychydig o'r gwastraff dirfawr sy'n cael ei achosi beunydd wrth geisio boddhâu chwantau y cnawd, a balchder bywyd; ac mòr dra phechadurus ydyw y difrod hyny yn ei olwg Ef, yr hwn a'n hanogodd i arfer pob gofal, hyd yn nod am y briwfwyd gweddill, "fel na choller dim." Gŵyr ef *pa fodd*, a *chan bwy* yr afradlonir ei dda, ac y mae y dydd yn yr hwn y chwilir y cyfrifon, ac y darllenir y cyhuddiad wedi ei benodi. Y mae *difrod* mor

niweidiol i'w achos ef ag ydyw *cybydd-dod*; ac y mae gwir *gynhildeb* mor groes i'r naill ag ydyw i'r llall. Nid pellach ydyw y dwyrain oddiwrth y gorllewin nag ydyw cybydd-dod hunanol oddiwrth gynhildeb efengylaidd. Y mae cybydd-dod y cybydd yn dilyn ei nwydau ei hun, ond y mae cynhildeb y Cristion yn plygu i ewyllys Iesu. Y mae cybydd-dod yn crafangu iddo *ei hun* yn unig, tra y mae cynhildeb yn casglu yn benaf i *eraill*. Y mae cynhildeb yn addoli y Rhoddwr o bob daioni, yn troi y cynhilion yn offrymau, ac yn gwneuthur y cyfan megis i'r Arglwydd; ond y mae cybydd-dod yn ddelw-addoliaeth. Gwastraffu eiddo er porthi blŷs neu falchder yn unig ydyw afradlonedd; ac y mae afradlonedd ac ariangarwch yn lled aml yn cyd-ymdaith. Buont unwaith, yn ol dammeg Addison, mewn rhyfel; ond ar ol llawer o groesymdrechu, cytunasant i ymheddychu ar yr amod i afradlonedd droi digonoldeb, ei brif weinidog, allan o'i wasanaeth, ac i gybydd-dod droi angen o'i wasanaeth yntau; ac iddynt weini i'w gilydd bob yn ail: ac byth er hyny y mae'r cytundeb wedi ei gadw gyda'r gofal manylaf; oblegid y mae yr afradlon yn cybyddlyd ymawyddu i grafangu yr oll a fedro fel y gallo borthi ei nwydau difrodgar; ac y mae'r cybydd yn afradlon daflu yr oll a grafanga i'r un pentwr. Mae'r afradlon yn chwenychu fel y gallo *wasgaru*, a'r cybydd yn chwenychu fel y gallo *bentyru*: ac y mae'r *ddau* yn elynion croes Crist. Y mae arferion rhwysgfawr a difrodus, fel y sylwa Mr. James o Birmingham, nid yn unig yn ataliol i'n lles ysprydol ein hunain, ond yn anghyfiawnder âg eraill. Byddai degwm yr hyn a wastreffir yn afradlon yn ddigon i gynal ein holl gymdeithasau crefyddol pe byddent y deg lliosocach ac ëangach nag ydynt. Y

mae pob difrod mewn *bwyd, dillad, segurdod,* neu *rwysg-addurniadau*, yn *lladrad o drysorfa elusen.* Y mae'r difrod a achoswyd trwy *ddiodydd meddwol—trwy ymgyfreithio—a thrwy ryfel* (heb son dim am ddrygau eraill) yn annychymygadwy. Yr ydys wedi profi fod mwy o arian yn cael eu gwario, bob blwyddyn, am *ddiodydd meddwol,* nag a fyddai reidiol i roddi Bibl a gweinidogaeth efengylaidd i holl breswylwyr y byd! Pa sawl canwaith hefyd y darfu i ddadleuon dibwys—ag y buasai y gronyn lleiaf o yspryd yr efengyl yn eu terfynu ar y cyntaf—gael eu henyn a'u chwyddo nes agor y drws i'r fath *ymgyfreithio* ag a andwyodd gysuron a bywioliaeth yr holl deuluoedd a hûd-ddenwyd i gylch eu heffeithiolaeth! Dywedir fod yr *wythfed* ran o draul rhyfel Brydain am y flwyddyn 1815, yn ddigon i roddi addysg rheolaidd, yn ol cynllun Lancaster, i genhedlaeth gyflawn o blant y byd. Costiodd y rhyfel diweddar—a ddechreuwyd yn 1793, ac a derfynwyd yn 1815—heb son dim am na'r gwaed na'r *eneidiau* a gollwyd,

| | |
|---|---|
| I Brydain Fawr | 750,000,000 |
| I Ffrainc | 690,000,000 |
| I Austria | 220,000,000 |
| I wledydd eraill Ewrop | 1,012,000,000 |
| Y cyfan yn | 2,672,000,000 |

*sef mil o filoedd dros chwe chant ar hugain o weithiau,* yr hyn, pe cawsai ei ddefnyddio yn synhwyrgall er harddu a diwygio y byd, a fuasai yn ddigon i'w lenwi â Llyfrgelloedd, Ysgoldai, a Themlau, a fuasai yn ei wneyd yn "ddaear newydd," yn yr hon y buasai digonoldeb a thangnefedd, cyfiawnder a chariad, a gwybodaeth ac ofn yr Arglwydd yn cartrefu byth. Galarus ydyw meddwl fod achos eto gan ganlynwyr yr

Hwn ag efe yn gyfoethog, a aeth er ein mwyn ni yn dlawd, i ddysgu haeledd oddiwrth ganlynwyr Juggernaut! Dywedir fod traul un Eilun-wyl yn India yn *bum can mil* o bunau,—yr hyn sydd fwy na chynyrch blynyddol *holl* sefydliadau Cenhadol Brydain Fawr! Pa Gristion goludog all lai na gwrido wrth ddarllen am Bagan yn rhoddi *deng mil* yn y flwyddyn at wasanaeth *Doorga Poojah!* Medrodd haeledd Prydain estyn ar unwaith dros *bedwar can mil* o bunau er cysur a chynorthwy y teuluoedd gweiniaid a gollasant dad neu frawd ar faes Waterloo,—ac O! mor lleied y mae'n wneud i wella archolledigion pechod. Medrodd elusengarwch Prydain cyn hyn, fwy nag unwaith, roddi y bwyd a dderfydd i genedl ar newynu,—ac O! na fedrid cyfeirio ei sylw a'i llaw yn fwy effeithiol at angen *moesol* BYD afradlon yn marw o newyn! Pe cysegrid dim ond y degfed ran o draul afreidiol proffeswyr crefydd i drysorfa yr Arglwydd, gellid lliosogi ein sefydliadau Cenhadol yn fil mwy nag ydynt. Ffrwyth cynhildeb y tlawd ydyw bron yr oll a offrymir yn awr at wasanaeth yr Arglwydd; a phe ceid ffrwyth cynhildeb teg oddiwrth gyfoethogion ein gwlad, buan y cronai hoff-ffrydiau haelioni dros bob glàn a phob terfyn, nes gorlifo y ddaear.

8. Er codi ein serch oddiar bethau y ddaear, dylem graffu ar ymddygiad Crist, ac ar egwyddorion ei efengyl. EFE a'n cofiodd ni yn ein hisel radd, a daeth i geisio ac i gadw yr hyn a gollasid. Daeth fel y caem fywyd, a *mwy* na bywyd. Ië, cymaint oedd ei ras, fel ag y darfu iddo, ag efe yn gyfoethog, fyned er ein mwyn ni yn dlawd, fel y cyfoethogid ni drwy ei dlodi ef.

"Mewn llynclyn o anobaith du
Yr oeddym ni, drueiniaid,

Heb lewyrch, yn ein cyflwr gwael,
O obaith cael ymwared.

Ond Iesu gwych, Tywysog gras,
O'i nefol balas, canfu
Ein cyflwr diymgeledd ni,
A rhedodd i'n gwaredu."

Do—brysiodd i'n gwaredu. Daeth mewn pryd. Disgynodd o uchel lŷs gogoniant. Daeth i lawr i barthau isaf y ddaear. Aeth i'r lladdfa yn ein lle. Collodd drosom ni ei werthfawrocaf waed. Dyoddefodd y groes gan ddiystyru y gwaradwydd. Ysbeiliodd holl allu y tywyllwch. Llyncodd y gelyn mewn buddugoliaeth. Torodd ryın ein rhwymau. Rhoddodd ei einioes yn bridwerth fel y prynid ein henaid rhag suddo i fythol boen.

"Tan bwys ein gwae y plygodd ef,
I'n codi ni i orsedd nef;
Ac nid oes rodd a ddyry Crist,
Na chostiodd iddo ruddfan trist.

Hyn oedd tosturio megis Duw,
Sef, pan adnabu'n Prynwr byw
Mai *gwaed* oedd pris ein pardwn ni;
Ei *waed* o'i galon rodd yn lli.

Er ei fod fry'n teyrnasu'n awr,
Ei gariad sy o hyd mor fawr:
Mae'n cofio'n dda Galfaria fryn,—
Na anghofied Saint ef byth am hyn.

Ei ymysgaroedd heddyw ynt
Mor fwyn a phan fu'n marw gynt;
A chaled yw yr adyn trist
Na chyffru hyn ei serch at Grist.

Cyd-dodded ein calonau dur,
Wrth gofio am ei gyfyng gur:
Pob melus chwant o'n mynwes ffoed,
A'r byd yn llai i'n cyfrif boed.

Daeth llif o gariad gyda'i waed,
O'i ben a'i fron, ei ddwylo a'i draed:
Ple bu'r fath serch a phoen ynghyd?
P'ryd gwnaed *o ddrain* fatb goron ddrud?

Ei waed pan drengodd ar y pren,
Oedd drws ei gorph fel porphor lên!—
Ac wrth ei gofio, gweddus im'
Ro'i iddo'm calon a phob dim."

Ac ond i ni gofio Gethsemane a Chalfaria—ond i ni syllu ar y fàn lle y gorweddodd, a'r bryn o ba un yr esgynodd i ogoniant—ond i ni feddwl am ei gydymdeimlad presenol, a'r lle y mae'n barotoi i ni,—bydd yn anhawdd i ni beidio ymffrostio yn ei groes, cymdeithasu â'i ddyoddefiadau, ac ymgysegru i'w wasanaeth: ac felly croeshoelir y byd i ni, a ninau i'r byd.

Ac heblaw rhoddi ei *einioes* yn bridwerth drosom, gadawodd i ni *siampl* fel y canlynem ei ol ef. Aeth o amgylch gan wneuthur daioni—i iachâu y claf, i borthi y newynog, i addysgu yr anwybodus, i esmwythâu y blinderog, i gysuro y galarus; a dylem hefyd gofio geiriau yr Arglwydd Iesu, ddywedyd o hono ef—"Dedwydd yw rhoi yn hytrach na derbyn."

"Pa bethau bynag oll a ewyllysioch eu gwneuthur o ddynion i chwi, felly gwnewch chwithau iddynt hwy, canys hyn yw'r gyfraith a'r prophwydi." "Edrychwch ac ymogelwch rhag cybydd-dod: canys nid yw bywyd neb yn sefyll ar amlder y pethau sydd ganddo." "Cerwch eich gelynion, a gwnewch dda, a rhoddwch echwyn, heb obeithio dim drachefn; a'ch gwobr a fydd mawr, a phlant fyddwch i'r Goruchaf: canys daionus yw efe i'r rhai anniolchgar a drwg. Byddwch gan hyny drugarogion, megis ag y mae eich Tad yn drugarog. Rhoddwch, a rhoddir i chwi; mesur da, dwysedig, ac wedi ei ysgwyd, ac yn myned trosodd, a roddant yn eich mynwes: canys â'r un mesur ag y mesuroch y mesurir i chwi drachefn." "Llewyrched felly eich goleuni ger bron dynion, fel y gwelont eich gweithredoedd da chwi, ac y gogoneddont eich Tad yr hwn sydd yn y nefoedd." "Na thrysorwch iwch drysorau ar y ddaear, lle y mae gwyfyn a rhŵd yn llygru, a lle y mae lladron yn cloddio trwodd ac yn lladrata. Gwerth-

wch yr hyn sydd genych, a rhoddwch elusen. Gwnewch i chwi byrsau y rhai ni heneiddiant; trysor yn y nefoedd, yr hwn ni dderfydd, lle ni ddaw lleidr yn agos, ac ni lygra pryf. Canys lle mae eich trysor chwi, yno y bydd eich calon hefyd." "Gwnewch i chwi gyfeillion o'r Mammon anghyfiawn: fel pan fo eisiau arnoch y'ch derbyniont i'r tragwyddol bebyll."

"Ni ellwch wasanaethu Duw a Mammon." Nis gall dim fod yn fwy croes i holl ansawdd Cristionogaeth na thymer gul gybyddlyd. Gelynion croes Crist ydyw pawb a syniant bethau daearol. Rhoddwn heibio, gan hyny, bob pwys, a'r pechod yma sydd mor barod i'n hamgylchu, a thrwy amynedd rhedwn yr yrfa a osodwyd o'n blaen ni; gan edrych ar Iesu, Pen Tywysog a pherffeithydd ein ffydd ni: yr hwn yn lle y llawenydd a osodwyd iddo, a ddyoddefodd y groes, gan ddiystyru gwaradwydd, ac a eisteddodd ar ddeheulaw gorseddfainc Duw. Crefydd bur a dihalogedig ger bron Duw a'r Tad yw hyn, ymweled â'r amddifaid, a'r gwragedd gweddwon yn eu hadfyd; ac ymgadw yn ddifrycheulyd oddiwrth y byd. Y mae haelioni a nefolfrydedd yn ddwy o brif nodweddiadau crefydd Iesu. "Crefydd ydyw," fel y crybwylla Syr Mathew Hale, "ag sy'n dysgu symledd, uniondeb, geirwiredd, diniweidrwydd, a thegwch mewn pob cydfasnachaeth: ag sy'n dysgu gostyngeiddrwydd, hunan-ymwadiad, a diystyrwch o deganau y byd; ag sy'n ein dysgu i gyfeirio ein bryd, a'n hymdrech, a'n gobaith at fyd ar ol hwn: crefydd ac adfyd, yn lle gorwychder, yn arwyddnod ar ei baner: crefydd ydyw a ddigllawn gondemnia bob twyll, hoced, a chelwydd; bob rhagrith, cnawdolrwydd, a chybydd-dod; bob uchel-gais, a bydol serch. Dysgodd ei Hawdwr hyn drwy holl gylch ei

weinidogaeth; cadarnhaodd hyn drwy gyson rediad ei siampl; ac amlygodd yn ei ewyllys diweddaf, mai hyn oedd i fod yn Rheol-drefn bucheddiad ei ganlynwyr: a'r dirmyg mwyaf ellir daflu ar grefydd Iesu ydyw ei gwneuthur yn gochl cybydd-dod, ac yn dramwyfa budr elw." Yr oedd yr Iuddewon, fel y profir gan amryw esbonwyr, yn cysegru mwy na'r *bumed* ran o'u heiddo at ddybenion crefyddol; ac os oedd haeledd yn amlhau felly dan ddeddf Moses, dylai ragor-amlhau dan efengyl Crist. Os oedd *Iuddewaeth*, yr hon oedd yn sefydliad amcanedig yn benaf er lles *un* bobl, yn gofyn cymaint oddiwrth ei phleidwyr, diau y dylai Cristionogaeth, yr hon sy'n cynwys newyddion da o lawenydd mawr i'r *holl* bobl, gael ein hegniadau helaethaf er ei lledaeniad: ac ymhelaethu yngweinidogaeth y swydd hon, er cyflawni diffygion y Saint, a gwneuthur da i bawb ydyw y prawf cadarnaf a allwn roddi o ddarostyngiad ein cyffes i efengyl Crist.

Eithr o flaen pob peth dylem fod yn *wiliadwrus i weddiau*, rhag i'n calonau un amser drymhau trwy "ofalon y bywyd hwn;" canys y mae yspryd cybydd-dod yn perthynu i'r rhywiogaeth nad â allan ond trwy "*weddi* ac ympryd." Y mae yn "bla gwahanglwyf" nad oes dim ond iachusol rinweddau gwaed yr Oen all byth ei feddyginiaethu. Y mae'r byd yn elyn nad ellir byth ei orchfygu heb gymorth Yspryd Crist, yr hwn sydd addewedig i gynorthwyo ein gwendid ni; a llawer a ddichon taer weddi y ffydd yn yr ymdrech yma. Gall *ffydd* godi pont dros y gwagle, a chael rhydd-dramwyfa o'r byd hwn i fyd arall: ac egyr *gweddi* ffenestri y nef gan ollwng i lawr y fath ffrŵd lifeiriol o ogoniant ag a ddiffydd mewn munudyn hûd-lewyrchiad teganau y llwch. A chan fod arferyd gweddi yn fodd-

ion hollol angenrheidiol er ein hymestyniad at y gras o haelioni, dylem, yn ol cyngor y Parchedig Thomas Gouge, "Ymdrechu mewn erfyniad ar i Dduw roddi i ni *galonau* tosturiol tuag at aelodau gweiniaid Crist, a *llaw* agored i gyflawni eu diffygion hyd eithaf ein gallu. Dylem daer erfyn am iddo—yn ol fel y mae wedi ein bendithio—ychwanegu y drugaredd o roddi i ni galon i ddefnyddio ei dda, mewn dull hael, fel arwydd o'n cariad ato, a'n diolchgarwch iddo. O mor anfynych y clywir neb yn ymbil am i'r Arglwydd blanu yn ei fynwes y gras ardderchog o haelfrydedd! Os buom hyd yma yn feius yn hyn, dylem heb oedi adnewyddu ein penderfyniad i lynu wrth yr orsedd, ac i beidio gollwng yr addewid nes cael y fendith."

Ac O! na byddai i holl eglwysi y Saint gydymdrech yn awr yn eu gweddiau am y fendith hon, nes cael eu gwneud yn "ardderchawgrwydd tragwyddol, ac yn llawenydd i'r holl genhedlaethau." Llewyrched felly eu goleuni ger bron dynion, fel y gweler eu gweithredoedd da, ac y gogonedder eu tad yr hwn sydd yn y nefoedd; ac fel, trwy hyny, y bendiger hwynt, ac y parer yn wastad iddynt oruchafiaeth yn Nghrist, ac yr eglurer arogledd ei wybodaeth trwyddynt yn mhob lle. Bydded i rymusder eu cariad fod mor eglur yn helaethder eu cymwynasau fel y troer ocheneidiau y greadigaeth yn ganiadau gorfoledd. Bydded i gyfoeth eu haelioni fod mor sicr ac mor ëang nes agor dorau gwawr Jubili y byd. Boed iddynt, *yr awr hon*, gydymdrechu mor ddiymod ac mor ffyddiog, nes trwy hyny, yr eniller teyrnasoedd y ddaear i fod yn eiddo i Grist, ac y gwneler ei fawr amryw ddoethineb a'i oludog râs ef yn fwy fwy hysbys o hyd i sanctaidd a haelfrydig Dywysogaethau y Nef.

---

LLANRWST: ARGRAFFWYD GAN J. JONES.